Arsyllfa Wledig Cymru
Wales Rural Observatory

# TYFU BWYD YN Y GYMUNED YNG NGHYMRU

2012

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# TABL CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| Cynnwys | | 1 |
| Crynodeb Gweithredol | | 2 |
| ADRAN 1 | RHAGYMADRODD A METHODOLEG | 7 |
| ADRAN 2 | Y GWEITHGAREDDAU CYFREDOL YNG NGHYMRU | 15 |
| ADRAN 3 | AROLWG TYFU CYMUNEDOL: DADANSODDIAD | 31 |
| ADRAN 4 | YR ASTUDIAETHAU ACHOS | 48 |
| ADRAN 5 | TYFU BWYD YN GYMUNEDOL MEWN YSGOLION: AROLWG | 70 |
| ADRAN 6 | CASGLIADAU AC ARGYMHELLION POLISI | 83 |
| Llyfryddiaeth | | 90 |
| Atodiadau | | 91 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn rhoi golwg cyffredinol ar ymchwil a wnaed gan yr Arsyllfa rhwng Gorffennaf 2010 a Rhagfyr 2011 i ymchwilio i weithgareddau ynglyn â chynhyrchu a dosbarthu 'bwyd a dyfir yn gymunedol' yng Nghymru.

Yn 2010, comisiynodd Llywodraeth Cymru Arsyllfa Wledig Cymru i gynnal adolygiad i nodi'r hyn y gellid ei wneud i hyrwyddo a hybu 'Tyfu Cymunedol' yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn ar yr ymchwil yn cynnig archwiliad manwl o'r gweithgareddau cyfredol sy'n ymwneud â chynhyrchu a dosbarthu 'bwyd a dyfir yn gymunedol' yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar bedwar maes gweithgaredd, sef Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned [CSA], gerddi cymunedol, garddio ar randiroedd a gweithgareddau ynglyn â thyfu bwyd yn gymunedol mewn ysgolion. Yn ogystal ag amlygu'r arferion gorau, ceisiodd yr ymchwil nodi'r rhwystrau presennol sy'n atal pobl rhag mabwysiadu gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol, gan ddefnyddio dadansoddiad manwl o ddata o gyfweliadau ac arolygon.

Cafwyd chwe chyfnod ymchwil yn ystod y prosiect. Yn gyntaf, cyfwelwyd â'r rhanddeiliaid allweddol ac â swyddogion o Lywodraeth Cymru a oedd yn aelodau o Grwp Gorchwyl a Gorffen Tyfu Bwyd yn Gymunedol, a chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y cyfnod cyntaf hefyd yn cynnwys adolygiad wrth y ddesg o unrhyw weithgareddau tyfu cymunedol a gwblhawyd neu a oedd yn parhau ac a gafodd gymorth o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru (RDP) 2007-2013. Yn ail, cafwyd arolwg cynhwysfawr o'r holl brosiectau tyfu cymunedol hysbys yng Nghymru. Yn drydydd, ac yn sgil yr arolwg, dewiswyd 20 o brosiectau tyfu cymunedol i'w harchwilio'n fanylach. Fel rhan o'r gwaith manwl ar yr astudiaethau achos hyn, cafwyd cyfres o gyfweliadau hefyd â chynrychiolwyr sefydliadau tyfu cymunedol yn Lloegr a'r Alban er mwyn cymharu data ac enghreifftiau o'r arferion gorau mewn tyfu cymunedol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Yn bedwerydd, cafwyd archwiliad manwl ar lefelau presennol tyfu bwyd yn gymunedol mewn ysgolion drwy gyfrwng holiadur i holl ysgolion Cymru. Yn olaf, cynhaliwyd grwp ffocws gydag aelodau'r Grwp Gorchwyl a Gorffen a chyfres o drafodaethau mewn gweithdai gyda chynrychiolwyr o brosiectau tyfu cymunedol Ledled Cymru.

## Y CANFYDDIADAU ALLWEDDOL A'R ARGYMHELLION

**Rhandiroedd, Gerddi Cymunedol a chynlluniau CSA**

*Sampl yr arolwg*

Ymatebodd cyfanswm o 196 o brosiectau tyfu cymunedol i'r arolwg, sef cyfradd ymateb o 34%. Rhandiroedd oedd bron tri chwarter (73%) o'r sampl, roedd ychydig yn llai na chwarter (24%) yn erddi cymunedol ac roedd y 3% arall (5 prosiect) yn gynlluniau CSA.

*Demograffeg*

Cafwyd amrywio sylweddol ym mhroffil oedran a rhywedd yr unigolion yn y gwahanol fathau o dyfu cymunedol. Gwrywod oedd tua thri chwarter yr aelodau ar safleoedd rhandiroedd ac roedd 43% yn 60 oed a throsodd. Er hynny, dangosodd cyfweliadau â chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol fod demograffeg rhandiroedd yn newid, gyda mwy o ddiddordeb o du grwpiau cymunedol, teuluoedd, ac unigolion ag anghenion penodol neu broblemau iechyd meddwl. O ganlyniad, roedd yna gydnabyddiaeth y dylai safleoedd

rhandiroedd addasu er mwyn ateb newidiadau mewn anghenion - er enghraifft, drwy gynnig mannau cymunedol i weithgareddau grwpiau a chymunedau a mannau chwarae i blant.

Yn achos gerddi cymunedol roedd y gymhareb rhywedd yn fwy cyfartal, gyda 52% o'r aelodau'n wrywod a 48% yn fenywod. Roedd cyfran uwch o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn garddio cymunedol hefyd o'i gymharu â rhandiroedd. Er enghraifft, roedd dau o bob pum aelod ar erddi cymunedol rhwng 16 a 34 oed.

*Defnyddio safleoedd a gweithgareddau*

Rhoddodd yr arolwg dystiolaeth o amryw o weithgareddau tyfu – tyfu llysiau, ffrwythau a blodau, yn ogystal â chnydau lled-drofannol a chnau; a gweithgareddau eraill fel cadw ieir a hwyaid, a chadw gwenyn. Ar draws y sampl gyfan, dywedodd 59% o'r prosiectau fod eu safle hefyd yn cael ei reoli i hybu bioamrywiaeth a bywyd gwyllt. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos CGs a chynlluniau CSA. Roedd y dibenion eraill yn cynnwys ymweliadau addysgol (29%), diwrnodau agored (24%) a digwyddiadau cymunedol (23%).

*Rhwydweithio a chydweithio*

Roedd ychydig o dan hanner (48%) yr holl brosiectau tyfu cymunedol yn yr arolwg yn perthyn i sefydliad proffesiynol neu gynrychioliadol. Y prif sefydliadau oedd Ffederasiwn y Ffermydd Dinas a'r Gerddi Cymunedol (FCFCG), Cymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Rhandir a'r Garddwyr Hamdden (NSALG), Groundwork ac Amgylchedd Cymru.

Ar gyfartaledd roedd 44% o gynrychiolwyr y safleoedd o'r farn bod y cymorth a'r cyngor sydd ar gael ynglyn â thyfu cymunedol yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. CGs oedd fwyaf cadarnhaol am y ddarpariaeth yma.

Cafwyd tystiolaeth hefyd o ystod eang o gydweithredu - dywedodd 53% o'r prosiectau tyfu cymunedol yn yr arolwg eu bod yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol yn eu hardal, roedd ychydig o dan un rhan o dair (31%) yn ymwneud ag ysgolion ac roedd 29% arall yn cydweithio â phrosiectau tyfu cymunedol eraill. Roedd y partneriaid cydweithredol nodedig eraill yn cynnwys grwpiau ieuenctid (15%), elusennau lleol (14%) a sefydliadau iechyd (10%).

At ei gilydd, y prif gymhellion dros gydweithredu oedd rhannu profiadau a'r arferion gorau (40%), rhannu arbenigedd (38%) a gwneud gweithgareddau cydategol (27%).

*Y cymhellion allweddol*

Prif gymhellion pobl dros gymryd rhan mewn tyfu cymunedol oedd 'gwella iechyd a lles personol' (84%), 'cyfarfod â phobl eraill' (67%), 'datblygu system fwyd amgen' (56%), 'cynyddu lefel cynhyrchu bwyd lleol' (42%), a 'rhoi mynediad agored i dir' (35%).

*Y cyraeddiadau allweddol*

Roedd prif gyraeddiadau'r prosiectau a nodwyd gan yr ymatebwyr yn ymwneud â manteision iechyd (53%), cynhyrchu a bwyta bwyd lleol (49%), cynhwysiant cymdeithasol (39%), gwella'r amgylchedd lleol (35%), a mwy o welliannau i'r amgylchedd (35%). Hefyd, roedd 21% o'r prosiectau tyfu cymunedol yn yr arolwg wedi ennill gwobrau neu ddyfarniadau.

*Y rhwystrau allweddol*

Nododd yr ymchwil bedwar rhwystr allweddol y bernid eu bod yn atal gweithgareddau tyfu cymunedol rhag bod yn fwy arwyddocaol ledled Cymru.

Yn gyntaf, mae'r diffyg tir yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhwystr mawr i atal creu gweithgareddau i dyfu bwyd yn y gymuned ledled Cymru, gan fod y galw am dir yn y sector cymunedol yn llawer uwch na'r ffynonellau traddodiadol sydd ar gael. Lle'r oedd tir yn cael ei ddarparu, dangosodd yr arolwg a'r astudiaethau achos dystiolaeth bod prosiectau tyfu cymunedol yn cael problemau o ran y system gynllunio ac o ran diogelwch deiliadaeth tir.

Yn ail, roedd yr aelodau'n beirniadu natur ysbeidiol a chymhleth iawn y ffrydiau a'r prosesau ariannol, a oedd yn eu barn nhw yn cymhlethu datblygiad y prosiectau presennol ac yn atal gweithgareddau newydd rhag cael eu creu.

Yn drydydd, dangosodd tystiolaeth yr ymchwil fod y canllawiau a'r gwasanaethau cymorth i brosiectau tyfu cymunedol yn dameidiog iawn ac roedd fel petai diffyg cydlynu strategol ar y lefel genedlaethol.

Yn olaf, cafwyd pryderon am ddarparu addysg a hyfforddiant mewn sgiliau garddwriaeth a'r ffaith nad oedd y rhain bob amser ar gael yn hwylus i bob prosiect ledled Cymru.

*Gweithgareddau yn y dyfodol*

Roedd ychydig yn fwy na chwarter (27%) y prosiectau yn bwriadu ehangu eu gweithgareddau yn y dyfodol, roedd 10% arall yn bwriadu ehangu eu gweithgareddau drwy arallgyfeirio mewn meysydd eraill, a dywedodd 44% o'r prosiectau y byddai eu gweithgareddau yn aros yr un fath yn fras. Roedd cyfran uwch o brosiectau garddio cymunedol a chynlluniau CSA yn bwriadu ehangu eu gweithgareddau yn y dyfodol (42% a thri phrosiect yn y drefn honno).

## Tyfu Bwyd yn Gymunedol mewn Ysgolion

*Sampl yr Arolwg*

I sicrhau gwybodaeth am natur a graddfa gweithgareddau garddio mewn ysgolion ledled Cymru, dosbarthwyd holiadur i bob ysgol a gynhelir gan y llywodraeth a phob ysgol annibynnol yng Nghymru.

O'r 1844 o ysgolion y cysylltwyd â nhw, daeth 692 o ymatebion i law, sef cyfradd ymateb o 38%. Ysgolion cynradd oedd y mwyafrif (78%) o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg, ac ysgolion uwchradd oedd 12% o'r samplau o'r arolwg. Ysgolion arbennig (3%), ysgolion annibynnol (3%), meithrinfeydd (2%) ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (1%) oedd yn ffurfio'r 10% arall.

*Gweithgareddau poblogaidd*

Dangosodd yr arolwg fod yr ysgolion yn cynnig toreth o weithgareddau garddio a hynny ar dir yr ysgol a'r tu hwnt iddo. Y gweithgareddau garddio mwyaf poblogaidd oedd tyfu llysiau (92%) a blodau (84%). Roedd 67% arall wedi datblygu ardal bywyd gwyllt ar dir yr ysgol ac roedd 62% yn rhedeg clwb garddio. Roedd ychydig dros hanner yr holl ysgolion yn trefnu ymweliadau â safle cymunedol a safleoedd eraill ac roedd traean yn gwahodd aelodau o'r gymuned i helpu yn y gweithgareddau garddio.

*Cydlynu gweithgareddau garddio*

Roedd gweithgareddau garddio'r ysgolion wedi'u cychwyn ac yn cael eu cydlynu gan athrawon a staff cymorth, yn ogystal â disgyblion. Er hynny, roedd yna awgrymiadau bod y gweithgareddau garddio mewn llawer o ysgolion yn cynnwys cyfraniadau gweithgar gan bob aelod o gymuned yr ysgol - rhieni, neiniau a theidiau, llywodraethwyr, gofalwyr, cynorthwywyr glanhau a chogyddion.

*Y nodau allweddol*

Dywedodd mwyafrif arwyddocaol (93%) o'r ymatebwyr fod gweithgareddau garddio'r ysgol yn anelu'r bennaf at wella ymwybyddiaeth amgylcheddol y disgyblion, ac roedd cyfran uchel tebyg (87%) yn defnyddio'r gweithgareddau hyn i roi cyfleoedd i'r myfyrwyr godi a datblygu sgiliau garddio. Roedd canran fawr o'r ymatebwyr (92%) hefyd yn teimlo bod gweithgareddau garddio yn cyfrannu at wella amgylchedd ehangach yr ysgol.

Roedd canlyniadau'r arolwg hefyd yn adlewyrchu rôl yr ysgolion mewn codi ymwybyddiaeth ynghylch bwyta'n iach a ffordd iach o fyw, gydag 87% o'r ymatebwyr yn dweud bod eu gweithgareddau garddio yn anelu at wella dealltwriaeth gyffredinol y myfyrwyr o faterion bwyta'n iach a maeth.

*Garddio fel adnodd dysgu ar draws yr ysgol ac ar draws y cwricwlwm*

Roedd llawer o ysgolion yn defnyddio gardd yr ysgol fel adnodd dysgu creadigol trawsgwricwlaidd a oedd yn cael ei ymgorffori mewn ystod eang o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn ogystal ag yn fwy anffurfiol drwy addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg iechyd, dysgu cysylltiedig â gwaith a gweithgareddau hamdden.

*Pwysigrwydd cynyddol garddio yn yr ysgol*

Roedd naw o bob deg o ysgolion wedi cynyddu'r ddarpariaeth garddio yn yr ysgol yn y pum mlynedd diwethaf. Y rheswm a roddwyd amlaf dros y cynnydd oedd mwy o ymwybyddiaeth ymhlith athrawon a staff yr ysgol o fanteision posibl garddio yn yr ysgol (58%). Rhesymau eraill a roddwyd oedd mwy o gyfleoedd i arddio yn yr ysgol (51%) a staff i gynnal gweithgareddau garddio (47%).

*Cyngor a chymorth i arddio yn yr ysgol*

Dywedodd chwarter o'r ysgolion eu bod wedi cael gwybodaeth am fanteision garddio yn yr ysgol gan eu hawdurdod lleol, ac roedd 22% wedi cael adnoddau dysgu awyr agored ac offer i helpu i gynnal gweithgareddau garddio.

Roedd yr ysgolion yn debycach o ddefnyddio'r cymorth ychwanegol gan ffynonellau y tu allan i amgylchedd yr ysgol, gan gynnwys busnesau lleol (33%), ysgolion eraill (32%) a phrosiectau tyfu eraill (21%). Roedd ffynonellau ychwanegol cymorth gwirfoddol yn cynnwys sefydliadau iechyd lleol ac elusennau lleol. Roedd rhai ysgolion yn cydweithio hefyd â sefydliadau cenedlaethol a sefydliadau garddio.

*Y rhwystrau allweddol*

Cafodd dau rwystr allweddol sy'n atal garddio yn yr ysgol eu henwi gan yr ymatebwyr. Cyllid oedd y cyntaf gan fod y mwyafrif o ysgolion yn dibynnu ar symiau bach o arian o gyllidebau presennol yr ysgol i gynnal gweithgareddau garddio. Yn ail, soniodd yr ymatebwyr am broblemau llwyth gwaith athrawon, gan fod gweithgareddau garddio yn aml yn dibynnu ar ewyllys da a brwdfrydedd aelodau unigol o'r staff a'r myfyrwyr.

*Gweithgareddau yn y dyfodol*

O'u holi am eu cynlluniau at ddatblygu gweithgareddau garddio yn y dyfodol, roedd yr ysgolion yn hynod o gadarnhaol, gyda 78% yn dweud eu bod yn bwriadu cynyddu lefel y gweithgareddau garddio yn eu hysgolion yn y dyfodol.

**Argymhellion**

Mae naw o argymhellion allweddol yn deillio o ganfyddiadau'r ymchwil:

1. Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad strategol i hybu a chynnal gweithgareddau tyfu yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau perthnasol eraill, ar lefel genedlaethol a lleol, i ddatblygu a gwireddu potensial tyfu cymunedol yng Nghymru.

2. Mae angen ymatebion polisi di-fwlch i ganfyddiadau'r adroddiad hwn. Mae'n glir bod gweithgareddau tyfu cymunedol yn berthnasol o ran amrediad eang o feysydd polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys addysg a sgiliau, iechyd a gweithgarwch corfforol, tai, cynllunio, adfywio cymunedau, datblygu cynaliadwy, cyfiawnder cymdeithasol a menter gymdeithasol.

3. Dylai'r awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau ffurfiol ar dyfu cymunedol, gan greu cysylltiadau ffurfiol â chynlluniau strategol yr awdurdodau lleol, polisïau cynllunio defnyddio tir a pholisïau a strategaethau eraill.

4. Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau clir i'r awdurdodau lleol, gan osod eu rôl wrth hybu a chynnal gweithgareddau tyfu cymunedol.

5. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth uchel i ryddhau tir at dyfu cymunedol, drwy (i) creu gwasanaeth banc tir cymunedol i hwyluso mynediad i dir, a (ii) dechrau arolwg i ddod o hyd i'r holl dir cyhoeddus a allai dyfu bwyd yng Nghymru.

6. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ffrwd ariannol ddynodedig ar gyfer tyfu cymunedol, i dalu costau cychwynnol, helpu i sefydlu safleoedd newydd a helpu i ddefnyddio tir dros dro i ateb anghenion sylfaenol y prosiectau.

7. Dylai hyfforddiant ac addysg mewn sgiliau garddwriaeth gael eu cydlynu'n well er mwyn gwella'u hansawdd a sicrhau eu bod ar gael i bob math o weithgareddau tyfu cymunedol.

8. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i annog a helpu ysgolion ledled Cymru i ddatblygu gweithgareddau garddio ysgol fel adnodd i ychwanegu at ddysgu trawsgwricwlaidd.

9. Dylid mynd i'r afael â'r bylchau yn y cymorth a'r canllawiau presennol drwy sefydlu rhwydwaith cymorth Cymru gyfan sy'n cysylltu gwahanol fathau o dyfu cymunedol ledled Cymru, sy'n eu cyfeirio at wybodaeth ac sy'n fforwm i grwpiau tyfu gyfathrebu drwyddo.

# ADRAN 1: RHAGYMADRODD A METHODOLEG

**Rhagymadrodd**

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Arsyllfa Wledig Cymru i gynnal adolygiad i nodi'r hyn y gellid ei wneud i hyrwyddo a hybu 'Tyfu Cymunedol' yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn ar yr ymchwil yn cynnig archwiliad manwl o'r gweithgareddau cyfredol sy'n ymwneud â chynhyrchu a dosbarthu 'bwyd a dyfir yn gymunedol' yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar bedwar maes gweithgaredd, sef Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned [CSA], gerddi cymunedol, garddio ar randiroedd a gweithgareddau ynglyn â thyfu bwyd yn gymunedol mewn ysgolion. Yn ogystal ag amlygu'r arferion gorau, ceisiodd yr ymchwil nodi'r rhwystrau presennol sy'n atal pobl rhag mabwysiadu gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol, gan ddefnyddio dadansoddiad manwl o ddata o gyfweliadau ac arolygon.

Mae i ganfyddiadau'r ymchwil oblygiadau ar gyfer ystod eang o feysydd polisi; mae gan dyfu cymunedol lawer o fanteision posibl, sy'n gysylltiedig â nodau polisi'r Rhaglen ar gyfer Llywodraeth ac yn torri ar draws nifer o bortffolios Gweinidogion gan gynnwys yr amgylchedd, iechyd, addysg a hyfforddiant, datblygu'r economi a datblygu cymunedau. Mae ynddo gryn botensial hefyd i wireddu ymrwymiadau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, a lleihau olion troed carbon ac olion troed ecolegol.

Mae arolwg yr Arsyllfa o brosiectau tyfu cymunedol yng Nghymru yn llenwi bwlch yn y dystiolaeth drwy ganolbwyntio ar bob lefel o dyfu cymunedol yng Nghymru er mwyn casglu gwybodaeth a darparu data cynhwysfawr. Wrth wneud hynny, mae'r arolwg yn sefydlu cronfa o dystiolaeth ar gyfer sector sydd heb ei ystyried o'r blaen, ac sydd â'r potensial i gysylltu â gwaith sydd wedi'i orffen gan yr Arsyllfa ac sydd yn yr arfaeth iddi.

**Cyd-destun yr ymchwil**

Mae'r adroddiad ymchwil hwn yn rhan annatod o Gynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2010.[1] Yn y cynllun hwnnw, gofynnwyd i'r Arsyllfa edrych ar y gweithgareddau bwyd cymunedol sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar yng Nghymru, gan nodi'r hyn a allai gael ei wneud i hybu ac i annog rhagor o weithgarwch yn y maes. Yn unol â blaenoriaethau'r cynllun, cafodd yr ymchwil ei seilio ar bedwar nod allweddol:

- darparu archwiliad manwl o'r gweithgareddau cyfredol sy'n ymwneud â chynhyrchu a dosbarthu bwyd a dyfir yn gymunedol yng Nghymru;
- nodi'r arferion gorau wrth dyfu bwyd yn gymunedol, a hynny yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig;
- nodi'r rhwystrau sy'n atal gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol rhag datblygu yng Nghymru;
- rhoi asesiad o'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd at y dyfodol.

**Diffinio 'tyfu bwyd yn gymunedol'**

Mae'r term tyfu bwyd yn gymunedol [CGF] yn cael ei ddefnyddio yn yr ymchwil i ddisgrifio amrediad eang o weithgareddau a all gael eu rhannu'n fras yn bedwar maes gweithgarwch: garddio ar randiroedd, gerddi cymunedol, cynlluniau

[1] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn Gymunedol, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd.

Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned [CSA] a thyfu bwyd yn gymunedol mewn ysgolion. Mae'r is-adrannau a ganlyn yn rhoi disgrifiad byr o bob maes gweithgarwch.

*(i) Garddio ar randiroedd*

Lleiniau bach o dir sy'n cael eu rhentu i unigolion er mwyn tyfu cnydau bwyd yw rhandiroedd. Mae'r tir yn aml yn eiddo i'r awdurdod lleol, er bod y blynyddoedd diwethaf wedi gweld cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n cael eu hunanreoli ac yn nifer y safleoedd mewn perchnogaeth breifat. Mae rhandiroedd yn cael eu llywodraethu gan y Ddeddf Rhandiroedd ac mae rhwymedigaethau ar yr awdurdodau lleol o dan y Ddeddf hon. Mae rhandiroedd awdurdodau lleol naill ai'n statudol neu dros dro. Fel arfer mae gan randiroedd statudol brydles hir iawn, ac mae'r tir wedi cael ei brynu'n wreiddiol ar gyfer rhandiroedd neu wedi cael ei ddefnyddio wedi hynny ar gyfer rhandiroedd. Mae rhandiroedd dros dro'n cael eu rhentu gan awdurdod rhandiroedd neu'n eiddo iddo, ond bwriedir eu defnyddio at ryw ddiben arall yn y dyfodol.

*(ii) Gerddi cymunedol*

Dechreuodd cysyniad gerddi cymunedol tua diwedd y 19^eg^ ganrif mewn ardaloedd trefol yn yr Unol Daleithiau. Drwy ddefnyddio lleiniau tir a oedd heb eu hystyried o'r blaen ac oedd yn isel eu gwerth ar y farchnad, dechreuodd grwpiau isel ei hincwm sefydliadau llawr gwlad yn y gymuned leol i ddefnyddio garddwriaeth i gynhyrchu bwyd i'w fwyta yn unigol ac er lles y gymuned ar y cyd.

Yn fwy diweddar, mae'r mudiad garddio cymunedol wedi mudo i'r Deyrnas Unedig, lle mae i'w weld mewn ardaloedd trefol a gwledig. Y gwahaniaeth rhwng gardd gymunedol a gardd breifat yw'r ffaith ei bod yn aml yn cael ei gweld fel gardd gyhoeddus o ran perchnogaeth, mynediad a mesur o reolaeth ddemocrataidd. Mae gerddi cymunedol yn amrywio o ran yr hyn y maen nhw'n ei gynnig yn ôl yr anghenion lleol; bydd rhai yn cynnig man agored a gwyrddni, a bydd eraill yn gweithredu'n bennaf fel ffordd i ddarparu bwyd yn rhad i gymuned leol. Yn sgil ehangu ardaloedd trefol a'r prinder tir yn ei sgil, mae'n ymddangos bod y galw am erddi cymunedol ar gynnydd. Erbyn hyn mae gerddi cymunedol yn cael eu cydnabod fel ffenomen ryngwladol, ac yn cael eu gweld fel ffordd o gynyddu cyflenwadau bwyd lleol, yn ogystal â rhoi cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden (Ferris et al., 2001).

*(iii) Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned*

Mae Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA) yn ymagwedd arloesol at gynhyrchu a chyflenwi bwyd sy'n anelu at greu 'strong, close and mutually beneficial partnerships between communities and producers (Cymdeithas y Pridd, 2011). Credir bod cysyniad CSA wedi codi yn Japan a'r Swistir yn y 1960au a hynny yn sgil pryder ynghylch diogelwch bwyd a pharhad economaidd ffermwyr. Erbyn dechrau'r 1970au, aeth ffermwyr a defnyddwyr mewn sawl gwlad yn Ewrop, a oedd yn pryderu bod eu system fwyd yn cael ei ddiwydiannu, ati i greu'r model CSA sy'n cael ei ddefnyddio heddiw. Rhan fach o'r system fwyd ehangach yn y Deyrnas Unedig yw dull y CSA ar hyn o bryd, ond mae wedi cael sylw penodol yn y blynyddoedd diwethaf am ei fod yn cynnig cyfleoedd i wneud cysylltiadau uniongyrchol rhwng cynhyrchwyr bwyd a defnyddwyr, i gynnal cynhyrchiant bwyd cynaliadwy yn lleol, ac i sicrhau manteision ehangach, gan gynnwys gwella lles y rhai sy'n cymryd rhan, helpu i feithrin sgiliau, gwella ymwybyddiaeth am darddiad bwyd, a chynnig swyddi a chyfleoedd gwirfoddoli yn lleol.

Mae Cymdeithas y Pridd sydd wrthi'n hybu economïau bwyd lleol ers dechrau'r 1990s, yn rhannu'r dull CSA yn bedwar categori bras, ar sail eu perchnogaeth a'u harweinyddiaeth: mentrau dan arweiniad cynhyrchwyr (tanysgrifiad); mentrau dan arweiniad y gymuned (cydweithredol); partneriaethau rhwng cynhyrchwyr a chymunedau; a mentrau ffermio ym mherchnogaeth y gymuned (Cymdeithas y Pridd, 2011). Y cyntaf yw'r math mwyaf

cyffredin o CSA ac mae'n cynnwys cytundeb mewn contract rhwng fferm a grwp o ddefnyddwyr sy'n cael eu disgrifio fel 'cyfranddeiliaid', 'aelodau' neu 'danysgrifwyr'. Mae'r aelodau yn talu swm gosod i'r ffermwr neu'r cynhyrchydd ymlaen llaw yn gyfnewid am gyfran o'r cynhaeaf neu'r cynnyrch pan fydd yn barod. Drwy wneud hyn, mae tanysgrifwyr CSA yn rhannu'r risgiau yn ogystal â'r gwobrau ochr yn ochr â'r cynhyrchwyr bwyd.

*(iv) Tyfu bwyd yn gymunedol mewn ysgolion*

Roedd yr ymchwil hefyd yn anelu at gasglu gwybodaeth am natur a graddfa gweithgareddau tyfu neu arddio ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol Cymru, gan gynnwys unrhyw fath o arddio neu dyfu naill ai yn yr ysgol neu y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Er enghraifft, gweithgareddau fel gofalu am ardd flodau, gardd lysiau a/neu ardd berlysiau; clybiau garddio, ac ymweliadau â safleoedd eraill, fel gardd gyhoeddus, safle rhandiroedd neu ganolfan amgylcheddol. Mae'r Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol (RHS), drwy ei 'Hymgyrch dros Arddio yn yr Ysgol', yn annog ysgolion i ddatblygu gerddi i'w defnyddio gan y disgyblion fel ystafelloedd dosbarth awyr agored. Ers cael ei lansio yn 2007, mae'r ymgyrch wedi rhoi cymorth i fwy na 14,500 o ysgolion a sefydliadau eraill drwy'r Deyrnas Unedig.

**Cyfnodau allweddol yr ymchwil**

Rodd i'r ymchwil chwe chyfnod allweddol, sawl un yn cael eu cynnal yr un pryd. Yn gyntaf, cafwyd cyfres o gyfweliadau â'r cyfranddeiliaid allweddol a oedd yn ymwneud â rhoi agenda tyfu bwyd yn gymunedol ar waith. Roedd hyn yn cynnwys aelodau o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen a chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y cyfnod cyntaf hefyd yn cynnwys adolygiad wrth y ddesg o unrhyw weithgareddau tyfu cymunedol a gwblhawyd neu a oedd yn parhau ac a gafodd gymorth o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru (RDP) 2007-2013. Yn ail, cafwyd arolwg cynhwysfawr o'r holl brosiectau tyfu cymunedol hysbys yng Nghymru. Yn drydydd, ac yn sgil yr arolwg, dewiswyd 20 o brosiectau tyfu cymunedol i'w harchwilio'n fanylach. Yn bedwerydd, cafwyd archwiliad manwl ar lefelau presennol tyfu bwyd yn gymunedol mewn ysgolion drwy gyfrwng holiadur i holl ysgolion Cymru. Yn olaf, cynhaliwyd grwp ffocws gydag aelodau'r Grwp Gorchwyl a Gorffen a chyfres o drafodaethau mewn gweithdai gyda chynrychiolwyr o brosiectau tyfu cymunedol ledled Cymru. Wedyn cafodd allbynnau'r cyfnodau hyn eu bwydo i'r adroddiad terfynol. Mae'r is-adrannau a ganlyn yn rhoi gwybodaeth am y gwaith a wnaed ym mhob cyfnod.

*Cyfnod un: cyfweliadau â'r rhanddeiliaid allweddol*

Er mwyn ymchwilio'n llawn i natur y mudiad tyfu bwyd yn gymunedol yng Nghymru, cynhaliwyd cyfer o gyfweliadau manwl gydag aelodau o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn ymwneud â rhoi'r cynllun gweithredu ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru ac ystod o randdeiliaid allweddol o asiantaethau, sefydliadau a grwpiau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Ymdriniodd y cyfweliadau ag ystod o faterion, gan gynnwys iechyd ac addysg; bwyd, amaethyddiaeth, coedwigaeth a thir; cadwraeth a'r amgylchedd; ac economi cefn gwlad a menter gymdeithasol. Ceir rhestr o'r aelodau yn Atodiad 1.

Cynhaliwyd y cyfweliadau ar ffurf trafodaeth led-strwythuredig a oedd yn dilyn nifer o themâu allweddol a nodwyd gan dîm ymchwil yr Arsyllfa. Roedd y themâu a drafodwyd yn y cyfweliadau yn cynnwys:

- cyd-destun trefniadaeth a chyd-destun polisi tyfu bwyd yn gymunedol, gan gynnwys sut roedd aelodau'r cyfweliadau yn ymwneud â'r rhain;

- deall yr ystyron a oedd yn cael eu rhoi gan aelodau'r grwp i wahanol

elfennau yn y mudiad tyfu bwyd yn gymunedol;

- gweithredu a gwireddu gweithgareddau tyfu cymunedol, o ran gosod nodau ac amcanion, nodi'r buddiolwyr allweddol, rhwydweithio a chydweithredu, goresgyn y rhwystrau;

- nodi blaenoriaethau ar gyfer agenda tyfu bwyd yn gymunedol yng Nghymru yn y dyfodol.

Hefyd, cafwyd cyfres o gyfweliadau ffôn â chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn dod o hyd i adnoddau tir presennol llywodraeth leol sy'n cael eu neilltuo ar gyfer tyfu cymunedol. Defnyddiwyd yr wybodaeth o'r cyfweliadau hyn i greu darlun cyfoes o'r sefyllfa yn ardaloedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru, yn enwedig o gofio'r diffyg gwybodaeth gyflawn a chywir am raddfa gweithgareddau lleol tyfu bwyd yn gymunedol. Dilynodd y cyfweliadau fformat tebyg i gyfweliadau'r Grwp Gorchwyl a Gorffen, a chawsant eu strwythuro o amgylch nifer o themâu allweddol, gan gynnwys: ymwybyddiaeth o agendâu tyfu cymunedol ymhlith cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol; lefel yr ymwneud â gweithgareddau tyfu a sut roedd y rhain yn cael eu hymgorffori mewn rhaglenni gwaith ehangach; a lefel y cymorth sefydliadol i weithgareddau tyfu cymunedol ar lefel yr awdurdod lleol.

Yn ychwanegol at y cyfweliadau hyn, ceisiodd yr ymchwil ganfod hefyd i ba raddau yr oedd gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol yn cael eu hybu a'u cefnogi ar lefel yr awdurdodau lleol o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013. Gofynnwyd hefyd am wybodaeth gan y 18 Grwp Gweithredu Lleol (LAGs) sy'n gyfrifol am wireddu prosiectau a gweithgareddau cymunedol o dan Echelau 3 a 4 o'r RDP.

Gwyddom fod gwaith arwyddocaol arall wedi'i wneud dros y pedair blynedd diwethaf, yn enwedig rhaglen Ffederasiwn y Ffermydd Dinas a'r Gerddi Cymunedol' (FCFCG) 'Growing Together in Wales'[2] a fu'n rhedeg rhwng 2008 a 2010 a'u gwaith parhaus mewn cysylltiad â'r Rhaglen Tyfu Pobl.[3] Mae hefyd yn wir bod sefydliadau eraill wedi chwarae rhan bwysig i hybu a chefnogi tyfu cymunedol yng Nghymru, yn fwyaf arbennig Ffederasiwn Ymddiriedolaethau Groundwork, Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain (BTCV Cymru) a Cadwch Gymru'n Daclus.

*Cyfnod dau: Arolwg o weithgareddau Tyfu Bwyd yn Gymunedol yng Nghymru*

Ail gyfnod yr ymchwil oedd y rhan ddwysaf, sef archwiliad manwl o'r gweithgareddau cyfredol ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu bwyd a dyfir yn gymunedol yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu dosbarthu holiadur i bob cynllun a phrosiect tyfu cymunedol a oedd yn hysbys yng Nghymru.

Roedd proses yr arolwg yn cynnwys tri chyfnod gweithredol allweddol: dylunio'r holiadur; creu sampl yr arolwg; a chasglu'r data. Bellach trafodir pob un o'r gweithgareddau allweddol yn y cyfnodau yn eu tro.

*(i) Dylunio'r holiadur*

Bu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth fanwl a gafwyd yn ystod y cyfweliadau â'r rhanddeiliaid allweddol yn amhrisiadwy wrth fwydo dyluniad yr holiadur ar gyfer yr arolwg. Tynnodd y themâu allweddol o'r cyfweliadau, ar y cyd â gwybodaeth ychwanegol o'r llenyddiaeth academaidd

[2] Ceisiodd y rhaglen 'Growing Together in Wales' hybu a helpu i ddatblygu'r mudiad ffermio a garddio cymunedol yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod gweithredu o dair blynedd, lwyddodd y rhaglen i nodi a helpu mwy na 150 o brosiectau ffermio a garddio cymunedol, rhoi cyfleoedd i rwydweithio a hyfforddi yn y sector, a hwyluso partneriaethau newydd sydd wedi arwain at greu rhaglenni newydd sy'n anelu at ailgysylltu cymunedau â bwyd a'i gynhyrchu. Drwy'r gwaith hwn, sefydlodd yr FCFCG seiliau cadarn i'r mudiad tyfu bwyd yn gymunedol yng Nghymru gan baratoi'r ffordd i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn Gymunedol.

[3] Gweler t79 i gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen.

a'r llenyddiaeth bolisi, sylw at nifer o faterion allweddol ynglyn â gweithredu a gwireddu gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol. Roedd y rhain yn cynnwys her gweithgareddau cymunedol a'r sgiliau a'r wybodaeth arbenigol y mae eu hangen er mwyn gwireddu gweithgareddau tyfu bwyd; her rhwydweithio a gweithio mewn partneriaeth; a phryderon penodol ynghylch yr effaith ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd.

Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yng nghyfnod cychwynnol yr ymchwil hefyd yn pwysleisio bod angen darparu tri holiadur unigol - un i bob math o weithgaredd tyfu cymunedol, gan gymryd i ystyriaeth y blaenoriaethau a'r gweithgareddau gwahanol ym mhob categori. Cafodd set o gwestiynau safonol ei chynnwys hefyd ym mhob un o'r tri holiadur er mwyn sicrhau bod allbwn a chanlyniadau'r arolwg yn gyson. Gofynnodd y cwestiynau hyn am wybodaeth ar ystod o faterion allweddol gan gynnwys natur y safle neu'r prosiect; gwybodaeth am gydlynydd neu gydlynwyr y prosiect a'r grwpiau defnyddwyr allweddol, y gweithgareddau ar y safle; gwaith rhwydweithio a chydweithredu; cyraeddiadau arwyddocaol; problemau a heriau; canllawiau a chymorth; a'r gweithgareddau yn y dyfodol. Ceir copïau o'r holiaduron yn Atodiadau 2 i 4.

*(ii) Creu'r sampl*

Un o nodau allweddol yr arolwg oedd sicrhau bod yr holiaduron yn cael eu dosbarthu i bob safle rhandiroedd, pob gardd gymunedol, a phob cynllun CSA yng Nghymru. Bu'r dasg o sicrhau'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn cysylltu â phawb yn her gan lyncu llawer o amser am nad oedd yna gronfa ddata ganolog o weithgareddau a phrosiectau tyfu cymunedol yng Nghymru i'w chwilio. Roedd llawer o'r wybodaeth angenrheidiol yn cael ei storio gan fudiadau a grwpiau unigol, ac nid oedd ar gael yn gyhoeddus bob amser. Yn yr achosion hyn, bu aelodau o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen yn gweithredu fel porthorion ac yn helpu'r tîm ymchwil i ddod o hyd i ffynonellau gwybodaeth allweddol. Bu hyn yn ddefnyddiol hefyd pan oedd gwybodaeth gyhoeddus yn anghyflawn neu'n hen. Cafwyd nifer fach o achosion lle nad oedd cynllun tyfu'n perthyn yn dwt i un o'r categorïau penodedig; yn yr achosion hyn anfonwyd dewis o holiaduron at y cynllun neu'r prosiect.

Drwy ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd o amryw o ffynonellau, cafodd cronfa ddata o'r holl weithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol sy'n hysbys yng Nghymru ei llunio. Roedd y ffynonellau hyn yn cynnwys is-adrannau ac adrannau mewnol Llywodraeth Cymru; aelodau'r Grwp Gorchwyl a Gorffen; Cymdeithas Llywodraeth leol Cymru (CLlLC); ac awdurdodau lleol a chynghorau cymuned ledled Cymru. Yn unol â'r diffiniad a fabwysiadwyd ar gyfer yr ymchwil, cafodd y gronfa ddata ei rhannu yn dri chategori ar wahân - un o bob math o weithgaredd tyfu cymunedol. Sicrhaodd hyn fod y safleoedd neu'r prosiectau a gynhwyswyd yn y gronfa ddata yn cael yr holiadur oedd agosaf at eu prif weithgareddau.

Nodwyd cyfanswm o 569 o brosiectau tyfu cymunedol hysbys, gan gynnwys 381 o safleoedd rhandiroedd (cyhoeddus a phreifat), 172 o erddi cymunedol, 8 o gynlluniau CSA ac wyth o ffermydd cymunedol.[4]

*(iii) Casglu'r data*

Cafodd copïau Cymraeg a Saesneg o'r holiaduron eu dosbarthu i bob safle a phrosiect a restrwyd yn y gronfa ddata ym mis Ionawr 2011. Gofynnwyd yn benodol i'r arolwg gael ei lenwi gan gynrychiolydd y safle neu'r prosiect, a chafodd aelodau'r arolwg gyfle hefyd i lenwi'r arolwg ar-lein. Fel cymhelliant ychwanegol i gymryd rhan, cafodd pob arolwg a lenwyd ei gynnwys mewn loteri i ennill un o ddeg set o dalebau anrhegion Garddio Cenedlaethol o £50 a allai gael eu rhannu yn y cynllun.

[4] Er nad oedd y prosiectau hyn yn perthyn yn dwt mewn un o'r tri model a nodwyd yn ein diffiniad ninnau o dyfu cymunedol, fe gawson nhw eu cynnwys yn y gronfa ddata er mwyn sicrhau y byddai'r ymchwil yn dal unrhyw weithgareddau a oedd yn ymwneud â thyfu cymunedol.

Cafodd llythyr atgoffa a chopi arall o'r holiadur ei ddosbarthu yn gynnar ym mis Mawrth, ac estynnwyd y dyddiau cau terfynol tan ddiwedd Ebrill 2011. Cafwyd cyfradd ymateb o 34%; gan gynnwys 143 o randiroedd, 48 o brosiectau garddio cymunedol a phum cynllun CSA. Gwelir dosbarthiad daearyddol yr ymatebion yn Nhabl 1.1.

*Cyfnod tri: Y cyfweliadau â'r astudiaethau achos*

Y rhesymeg dros gynnal cyfweliadau â'r astudiaethau achos oedd y byddai'r arolwg tyfu cymunedol arolwg yn creu data meintiol yn bennaf, gydag ambell ddyfyniad darluniadol, ond byddai cyfweliadau wyneb yn wyneb â thyfwyr cymunedol yn caniatáu dealltwriaeth ddyfnach o'u profiad o dyfu cymunedol yng Nghymru. Dewiswyd yr astudiaethau achos o blith yr ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod yn fodlon rhoi cyfweliad. Ar sail canlyniadau'r arolwg, cafodd 20 o brosiectau eu dewis ar gyfer gwaith llawer manylach fel astudiaethau achos. Roedd y niferoedd a ddewiswyd yn adlewyrchu cyfran yr ymatebion ym mhob categori; roedd hyn yn cynnwys 11 o safleoedd rhandiroedd, chwe phrosiect garddio cymunedol a thri chynllun CSA. Ym mhob grwp, cafodd prosiectau eu dethol i sicrhau dosbarthiad daearyddol priodol ac i adlewyrchu amrywiaeth y prosiectau, o ran maint, strwythur rheoli, nodau ac amcanion a'u cyd-destunau yng nghefn gwlad, mewn trefi neu yn y cymoedd.

*Cyfnod pedwar: Arolwg o dyfu bwyd yn gymunedol mewn ysgolion*

Roedd y pedwerydd cyfnod yn golygu archwiliad manwl o gyflwr presennol tyfu bwyd yn gymunedol mewn ysgolion ledled Cymru. Er mwyn sicrhau gwybodaeth am natur a graddfa gweithgareddau garddio mewn ysgolion ledled Cymru, cafodd holiadur ei ddosbarthu i bob ysgol a gynhelir gan y llywodraeth a phob ysgol annibynnol, drwy ddefnyddio rhestr gyfoes a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd yr holiadur am wybodaeth gan ysgolion ledled Cymru ynghylch a oedden nhw'n ymwneud ar y pryd â gweithgareddau garddio gyda'u disgyblion, ac os felly beth oedd y prif ddylanwadau ar ymglymiad eu hysgol mewn gweithgareddau garddio. Gofynnwyd am wybodaeth hefyd am ba aelodau o gymuned yr ysgol oedd yn gyfrifol am drefnu a rheoli'r ymglymiad, a beth yn eu barn nhw oedd y prif fanteision oedd yn deillio o arddio yn yr ysgol, yn ogystal â'r prif heriau. Gofynnwyd i'r ysgolion hynny nad oedden nhw'n ymwneud â gweithgareddau garddio yn amgylchedd yr ysgol ddweud beth oedd yn eu hatal rhag ymwneud â dulliau dysgu wedi'u seilio ar arddio.

**Tabl 1.1 Dosbarthiad daearyddol yr ymatebion i'r arolwg**

| | Cyfanswm yr ymatebion i'r arolwg | Ymatebion Gerddi Cymunedol | Ymatebion Rhandiroedd | CSA |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | **3** | 0 | 4 | Na |
| Gwynedd | **4** | 4 | 0 | Na |
| Conwy | **10** | 6 | 4 | Na |
| Sir Ddinbych | **4** | 0 | 4 | Na |
| Sir y Fflint | **9** | 1 | 8 | Na |
| Wrecsam | **5** | 4 | 0 | Ie |
| Powys | **9** | 4 | 4 | Ie |
| Ceredigion | **4** | 2 | 1 | Ie |
| Sir Benfro | **20** | 3 | 15 | Ie |
| Sir Gaerfyrddin | **8** | 3 | 5 | Na |
| Abertawe | **14** | 3 | 11 | Na |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | **4** | 2 | 2 | Na |
| Pen-y-bont ar Ogwr | **8** | 1 | 7 | Na |
| Bro Morgannwg | **3** | 2 | 1 | Na |
| Rhondda Cynon Taf | **14** | 3 | 11 | Na |
| Merthyr Tudful | **3** | 0 | 3 | Na |
| Caerffili | **31** | 1 | 29 | Ie |
| Blaenau Gwent | **14** | 1 | 13 | Na |
| Tor-faen | **6** | 2 | 4 | Na |
| Sir Fynwy | **6** | 1 | 5 | Na |
| Casnewydd | **6** | 0 | 6 | Na |
| Caerdydd | **11** | 5 | 6 | Na |
| Gwledig | **35%** | 48% | 29% | 3 |
| Lled-wledig | **9%** | 15% | 6% | 1 |
| Cymoedd | **41%** | 21% | 48% | 1 |
| Trefol | **16%** | 17% | 16% | 0 |
| **Cyfanswm** | **196** | **48** | **143** | **5** |

Roedd y mwyafrif o gwestiynau'r arolwg yn caniatáu mwy nag un ateb. Yn y cwestiynau hyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis pob ymateb a oedd yn gymwys i weithgareddau garddio'r ysgol. O ganlyniad, nid yw llawer o'r atebion hyn yn adio i 100%. Rhaid nodi hefyd na wnaeth sawl un o'r ymatebwyr roi ymateb i bob cwestiwn yn yr arolwg. O ganlyniad, gall maint y sampl amrywio yn rhai o'r ymatebion i'r arolwg. Pan oedd yn berthnasol, gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr roi rhagor o wybodaeth am unrhyw weithgareddau ychwanegol yn eu hysgol neu sylwadau ychwanegol am eu sefyllfa - os nad oedd y rhain wedi'u rhestru yn yr holiadur. Rhoddodd yr wybodaeth a gafwyd olwg ar natur garddio yn yr ysgol ledled Cymru. Hefyd, tua diwedd yr arolwg gofynnwyd i'r ymatebwyr roi unrhyw wybodaeth ychwanegol a oedd yn berthnasol i'r ymchwil yn eu barn nhw.

Cafodd holl ysgolion Cymru gopi o'r holiadur yn Gymraeg ac yn Saesneg, ynghyd â llythyr cyflwyno a oedd yn rhoi gwybodaeth gefndir am y prosiect ymchwil. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad 5, ac mae'r llythyr cyflwyno i'w weld yn Atodiad 6. Gallai'r ysgolion ymateb hefyd drwy ddefnyddio holiadur ar-lein a oedd ar gael ar wefan yr Arsyllfa. Llenwi'r arolwg ar-lein oedd yr opsiwn gorau gan fod hynny'n caniatáu i'r data gael ei roi yn gynt heb gymaint o ymdrech. Cafodd cylch cyntaf yr holiaduron eu dosbarthu ym mis Mehefin 2011, ac anfonwyd llythyr atgoffa a chopi arall o'r holiadur y mis wedyn. Estynnwyd y dyddiad cau terfynol tan ddiwedd mis Gorffennaf 2011 i sicrhau bod yr ymatebion yn dod i law cyn diwedd tymor yr haf. O'r 1844 o ysgolion y cysylltwyd â nhw, cafwyd cyfanswm o 692 o ymatebion, sef cyfradd ymateb o 38%.

*Cyfnod pump: Grwp ffocws gydag aelodau o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen*

Ym mis Hydref 2011, arweiniodd tîm ymchwil yr Arsyllfa grwp ffocws gydag aelodau o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen. Cafodd allbynnau'r grwp ffocws eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol ar y prosiect.

*Cyfnod chwech: Gweithdai rhanbarthol*

Cynhaliodd Ffederasiwn y Ffermydd Cymuned a'r Gerddi Dinas gyfres o bedwar gweithdy rhanbarthol wedi'u hanelu at brosiectau tyfu cymunedol ledled Cymru a sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a oedd yn ymwneud â thyfu cymunedol. Cynhaliwyd y rhain yn y Ganolfan Technoleg Amgen [CAT] ym Machynlleth, y Ganolfan Amgylchedd yn Abertawe, Ymddiriedolaeth Datblygu Creation ym Mlaengarw a Fferm Ymchwil Prifysgol Henfaes yn Abergwyngregyn, Bangor.

Edrychodd y gweithdai yn fanwl ar gwestiwn y tir sydd ar gael a rheolaeth tyfu cymunedol, gan ystyried materion ehangach a godwyd yn yr arolygon ac yn y cyfweliadau manwl. Wedyn cafodd

allbynnau'r gweithdai eu defnyddio i greu cyfres o argymhellion polisi i Lywodraeth Cymru, sydd wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad hwn.

**Cysylltu manylion y prosiect yn ofodol â ffynonellau data ychwanegol**

Yn ystod y broses casglu data roedd yn bwysig nodi pob cynllun tyfu cymunedol yn ddaearyddol er mwyn dilysu bod yr ymatebion wedi'u dosbarthu o safbwynt gofod ac er mwyn caniatáu i batrymau gofodol gael eu gweld. Roedd mapio'r data yn caniatáu dadansoddiad gofodol manylach a'r gallu i gysylltu ag ystadegau swyddogol y llywodraeth fel Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2011.

Cafodd lleoliad pob cynllun tyfu ei nodi drwy ddefnyddio'r cod post neu'r stryd agosaf fel cyfeirnod gofodol. Yna cafodd yr wybodaeth hon ei storio yn System Gwybodaeth Ddaearyddol [GIS] yr Arsyllfa, fel lleoliad pwynt, gan ddefnyddio cyfeirnod grid a geid o Ffeil o Gyfeiriadau Codau Post. O'u gosod yn y GIS gallai lleoliad pwynt pob cynllun gael ei gysylltu â'r data gofodol presennol sydd gan yr Arsyllfa. Defnyddiwyd y dechneg hon ar gyfer pob prosiect tyfu a ymatebodd ac mae map sy'n dangos dosbarthiad gofodol yr ymatebion ar gyfer pob model o dyfu cymunedol i'w weld yn Atodiadau 7 i 9.

Hefyd, cafwyd gwybodaeth am ble mae'r rhandiroedd, y gerddi cymunedol, y cynlluniau CSA a'r ysgolion yn yr arolwg wedi'u lleoli o'u cymharu â Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2011. Dangosodd y canlyniadau gyfran lai na'r disgwyl o gynlluniau yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gwelir y canlyniadau yn y Tabl yn Atodiad 10.

**Crynodeb:** Mae'r astudiaeth ymchwil hon wedi defnyddio ymagwedd dulliau cymysg i ymchwilio i natur a graddfa gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol yn ardaloedd gwledig a threfol Cymru. Mae'n defnyddio dadansoddiadau manwl o ddata o gyfweliadau, arolwg a grwpiau ffocws.

# ADRAN 2: Y GWEITHGAREDDAU CYFREDOL YNG NGHYMRU

**Rhagymadrodd**

Er mwyn ymchwilio'n llawn i natur y mudiad tyfu bwyd yn gymunedol yng Nghymru, ac yn y cyd-destun gwledig a threfol ehangach, cafwyd cyfres o gyfweliadau manwl â'r rhanddeiliaid allweddol, a oedd yn ymwneud yn agos â gweithredu a gwireddu polisïau a gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol yng Nghymru.

Ar gyfer y cyfnod hwn yn yr ymchwil, cynhaliwyd cyfweliadau â dau grwp penodol o randdeiliaid. Aelodau o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen oedd y grwp cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru a charfan eang o aelodau gwybodus o asiantaethau a sefydliadau allanol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Roedd yr ail grwp yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y grwp hwn yn cynnwys swyddogion rhandiroedd a swyddogion llywodraeth leol eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chydlynu a gwireddu gweithgareddau tyfu bwyd.

Yn ychwanegol at y cyfweliadau hyn, ceisiodd yr ymchwil ddisgrifio hefyd i ba raddau yr oedd gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol yn cael eu hybu a'u cefnogi ar lefel yr awdurdodau lleol o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013. Gofynnwyd am yr wybodaeth ddiweddaraf gan y 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol (LAGs) sy'n gyfrifol am wireddu prosiectau a gweithgareddau cymunedol o dan Echelau 3 a 4 o'r RDP. Sicrhaodd hyn y byddai unrhyw brosiectau a ddechreuodd ers dechrau'r ymchwil yn cael eu disgrifio a'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Mae'r adran a ganlyn yn edrych ar y canfyddiadau allweddol o'r cyfweliadau â'r rhanddeiliaid ac yn rhoi trosolwg byr o weithgareddau allweddol yr LAGs ledled Cymru.

## Cyfweliadau ag aelodau o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen

### Pwyso a mesur y ddealltwriaeth o Dyfu Bwyd yn Gymunedol

Gellir gweld tyfu bwyd yn gymunedol fel cysyniad hyblyg iawn, fel y gwelir yn y nifer fawr o ddiffiniadau a gynigiwyd gan aelodau o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen. At ei gilydd, roedd yn cael ei ddeall fel term cynhwysfawr i ddisgrifio ystod o weithgareddau ar draws gwahanol raddfeydd gofodol; o weithgareddau bach

unigol yn defnyddio blychau silff ffenest a gerddi preifat, a gweithgareddau grwp mewn cymuned, i drefniadau mwy ffurfiol fel cynllun CSA neu fenter gymdeithasol fasnachol. Un ffactor allweddol sy'n sail i'r ddealltwriaeth hon, a gafodd ei bwysleisio yn gyson, oedd ei fod yn cynnwys gweithgareddau y gallai unrhyw un gymryd rhan ynddyn nhw.

Diffiniad mwy pendant a gynigiwyd gan sawl aelod o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen oedd cysyniad tyfu bwyd yn gymunedol mewn termau gofodol, a hynny'n cynnwys ystod o weithgareddau wedi'u trefnu o amgylch lleoliad neu gymuned benodol. Mewn diffiniad o'r fath, roedd pwyslais yn cael ei roi ar gynyddu bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol, ei farchnata'n lleol a'i fwyta'n lleol, ac ar yr un pryd dod â chymunedau a grwpiau'n nes at ei gilydd er mwyn cyrraedd nod cyffredin. I lawer, bernid bod rôl y cymunedau unigol yn ganolog i athroniaeth gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol ac i lwyddiant cyffredinol y gweithgareddau, fel y nododd un o'r rhai y cyfwelwyd â nhw:

> '*I mi byddai tyfu bwyd yn gymunedol yn ymrwymiad gan y gymuned i leihau eu hôl troed carbon, lleihau milltiroedd bwyd a dod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch bwyd. Mae'n dangos eu bod nhw wrthi'n ceisio gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r agenda ehangach; o ran ceisio cymryd rhan i gyfrannu at agenda newid hinsawdd, ac mae hyn yn cynnwys diogelwch bwyd – mae'n amlwg eu bod yn llawer mwy ymwybodol bod eu bwyd yn dod o filltiroedd i ffwrdd mewn llawer o achosion, ac maen nhw'n ceisio gwneud rhywbeth am hynny. Hefyd, cynhwysiant cymdeithasol, felly mae'n ffordd o ddod â chymunedau at ei gilydd.*'

Ymhelaethodd un arall o aelodau'r cyfweliad ar y diffiniad:

> '*Rwy'n credu ei fod yn golygu sawl peth. Mae'n golygu bod unigolyn yn cymryd ychydig yn fwy o gyfrifoldeb a chael effaith gadarnhaol ar ei boced, dod â chymunedau at ei gilydd a rhoi ymdeimlad cryfach o gymuned iddyn nhw, ac rwy'n credu bod hynny'n eitha pwysig. Rwy'n credu ei fod yn rhoi grym i bobl ac yn rhoi cyfrifoldeb i bobl'.*

Cafodd rôl ehangach gweithgareddau tyfu bwyd wrth gyfrannu at egwyddor lles cyffredin ac wrth gyrraedd nod cyffredin drwy rannu risgiau, adnoddau, cyfrifoldebau a manteision ei phwysleisio hefyd gan nifer o'r sefydliadau amgylcheddol oedd yn cael eu cynrychioli yn y grwp, fel y gwelir yn y dyfyniadau hyn:

> *'mae [tyfu bwyd yn gymunedol] yn disgrifio cynhyrchu bwyd yn anfasnachol... a hynny ar sail egwyddorion lles cyffredin gyda chymorth gwirfoddolwyr, grwpiau buddiannau ac unigolion, i gyd yn creu ymdeimlad o fod gyda'ch gilydd.'*

> *'...petai'n rhaid ichi ddweud beth yw bwyd cymunedol, i fi byddai'n fwyd lle mae peth o'r elfen o brynu a gwerthu bwyd mewn ffordd gwbl fasnachol yn cael ei ddileu, fel bod yna ryw elfen o rannu'r risg a'r manteision rhwng y tyfwr a'r gwerthwr. Felly mae tyfwyr llysiau masnachol sy'n tyfu'r cyfan eu hunain yn cymryd y risg i gyd wrth ei werthu fe, ond mae bwyd sy'n cael ei dyfu yn gymunedol mewn rhyw ffordd neu ei gilydd yn rhannu'r risg.'*

## Rhwystrau a heriau sy'n atal tyfu cymunedol yng Nghymru

Nododd y cyfweliadau â'r rhanddeiliaid nifer o rwystrau a heriau, yr oedd llawer yn credu eu bod yn cyfyngu ar ddatblygiadau pellach gweithgareddau tyfu cymunedol ledled Cymru.

### Rhwystrau sy'n gysylltiedig â thir

*Y tir sydd ar gael*

Nodwyd mai prinder tir, cyhoeddus a phreifat, oedd un o'r prif gyfyngiadau ar ddatblygu gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol. Galwodd sawl aelod o'r cyfweliadau am fwy o gymorth i alluogi cymunedau ledled Cymru i adennill a datblygu cannoedd o erwau o dir segur y sector cyhoeddus, a allai gael ei ddefnyddio i gynyddu lefel y

gweithgareddau tyfu cymunedol ledled Cymru, fel y gwelir yn y dyfyniadau hyn:

> *'Mae cymaint o dir segur ledled Cymru a tasen ni'n gallu dod dros hynny a'r caniatâd cynllunio angenrheidiol gallen ni gael llwyth o brosiectau yn rhedeg am gostau cychwynnol cymharol fach.'*
>
> *'Dwi'n credu bod angen rhyw fath o gyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru i'r cynghorau sir a'r cyrff cyhoeddus ledled Cymru sy'n rheoli tir a dweud 'mae hyn yn flaenoriaeth'. Dylen nhw ofyn iddyn nhw roi hyn a hyn o dir ar gael ym mhob ardal, a allai ryddhau tir. Dych chi ddim yn siarad am lawer iawn o dir – cwpwl o erwau fan hyn a fan draw a fyddai'n rhoi tir ar gyfer gerddi i lawer iawn o bobl gael tyfu bwyd arno.'*

Er hynny, cydnabuwyd bod ymagwedd o'r fath yn cael ei chyfyngu ar hyn o bryd gan y gwahanol amodau sy'n cael eu gosod ar y sector cyhoeddus, a oedd yn cyfyngu ar allu'r sector i drefnu bod tir ar gael i dyfu bwyd, yn y tymor byr neu'r tymor hir.

Cytunwyd hefyd fod diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith tirfeddianwyr o werth posibl rhyddhau tir at dyfu bwyd yn gymunedol a'r gwahanol opsiynau a oedd ar gael, a hefyd eu profiad cyfyngedig o ymdrin â grwpiau cymunedol, yn eu hatal rhag cymryd rhan yn llawn yn agenda tyfu bwyd yn gymunedol.

*Materion y gyfraith*

Ochr yn ochr â'r diffyg ymwybyddiaeth, tynnodd y cyfweliadau sylw at bryderon penodol ynghylch goblygiadau cyfreithiol prydlesu tir amaethyddol i grwpiau cymunedol. Pwysleisiodd cynrychiolwyr o'r diwydiant amaethyddol y byddai angen cryn gymorth a chyfarwyddyd ar gyfer unrhyw strategaeth a fyddai'n anelu at annog tirfeddianwyr i brydlesu tir amaethyddol i gynhyrchu bwyd cymunedol.

Adleisiodd sawl aelod o'r cyfweliadau a oedd yn ymwneud â goruchwylio gwaith i weithredu a gwireddu gweithgareddau tyfu cymunedol y pryderon hyn, gan awgrymu y dylai hyn gynnwys cyngor penodol ar negodi cytundebau a phrydlesau priodol rhwng tirfeddianwyr a chymunedau. Dadleuwyd hefyd y byddai hyn yn rhoi sylw i rai o bryderon cyffredin tirfeddianwyr, gan gynnwys materion perchnogaeth tir a hawliau mynediad, torri cytundebau prydlesu; rhwymedigaeth, preifatrwydd, fandaliaeth, diogelwch a materion eraill rheoli tir.

*Ansicrwydd deiliadaeth*

Datgelodd y cyfweliadau fod cwestiwn deiliadaeth tir ansicr yn broblem fawr i lawer o brosiectau tyfu cymunedol presennol. Yn benodol, dywedwyd bod natur fyrdymor cytundebau prydlesu yn codi nifer o heriau, a bod symud at strwythurau a threfniadau mwy parhaol yn aml yn broblem fawr, yn enwedig o gofio anfodlonrwydd llawer o ffermwyr i fuddsoddi mewn safleoedd a phrosiectau tyfu dros dro.

*Materion cynllunio*

Nodwyd bod cynllunio yn rhwystr mawr sy'n atal safleoedd a gweithgareddau tyfu cymunedol rhag cael eu ffurfio ledled Cymru. Rhoddodd aelodau'r cyfweliadau sawl enghraifft o ddarpar brosiectau tyfu cymunedol a oedd wedi cael anawsterau wrth sicrhau tir yn sgil problemau ynglyn â'r rheoliadau cynllunio a gofynion penodol ynghylch amwynder gweledol, parcio ceir, mynediad ar hyd ffyrdd a datblygu seilwaith prosiectau, megis twneli a siediau. Soniodd prosiectau a grwpiau tyfu sydd wedi ennill eu plwyf hefyd am broblemau yn y system gynllunio. Awgrymwyd bod anawsterau ar y ddwy ochr, a bod llawer o gymunedau a grwpiau heb yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol wrth ymdrin â'r system gynllunio, a bod cynllunwyr yn ansicr sut i ymdrin â cheisiadau am weithgareddau tyfu cymunedol.

**Cyllid**

Dadleuwyd bod twf y sector tyfu bwyd yn gymunedol yn cael ei lesteirio gan adnoddau cyfyngedig. I lawer o brosiectau, roedd angen rhagor o gyllid a buddsoddiadau i ddarparu gwelliannau

angenrheidiol yn y seilwaith. Roedd y seilwaith angenrheidiol yn aml yn bur sylfaenol, megis dwr ac offer garddio. Gellid priodoli llawer o'r anawsterau hyn i'r ffaith bod cyllid cyfalaf yn haws ei sicrhau na chyllid refeniw a bod angen refeniw ar fyrder er mwyn cynnal rheolaeth barhaus a chynaliadwy ar weithgareddau tyfu. Mae'r dyfyniadau a ganlyn yn disgrifio rhai o'r pryderon hyn:

> *'Tan yn ddiweddar roedd yn gymharol hawdd sicrhau cyfalaf, ond mae refeniw yn llawer mwy anodd … mae'n syndrom lle gallwch gael arian tuag at neuadd gymuned ac wedyn does dim arian gyda chi i gadw'r lle i fynd, ac mae'n cau. Yna bum mlynedd wedyn rydych chi'n gwneud cais am grant i gywiro'r to. Mae pawb yn gwybod y sefyllfa, felly pam na wnawn ni rywbeth?'*

> '*Dyna'r ffordd mae'r system gyfan yn gweithio – gallwch gael arian i godi ty bach compost, ond allwch chi ddim cael arian i gyflogi aelod arall o staff. Dwi wedi dod ar draws cymaint o brosiectau sy'n cael anhawster am fod yna neb yn ganolog i redeg y prosiect ac wedyn mae'r prosiect yn methu, a dwi'n credu bod hynny'n wastraff – o ran arian cyhoeddus; potensial y gwirfoddolwyr; a photensial y prosiect*.'

Yn niffyg arian parhaol, pwysleisiwyd bod grwpiau a phrosiectau cymunedol yn aml yn cael anawsterau wrth gynnal neu gynyddu'r lefel sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol i gynnal a datblygu'r gweithgareddau tyfu cymunedol, er enghraifft drwy gadw'r staff a'r wybodaeth bresennol. Un her allweddol arall a nododd aelodau'r cyfweliadau oedd cadw cydlynedd ac ymrwymiad y partneriaid a'r gwirfoddolwyr dros amser, yn enwedig pan fyddai'r arian craidd yn mynd yn ansicr.

**Canllawiau, cymorth a datblygu sgiliau**

Er bod y rhai y cyfwelwyd â nhw wedi enwi amryw o wasanaethau a deunyddiau cyfarwyddyd a chymorth a oedd ar gael i grwpiau a sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol, pwysleisiwyd bod y rhain weithiau'n amrywio o safbwynt argaeledd a chynnwys, ac nad oedden nhw bob amser ar gael yn hwylus iawn i'r rhai a oedd o bosibl yn newydd, neu'n llai cyfarwydd â gweithgareddau tyfu.

Nodwyd rhai bylchau yn yr wybodaeth hefyd ac awgrymwyd y dylai lefel y cyfarwyddyd a'r cyngor sydd ar gael fynd y tu hwnt i roi gwybodaeth a chyngor sylfaenol ar sut i dyfu bwyd, ac ymdrin â materion fel dylunio a rheoli safle, negodi gyda thirfeddianwyr, cytuno ar brydles a datblygu a gweithredu cynlluniau prosiect. Dadleuwyd bod llawer o grwpiau yn aml yn cael eu llethu gan y cyfrifoldebau a'r sgiliau arwyddocaol y mae eu hangen i reoli safle tyfu cymunedol neu i fod yn berchennog arno. Gallai codi lefel y cymorth a'r cyngor sydd ar gael annog nifer llawer uwch o unigolion neu grwpiau i gymryd rhan yn agenda tyfu cymunedol.

**Diffyg ymagwedd gydlynol at 'dyfu cymunedol' yng Nghymru**

Roedd yn ymddangos bod yna gytundeb helaeth ymhlith aelodau'r Grwp Gorchwyl a Gorffen fod diffyg cydlynu ar y lefel genedlaethol. Er bod yna gydnabyddiaeth gynyddol o werth posibl bwyd a dyfir yn gymunedol wrth gyfrannu at amrywiaeth mawr o wahanol agendâu, fel iechyd a lles, yr amgylchedd, a'r amgylchedd adeiledig, pwysleisiwyd nad oedd y cysylltiadau hyn yn cael eu cydnabod yn eang. Er hynny, cydnabuwyd bod y Cynllun Datblygu Tyfu Bwyd yn Gymunedol wedi dechrau mynd i'r afael â'r pryderon hyn gan ddangos bod tyfu cymunedol yng Nghymru yn berthnasol. Er hynny, dadleuwyd bod tensiynau arwyddocaol yn parhau rhwng ymagweddau gwahanol yn y broses yma.

Ceid teimlad hefyd fod angen gwell cydlynu ar y lefel fwy lleol, yn enwedig o ran ymgorffori amcanion a blaenoriaethau tyfu cymunedol yn strategaethau a pholisïau'r awdurdodau lleol. Un gwyn gyffredin gan y rhai a oedd yn ymwneud â gweithgareddau tyfu cymunedol ar y lefel leol oedd bod gormod o rwystrau biwrocrataidd i ymdopi â nhw. Soniodd un person yn y cyfweliadau fod gwahanol

swyddogion yn yr un awdurdod wedi rhoi cyngor cyferbyniol, a soniodd sawl un nad oedd cysondeb rhwng y gwahanol awdurdodau.

**Diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus o faterion bwyd**

Dadleuai sawl un yn y cyfweliadau fod llwyddiant tyfu bwyd yn gymunedol fel cysyniad yn dibynnu'n drwm ar ennyn mwy o ddiddordeb mewn bwyd ymhlith y cyhoedd – sef agwedd yr oedd llawer yn credu ei bod yn ddiffygiol ar hyn o bryd yng Nghymru. Dadleuwyd mai annigonol oedd dealltwriaeth cyfran arwyddocaol o'r cyhoedd o faterion sylfaenol bwyd a'r achos o blaid newid, a'u bod felly yn methu chwarae rhan i yrru'r agenda yn ei flaen.

Un peth yr awgrymwyd y dylai fod yn amcan allweddol yn y polisi cyhoeddus oedd ailgysylltu defnyddwyr a'r cyhoedd â'r hyn y maen nhw'n ei fwyta a sut mae'n cael ei gynhyrchu. Roedd yna bryder ymhlith aelodau'r Grwp Gorchwyl a Gorffen ei bod yn ymddangos bod gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o oedran ysgol ynglyn ag agweddau gwahanol ar fwyd a ffermio yn arbennig o wael. Dadleuwyd bod achos cryf o blaid gwella'r addysg a'r dysgu ynghylch bwyd, ffermio a rheoli'r tir ac annog mwy o ysgolion i feithrin cysylltiadau cryfach ag agenda tyfu bwyd yn gymunedol. Mae'r dyfyniadau a ganlyn yn dangos y pryderon hyn:

> '...*mae'n hanfodol ein bod yn cyfleu'r neges am waith pwysig ffermwyr Prydain i bobl pan fôn nhw'n ifanc.'*
>
> '*Mae addysg yn ffactor allweddol wrth ymdrin ag unrhyw fath o fwyd - p'un ai bwyd sy'n cael ei dyfu'n gymunedol, bwydydd Cymru neu fwyd sy'n cael ei fewnforio. Mae diffyg addysg mawr wedi bod ers degawdau o'i gymharu â beth oedd yna yn y 70au dwedwch, yn enwedig diwedd y 70au. Flynyddoedd yn ôl roedd dosbarthiadau economeg cartref yn dysgu sut i wneud teisen a beth maen nhw'n dysgu nawr yw rhoi dwr mewn pecyn o gymysgedd parod a dyna'u syniad nhw o ddosbarth economeg cartref! Mae yna ddiffyg dealltwriaeth enfawr ynglyn â bwyd ac er mod i'n gwybod bod symudiadau o bwys wedi bod at ddatrys yr anghydbwysedd yn fwy diweddar mae plant yn dal i dyfu i fyny heb wybodaeth neu gydnabyddiaeth o bwysigrwydd bwyd a dydyn nhw ddim yn gweld bod bwyd yn wahanol i bâr o dreinars - mae'n eitem* disposable*, rhywbeth oedd ddim gan bobl 50 mlynedd yn ôl ac roedden ni'n llwgu ac roedd yna ddogni ar fwyd. Mae'r rhain yn syniadau dierth iddyn nhw, felly mae angen iddyn nhw barchu bwyd, p'un a ydy o'n cael ei dyfu'n lleol neu beidio.*'
>
> '*Os ydyn ni am gael sicrwydd bwyd yn y dyfodol, ac rwy'n credu mai dyna'r nod allweddol yn hyn o beth, rhaid inni ailgyflwyno'r syniad nad yw tomatos yn tyfu yn y wlad yma yn y gaeaf oni bai eich bod yn fodlon rhoi llwyth o egni i mewn, sy ddim yn gynaliadwy ynddo'i hun. Y cyfan mae'r rhan fwyaf o blant heddiw wedi'i weld yw un neu ddau o lysiau o deulu'r brasica a dydyn nhw ddim yn ymwybodol o deulu cyfan y llysiau brasica. Moron a phys yw'r mwyaf poblogaidd ymhlith plant bach am wn i. Pan fydda i'n mynd â'r plant am dro yn yr ardd a phigo sbrowts a bwyta un yn amrwd mae eu hwynebau nhw'n llawn braw. Felly oes, mae yna lawer o bethau i'w datrys, yn enwedig camddealltwriaeth pobl o beth yw milltiroedd bwyd, pa effaith gaiff hynny mewn gwirionedd, a beth gallan nhw ei wneud mewn gwirionedd i newid ac i leihau eu milltiroedd bwyd. Rwy'n credu bod yna ffordd bell i fynd*.'

**Gwybodaeth a sgiliau**

Pwysleisiodd sawl un yn y cyfweliadau mai diffyg sgiliau priodol wrth dyfu bwyd oedd yr her fwyaf i lwyddiant y prosiectau tyfu presennol a hefyd i ddatblygiadau ehangach gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol. Awgrymwyd mai'r diffyg hyfforddiant o safon mewn garddwriaeth ar hyn o bryd oedd y prif reswm am hyn - o ran helpu grwpiau presennol i feithrin yr arbenigedd a'r hyder angenrheidiol mewn sgiliau garddwriaeth i ddefnyddio'u tir i'r eithaf, ac o ran rhoi lefel ddigonol o gyngor, hyfforddiant a chymorth ymarferol

i'r rhai sydd â diddordeb mewn sefydlu lleoliadau a phrosiectau tyfu newydd.

Pwysleisiwyd bod llawer o brosiectau tyfu wedi datblygu strategaethau i ddatrys y diffyg gwybodaeth, er enghraifft drwy feithrin cysylltiadau ffurfiol â garddwyr hobi a garddwyr arbenigol, ond roedd yna deimlad yn gyffredinol nad oes gan Gymru rwydwaith addas ar hyn o bryd i unigolion a grwpiau gael gafael yn hwylus ar yr adnoddau a'r cymorth angenrheidiol.

Ers gorffen yr ymchwil, mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi sicrhau arian i gyflwyno menter newydd - 'Prosiect Peilot Tyfu'r Dyfodol' i ddylunio a darparu cyfleoedd am hyfforddiant garddwriaeth o safon i gymunedau a grwpiau drwy 'ganolfannau' partner ledled Cymru, yn ogystal ag ar safle'r Ardd yn Llanarthne yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y prosiect yn dechrau mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn ynghylch darparu addysg a hyfforddiant, gan ymateb i alwadau gan brosiectau am hyfforddiant achrededig ar amrywiaeth o themâu megis tyfu bwyd yn gonfensiynol ac yn organig a thechnegau garddwriaeth, compostio, adeiladu gwelyau wedi'u codi, arferion gweithio diogel, sgiliau cymorth cyntaf, strategaethau codi arian a sgiliau cyhoeddusrwydd a chyfathrebu. Mae'r dyfyniadau isod yn dangos y pryderon hyn:

> '*A dweud y gwir does dim llawer o hyfforddiant garddwriaeth o safon ar gael ar hyn o bryd. Mae gyda chi naill ai rhywun â gwybodaeth dda am arddwriaeth ond sy'n methu cyfathrebu'n dda iawn o reidrwydd, yn enwedig gydag ysgolion neu grwpiau cymunedol, neu ddim syniad sut mae'r rhain yn gweithio – y rhesymau pam na allwch chi wneud pethau ar adegau penodol a pham mae yna broblem gyda hyn a'r llall, felly does ganddyn nhw mo'r wybodaeth o reidrwydd i allu gweithio'n dda gydag ysgolion a grwpiau. Dwi'n credu felly fod yna fwlch go iawn yn y farchnad*.'

> '*Un peth sydd yn eisiau o hyd yn y broses gyffredinol yma, hyd y gwela i, yw eu bod nhw yn dal heb gymryd o ddifri y cwestiwn o wella'r arbenigedd ym mhob agwedd ar amaethyddiaeth a garddwriaeth, a dwy ddim yn credu ei bod nhw wedi gweithio allan sut i newid garddwriaeth yng Nghymru mewn gwirionedd?*'

Nododd sawl un yn y cyfweliadau fod llawer o'r wybodaeth a'r sgiliau tyfu bwyd a oedd gan arweinwyr ac aelodau prosiectau yn aml wedi'u dysgu ar eu pen eu hunain, drwy brofiad personol neu brofiad o brosiectau. Er hynny, nodwyd bod y galluoedd hyn yn amrywio'n sylweddol, gan bwysleisio bod angen darparu hyd yn oed y lefelau hyfforddiant mwyaf sylfaenol.

> '*Mae angen i bobl wybod yr hanfodion. Gallwch chi gael pobl sy'n anhygoel o frwd ac maen nhw'n dod i mewn, palu'r tir a phlannu popeth posib ond heb gynllunio, felly dydyn nhw ddim yn gwybod beth maen nhw'n wneud. Yn aml dydyn nhw ddim yn deall yr hanfodion hyd yn oed am gylchdro cnydau ac ati, ac mae'r cnydau'n cael eu dinistrio'n llwyr gan y malltod ac maen nhw'n rhoi'r gorau iddi. Felly rwy'n credu y bydd hyfforddiant o safon yn galluogi pobl i gynllunio, i fynd ati'n dawel un cam ar y tro, dal i fod yn frwd ond cadw pethau dan reolaeth. Mae'n galluogi pobl i fynd ati i dyfu pethau a rhoi'r sgiliau iddyn nhw i wneud rhywbeth yn llwyddiannus ac yn realistig*.'

### Rhwydweithio a chymorth anffurfiol

Pwysleisiodd sawl un yn y cyfweliadau mor bwysig oedd creu amgylchedd llawn cymorth er mwyn gwireddu blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn Gymunedol, er enghraifft drwy greu rhwydwaith tyfu cymunedol, a fyddai'n hybu cysylltiadau newydd rhwng grwpiau cymunedol, sefydliadau ac unigolion ledled Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod gwerth rhwydweithio i gynnig cyfle i gyfnewid gwybodaeth a chymorth gyda'ch gilydd, gan ganiatáu i'r cyfranwyr allweddol yn agenda tyfu bwyd yn gymunedol rannu cyngor yn rhydd, rhoi ysbrydoliaeth a mynd ar ôl amcanion cyffredin. Soniodd

un ymatebydd am natur gymharol agored yr amgylchedd polisi cyhoeddus yng Nghymru, a oedd yn golygu bod gwaith creu a chynnal cysylltiadau yn llawer llai trafferthus.

## Cyfweliadau â chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol

### Rhagymadrodd

Yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol ledled Cymru yn cydnabod y gall tyfu bwyd, mewn trefi ac yng nghefn gwlad, ysgogi mathau mwy cynaliadwy o ddatblygu cymunedol. Bellach mae mwy o sylw'n cael ei roi i'r angen i ddatblygu systemau bwyd mwy lleol a chynaliadwy sy'n gallu cyflawni ystod o amcanion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae rôl gweithgareddau tyfu, fel rhandiroedd, gerddi cymunedol a chynlluniau CSA wrth gyfrannu at yr amcanion bras hyn wedi cael sylw penodol ac mae'r cyfleoedd sy'n dod yn eu sgil, yn enwedig o ran eu cysylltiadau ag ystod eang o amcanion polisi, yn dechrau gosod pwysau arwyddocaol ar yr awdurdodau lleol ledled Cymru i ailystyried pa dir sydd ar gael at weithgareddau o'r fath.

Er hynny, mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd. Mae pwysau ar dir wedi tueddu i leihau arwyddocâd a phwysigrwydd mentrau tyfu bwyd ym mhortffolios yr awdurdodau lleol. Mae'r is-adran a ganlyn yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol o'r cyfweliadau gyda chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

### Ymglymiad yr awdurdodau lleol mewn tyfu bwyd yn gymunedol

*Darparu rhandiroedd ar lefel yr awdurdodau lleol*

Dangosodd y cyfweliadau â chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol mai rhandiroedd oedd prif gyfrwng y cyhoedd ar gyfer cael tir at dyfu bwyd o hyd. Dywedodd bron y cyfan o'r awdurdodau eu bod yn ymwneud i ryw raddau â darparu rhandiroedd; er hynny, roedd faint o dir a oedd wedi'i ddyrannu at y diben yn amrywio'n sylweddol rhwng yr awdurdodau lleol.

O ran cydlynu a gweithredu, roedd ambell awdurdod yn cymryd rhan uniongyrchol mewn rheoli safleoedd rhandiroedd a dyrannu lleiniau, ond roedd y mwyafrif mawr wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros oruchwylio gwaith i gyflawni dyletswyddau'r rhandiroedd naill ai i gymdeithasau rhandiroedd unigol neu i gynghorau cymuned yn eu hardal. Roedd hyn yn adlewyrchu tuedd gynyddol tuag at hunan-reoli, a chydnabu llawer o'r awdurdodau lleol fod ganddyn nhw gyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i alluogi cynghorau cymuned a chymdeithasau rhandiroedd i gyflawni eu gweithgareddau'n effeithiol. Gan hynny, nododd llawer o'r awdurdodau lleol eu bod yn cadw rôl 'gydlynu' - gan ymateb i ymholiadau gan unigolion a grwpiau presennol a'r rhai a oedd â diddordeb, ac ymdrin ag anawsterau yn ôl yr angen.

Yn yr awdurdodau lleol, roedd gweinyddiaeth rhandiroedd debycaf o gael ei lleoli yn y Gwasanaethau Eiddo neu'r Gwasanaethau Cefn Gwlad, yr oedd eu prif swyddogaethau'n cynnwys rheoli adeiladau a thir. Er hynny, cafwyd peth amrywio gan fod rhai o'r awdurdodau yn gosod y cyfrifoldeb dros randiroedd mewn adrannau neu ganghennau gwahanol, fel Adfywio a Hamdden. Yn yr awdurdodau hyn, roedd yn ymddangos bod mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng gwahanol, rannau o'r awdurdod i gyflawni dyletswyddau rhandiroedd a chydlynu gweithgareddau tyfu cymunedol.

Nododd sawl un y cyfwelwyd â nhw y newid yn nemograffeg rhandiroedd, gyda mwy o ddiddordeb ymhlith grwpiau cymunedol, teuluoedd, ac unigolion ag anghenion arbennig neu broblemau iechyd meddwl. O ganlyniad, cydnabuwyd y dylai safleoedd rhandiroedd addasu at newid mewn anghenion, er enghraifft, drwy ddarparu mannau cymunedol ar gyfer gweithgareddau grwp, mannau chwarae i blant a lleiniau o wahanol feintiau.

*Gweithgareddau tyfu cymunedol eraill*

Er hynny, doedd ymglymiad yr awdurdodau lleol yn agenda tyfu bwyd yn gymunedol ddim yn gyfyngedig i ddarparu rhandiroedd. Yn wir, datgelodd y cyfweliadau fod nifer fawr o'r ymatebwyr yn gyfarwydd â chysyniad ehangach tyfu bwyd yn gymunedol ac roedd yn ymddangos bod yna lawer o ddiddordeb yn y pwnc.

I adlewyrchu'r diddordeb hwn, roedd nifer o awdurdodau wedi datblygu strategaethau yn ddiweddar i hybu gwaith i gynhyrchu bwyd yn gymunedol yn eu hardaloedd, lawer ohonyn nhw'n anelu at hybu cydweithredu agosach rhwng yr awdurdodau lleol a'r trigolion lleol wrth gyflawni prosiectau tyfu. Roedd y rhain yn cynnwys prosiect diweddar a roddwyd ar waith gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac a ariannwyd o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 i hwyluso cydweithio a chyfnewid gwybodaeth rhwng tirfeddianwyr a chymunedau gwledig ym Mro Morgannwg, a oedd yn cynnwys un ffrwd a oedd yn anelu'n unswydd at hybu datblygiadau mewn gweithgareddau tyfu ar y lefel leol. Yn yr un modd, cafodd prosiect Cymunedau Oed-gyfeillgar, a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Ebrill 2011, ei enwi fel enghraifft arall o werth posibl gweithgareddau tyfu wrth gyfrannu at amcanion ehangach yn gysylltiedig â chydlyniant cymunedol, gan wella iechyd cymunedau a bod yn gyfrwng i ddod â thrigolion lleol at ei gilydd.

Ar ben hyn, nododd sawl awdurdod fod adrannau o'r gymuned a oedd â diddordeb mewn datblygu gweithgareddau tyfu bwyd wedi dod atyn nhw a'u bod nhw felly wrthi'n ystyried sefydlu prosiectau adeg yr ymchwil. Er hynny, nododd nifer o'r awdurdodau lleol nad oedd ganddyn nhw bolisi penodol ac mai darparu rhandiroedd oedd eu hunig strategaeth cynhyrchu bwyd.

Roedd sawl awdurdod, er nad oedden nhw'n datblygu strategaethau tyfu bwyd, wrthi'n ymchwilio i bosibilrwydd sefydlu prosiectau yn gysylltiedig â bwyd i ateb y galw ac yn gyffredinol i hybu datblygu cynaliadwy yn eu hardal. Er enghraifft, dywedodd nifer o'r awdurdodau eu bod wrthi'n hybu bwydydd a chynnyrch lleol yn eu hardaloedd - gweithgareddau y bernid bod iddyn nhw nodau ac amcanion tebyg i dyfu bwyd yn gymunedol.

*Rôl yr awdurdodau lleol wrth gyflawni gweithgareddau tyfu cymunedol*

Cafodd rôl draddodiadol yr awdurdodau lleol fel hwyluswyr allweddol ar y lefel leol ei chrybwyll gan nifer o ymatebwyr fel rheswm allweddol pam y dylai'r awdurdodau chwarae rhan weithredol i sicrhau bod bwyd yn cael ei dyfu'n gymunedol. Teimlai nifer o'r awdurdodau lleol ei bod yn bwysig iddyn nhw gymryd rhan wrth hybu agenda tyfu bwyd yn gymunedol gan mai nhw oedd yn y sefyllfa oriau i gydlynu gweithgareddau a dod â'r partïon perthnasol at ei gilydd. Roedd sawl un yn gweithredu fel galluogwyr a hwyluswyr pwysig ac yn darparu cydlyniant, cyngor ac arbenigedd ar gyfer grwpiau cymunedol a'r rhai sydd â diddordeb mewn prosiectau tyfu. Cafodd rôl yr awdurdodau lleol fel ffynhonnell cymorth ariannol ac adnoddau angenrheidiol eraill ei henwi hefyd gan nifer o'r awdurdodau, gan danlinellu rôl ganolog yr awdurdodau lleol wrth gefnogi mentrau bwyd cymunedol.

Er hynny, teimlai rhai o'r rhai y cyfwelwyd â nhw nad oedd y rôl draddodiadol hon yn addas mwyach, yn enwedig yn nhermau gweithgareddau fel prosiectau tyfu bwyd, gan weld rôl yr awdurdod yn bennaf yn nhermau darparu cyllid ac adnoddau i alluogi prosiectau i ddatblygu, fel y pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn:

> *'Rydyn ni wedi ceisio sicrhau bod yna ymgynghori â'r gymuned drwy'r cyfan o'r broses o sefydlu cynlluniau newydd er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw deimlad o berchnogaeth dros unrhyw brosiectau neu weithgareddau newydd a bod unrhyw syniadau yn cael eu cychwyn yn y cymunedau, nid eu sbarduno gan y Cyngor.'*

> *'Os yw e am fod yn brosiect cymunedol, yna dylai gael ei drefnu a'i redeg gan y*

*gymuned. Mae'n amlwg y byddai rôl gennyn ni o hyd, mwy o rôl gynghori na dim byd arall, efallai …'*

**Materion allweddol wrth ddatblygu a gwireddu gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol ar y lefel leol**

Cododd y cyfweliadau nifer o faterion allweddol ynglyn â datblygu gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol ar lefel yr awdurdodau lleol. Trafodir y rhain yn eu tro isod.

*Pwysigrwydd cymorth ac ymglymiad yr awdurdodau lleol*

Nid yw'r awdurdodau lleol o dan rwymedigaeth statudol i ddarparu cymorth i weithgareddau tyfu bwyd heblaw tyfu ar randiroedd, ac felly nid yw'n cael ei weld fel blaenoriaeth gan lawer o awdurdodau lleol. Er hynny, cafodd manteision ehangach gweithgareddau tyfu bwyd o ran cyrraedd amcanion polisi ehangach ar y lefel leol eu nodi drwy'r cyfan o'r cyfweliadau â chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol. Tanlinellwyd yr angen am fwy o gymorth ac anogaeth gan y gweithredwyr allweddol yn yr awdurdodau lleol fel ffactor allweddol wrth benderfynu llwyddiant gweithgareddau tyfu cymunedol ar y lefel leol, fel y nododd yr ymatebwyr hyn:

> '*Mae seminarau a gweithdai'n wirioneddol ddefnyddiol i rwydweithio gyda swyddogion eraill sydd wrthi'n gwneud y gwaith ar lawr gwlad, ond maen nhw'n siarad â'r bobl anghywir yn y bôn - y bobl mae angen siarad â nhw eto yw'r cynghorwyr. Mae swyddogion yr awdurdodau lleol eisoes allan ar lawr gwlad - rydyn ni'n mynd o gwmpas, yn rheoli'r rhestrau aros, ac wedi clywed y bregeth felly rydyn ni wedi cael y dröedigaeth. Ond, allwn ni ddim mynd i unman heb gyllid a heb gefnogaeth y cynghorwyr. Os nad oes ewyllys gwleidyddol i wneud rhywbeth fel hyn, mae e naill ai am gael ei wneud yn breifat neu dyw e ddim am ddigwydd o gwbl.*'

> '*Gallwch chi gael cymaint o syniadau da a fynnoch, ond gwaelod y gadwyn ydyn ni, ynte? Felly gall pobl ddweud wrthon ni am y mentrau gwych hyn a'r hyn sy'n digwydd, ond a dweud y gwir, y cyfarwyddwyr a'r bobl ym mhen uchaf y gadwyn yw'r rhai mae angen dylanwadu arnyn nhw a'u perswadio bod y rhain yn fentrau da ac yn werth buddsoddi ynddyn nhw. Ar ddiwedd y dydd, dyna'r bobl sy'n mynd i wneud y penderfyniad a rhoi'r bobl yn eu lle i wneud y pethau yma.*'

*Gwell cyfarwyddyd a chymorth*

Soniodd llawer o'r awdurdodau lleol fod angen mwy o gyfarwyddyd a chymorth gan y llywodraeth, ac enghreifftiau o'r arferion gorau er mwyn iddyn nhw gymryd mwy o ran weithredol yn agenda tyfu bwyd yn gymunedol. Er bod cysyniad tyfu cymunedol yn cael ei hybu a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru ar y lefel genedlaethol, dadleuwyd mai cymharol ychydig o gyfarwyddyd a oedd yn cael ei ddarparu ar sut i roi cysyniad a syniad tyfu cymunedol ar waith.

*Y tir sydd ar gael*

Amlygwyd problemau ynglyn â faint o dir sydd ar gael drwy'r cyfweliadau i gyd gan enwi hyn fel rhwystr sy'n atal gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol rhag cael eu datblygu'n ehangach ar lefel yr awdurdodau lleol. Gwelir rhai o'r problemau a gafodd yr awdurdodau lleol wrth chwilio am dir addas at dyfu bwyd yn y dyfyniadau a ganlyn:

> *'Un o'r heriau o bwys ar hyn o bryd yw dod o hyd i dir addas, ac yn hyn o beth mae angen i'r adran briffyrdd ystyried mynediad achos nid mater o ddewis unrhyw dir sydd ar gael yw hi - mae yna faterion ehangach ynghylch rheoli traffig a diogelwch sy'n gorfod cael eu hystyried. Mae yna faterion hefyd ynghylch halogi tir, achos yn aml mae angen buddsoddi cryn dipyn i ddatrys materion halogi tir cyn ichi hyd yn oed feddwl am roi'r tir i'r cyngor cymuned i dyfu pethau arno.'*

> *'Yr unig ffordd i ddatrys problem faint o dir sydd ar gael yw mynd am dir fferm gyfagos a cheisio annog y tirfeddianwyr rywsut i werthu neu brydlesu tir ar gyfer tyfu cymunedol. Ond mae hynny wedyn*

*yn codi nifer o faterion cynllunio a materion cyfreithiol, fel gwerth y tir.'*

*Cyllid*

Un cyfyngiad mawr ar ddarparu rhagor o dir at randiroedd a gweithgareddau tyfu yn ôl y mwyafrif o'r rhai y cyfwelwyd â nhw oedd diffyg adnoddau a'r angen cynyddol i'r awdurdodau ryddhau asedau yn yr hinsawdd economaidd bresennol, fel y dywedodd yr ymatebwyr hyn:

> '*Mae pwysau ar dir yn rhwystr allweddol i ni ar hyn o bryd – y prif bwyslais erbyn hyn yw cyfrif beth yw gwerth tir, a'r nod yw gwerthu tir i godi arian. Oherwydd hynny, dydy ymroddiadau i greu rhandiroedd newydd ddim wedi bod yn uchel iawn ar restr blaenoriaethau'r Cyngor*.'

> '*Y broblem yw yn y cyfnod yma mae yna gyfyngiadau sylweddol ar gyllid, gyda'r cyllidebau'n cael eu herydu drwy'r amser. Felly oherwydd y sefyllfa ariannol byddwn i'n dweud ein bod ni heb symud ymlaen o gwbl o ran helpu datblygiadau ehangach mewn gweithgareddau tyfu yn y sir. Achos os ydych chi am ddatblygu safle newydd mae'n rhaid darparu cyfleusterau ty bach, siediau newydd, rhaid buddsoddi mewn offer, rhaid sicrhau'r safle â ffensys ac yn y blaen, a darparu dŵr, rhoi mannau i barcio ceir, mannau i gadw sgips i gael gwared ar wastraff, felly mae'n eithaf buddsoddiad i sefydlu pethau. Petaen ni'n bwrw ymlaen â nhw fe fydden ni'n bendant yn ceisio cael grantiau gan ba ffynonellau bynnag sydd ar gael. I fod yn realistig, ychydig iawn o'n harian ni'n hunain fydd yn mynd i mewn iddo yn yr hinsawdd economaidd yma*.'

O'u holi am ddatblygu neu ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer rhandiroedd a gweithgareddau tyfu cymunedol ehangach yn y dyfodol, nododd sawl un o'r awdurdodau eu bod yn chwilio am ffynonellau arian eraill mewn cynlluniau fel y Fenter Trefi Taclus a sefydliadau fel Cadwch Gymru'n Daclus er mwyn caniatáu i safleoedd newydd gael eu sefydlu i ateb y galw am weithgareddau tyfu. Er hynny, oni bai bod cyllid ychwanegol yn dod ar gael i ganiatáu i'r awdurdodau gynyddu nifer y safleoedd rhandiroedd, roedd yn debyg y byddai'r sefyllfa yn aros yr un fath mewn llawer o ardaloedd.

**Cyflawni gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol drwy Echelau 3 a 4 o RDP Cymru 2007-2013**

Ceisiodd yr ymchwil ganfod i ba raddau yr oedd gweithgareddau tyfu bwyd yn gymunedol yn cael eu hybu a'u cefnogi o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 - ac yn benodol o dan Echel 3 (gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig) ac Echel 4 (helpu i wireddu ymagweddau lleol at ddatblygu gwledig gan ddefnyddio dull 'LEADER').[5] Mae'r un olaf yn ddull sy'n cael ei ddefnyddio yn yr RDP i roi ffordd i harneisio gwybodaeth leol er mwyn caniatáu ymagwedd gymunedol at ddarparu cymorth i ddatblygiadau gwledig sy'n gweithio 'o'r gwaelod i fyny'.

Ers cael ei lansio ym 1991, mae rhaglen LEADER wedi rhoi cyfle i gymunedau gwledig ledled yr UE chwarae rhan weithredol i lunio'u dyfodol eu hunain, drwy chwilio am atebion arloesol i'r nifer fawr o heriau sy'n wynebu cefn gwlad bellach, fel poblogaeth sy'n heneiddio, lefelau gwael y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a diffyg cyfleoedd cyflogaeth. Yn ystod ei dri chyfnod rhaglennu blaenorol - LEADER: I (1991-1994), II (1995-1999) a LEADER+ (2000-2006) - mae'r dull wedi bod yn bur lwyddiannus ac wedi creu cryn frwdfrydedd mewn ardaloedd gwledig ledled yr UE. Ar gyfer cyfnod rhaglennu 2007-2013, does gan LEADER ddim rhaglen annibynnol mwyach sy'n cael ei hariannu fel 'menter gymunedol' o dan Gronfeydd Strwythurol yr UE, ond mae wedi'i phrif-ffrydio ym mholisi datblygu gwledig cyffredinol yr UE, ac mae wedi'i gynnwys yn y rhaglenni datblygu gwledig cenedlaethol a rhanbarthol ochr yn ochr ag ystod o echelau datblygu gwledig eraill.

[5] Mae'r term LEADER yn dod o acronym Ffrangeg: 'liaisons entre actions de développement de l'économie rurale' (cysylltiadau rhwng camau i ddatblygu'r economi gwledig).

Cafodd RDP Cymru 2007-2013 ei gyhoeddi'n ffurfiol gan Bwyllgor Datblygu Gwledig y Comisiwn Ewropeaidd yn 2008 a bydd yn darparu cyfanswm o £795 miliwn o gymorth grant - £195 miliwn ohono'n cael ei dynnu o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD). Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyflawni Echelau 1 a 2 yn y cynllun, tra bo llawer o gyllid Echel 3 yn cael ei darparu drwy'r awdurdodau lleol, ond gan ddefnyddio dull cyffredin. Er enghraifft, yn Sir y Fflint mae Echel 3 yn cael ei rheoli gan y Cyngor Sir ar ran Partneriaeth Wledig Sir y Fflint, ac mae Cadwyn Clwyd (asiantaeth datblygu gwledig sydd wedi ennill ei phlwyf ac a fu'n cymryd rhan yn rhaglen LEADER+) wedi'i dewis i roi strategaethau datblygu lleol ar waith yng nghefn gwlad Sir y Fflint a chefn gwlad Sir Ddinbych ar gyfer rhan o Echel 3 a'r cyfan o Echel 4. Nod cyfuno'r gwaith i gyflawni'r ddwy Echel yw integreiddio'r ffrydiau arian a'r rhaglenni yn agosach at ei gilydd a sicrhau cydlynedd a chydweithredu ar y lefel leol. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ymagwedd arloesol, draws-sectoraidd, integredig LEADER fwydo'n uniongyrchol i mewn i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni ar draws y tair echel thematig yn yr RDP ac yn rhoi llwybr uniongyrchol ar gyfer symud gweithgareddau LEADER llwyddiannus ymlaen i'r cyfnod nesaf.

Un o nodweddion allweddol ymagwedd LEADER yw sefydlu Grwpiau Gweithredu Lleol (LAGs), sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned wledig a sefydliadau ac asiantaethau lleol o'r ardaloedd gwledig y maen nhw'n gweithredu ynddyn nhw. Mae 18 LAG yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru ar hyn o bryd; mae'r rhain yn adeiladu ar y saith LAG oedd eisoes yn cael eu cynnal o dan LEADER+ ac yn cynnwys nifer o ardaloedd 'newydd' nad oedden nhw wedi'u cynnwys mewn rhaglenni gwledig o'r blaen, megis ardaloedd gwledig yn siroedd Merthyr Tudful, Caerffili ac Abertawe.

Fel rhan o'r ymchwil, gofynnodd y tîm am wybodaeth gan y 18 LAG ledled Cymru er mwyn pwyso a mesur eu hymglymiad mewn unrhyw weithgareddau tyfu cymunedol neu unrhyw weithgareddau neu brosiectau eraill sy'n gysylltiedig â bwyd cymunedol ers lansio'r RDP yn 2008. Rhoddodd yr wybodaeth a ddaeth i law dystiolaeth bod ystod o weithgareddau yn cael eu cynnal yn y maes hwn - y gwelir eu manylion yn yr adran a ganlyn. Mae'r enghreifftiau isod yn cynnwys yr holl wybodaeth a roddwyd i'r Arsyllfa yn ystod yr ymchwil. Mae'n bosibl felly nad yw'n drosolwg cynhwysfawr o'r holl weithgareddau tyfu cymunedol sydd wedi'u gorffen neu sy'n parhau ac sydd wedi'u cefnogi gan y LAGs ledled Cymru. Datgelodd yr ymchwil hefyd weithgareddau a phrosiectau a oedd yn gwireddu amcanion ehangach yn yr amgylchedd ac mewn amaeth-bwyd, megis mentrau amaeth-bwyd bach, grwpiau ffermwyr a mentrau bwyd cydweithredol; er hynny, gan fod y gweithgareddau hyn y tu allan i'r diffiniad o dyfu bwyd yn gymunedol a fabwysiadwyd ar gyfer yr ymchwil hon mae'r rhain edi'i hepgor o'r ymchwil.

**Partneriaeth Datblygu Gwledig Cwm a Mynydd Caerffili**

*(i) Routes 2 Life*

Mae Partneriaeth Datblygu Gwledig Cwm a Mynydd Caerffili, sy'n cyflawni rhaglenni o dan Echelau 3 a 4 o'r RDP yn y cymunedau gwledig o fewn ffiniau Bwrdeistref Sirol Caerffili, wedi nodi tair blaenoriaeth allweddol i'w rhaglen waith; diwydiant a chynnyrch gwledig, twristiaeth a hamdden, a phentrefi a chymunedau. O dan y flaenoriaeth gyntaf, mae'r bartneriaeth, ar y cyd â Groundwork Caerffili, wedi helpu i ddatblygu rhaglen Routes 2 Life sy'n cynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i unigolion yn wardiau gwledig y sir ennill profiad a sgiliau mewn garddwriaeth, a hefyd datblygu eu rhagolygon cyflogaeth, eu hunan-barch a'u llesiant yn gyffredinol. Mae'r rhaglen hefyd yn hybu manteision garddwriaeth ac ymgysylltu'n ehangach â'r amgylchedd naturiol fel ffordd o helpu adferiad corfforol a meddyliol ar ôl ystod o broblemau iechyd.

Drwy'r rhaglen, gall gwirfoddolwyr gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau garddwriaeth, fel chwynnu, plannu a thyfu planhigion a chynnyrch bwyd. Yn ystod 2010-2011, cynigiodd y rhaglen 18 o gyrsiau hyfforddiant ffurfiol, gan gynnwys cymwysterau Lantra[6] mewn codi waliau sych, plygu gwrychoedd, torri prysgwydd, rheoli tir coediog, plastro calch a sglodio coed; cyfleoedd dysgu wedi'u seilio ar gredydau fel achrediadau'r Rhwydwaith Coleg Agored (OCN); ynghyd â hyfforddiant anffurfiol mewn permaddiwylliant, byw yn y gwyllt a gwaith coed gwyrdd. Hefyd, cynigiodd ystod o leoliadau i wirfoddolwyr drwy asiantaethau cyfeirio megis Canolfan Byd Gwaith, GAVO, Ymddiriedolaeth Shaw a Gwasanaeth Prawf Gwent. Ers cael ei sefydlu, mae'r rhaglen wedi rhoi cyfleoedd i fwy na 200 o bobl ifanc a phlant gael profiad a sgiliau mewn garddwriaeth, ac wedi galluogi 21 o unigolion i ennill cymwysterau yn llwyddiannus yn y maes.

*(ii) Solid Ground*

Mae rhaglen Solid Ground yn rhaglen adfywio amgylcheddol dan arweiniad y gymuned sy'n anelu at weithio gydag unigolion a grwpiau ledled Bwrdeistref Caerffili i greu newid cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol yn eu cymunedau gwledig. Mae'r rhaglen yn un o nifer o fentrau gan Groundwork Caerffili, sy'n asiantaeth allweddol mewn adfywio a datblygu cynaliadwy yn lleol, ac sydd wedi cael cyllid o dan Echel 3 o'r RDP.

Ers cael ei sefydlu, mae'r rhaglen wedi gweithio gyda gwirfoddolwyr, defnyddwyr ac aelodau staff Canolfan Ddydd Hafod Deg yn Rhymni, ynghyd ag aelodau o'r gymuned, i ddylunio a datblygu gardd gymunedol ar y safle. Roedd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys tyfu ffrwythau a llysiau, gan anelu at hybu arferion byw yn iach a chynyddu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd lleol mewn cymunedau lleol. Yn fwy diweddar, fel rhan o brosiect 'Blooming Lovely' yn Phillipstown, mae tîm Solid Ground wedi bod yn cydweithio'n agos â swyddogion Cymunedau yn Gyntaf Groundwork, Pwyllgor Rhandir Phillipstown a gweithwyr ieuenctid lleol i ddatblygu llain randir gymunedol, gan gynnwys twnnel polythen, gwelyau wedi'u codi, biniau compost a sied offer. Un o amcanion allweddol y prosiect yw defnyddio'r llain fel cyfleuster sy'n ennyn diddordeb mewn garddwriaeth a'r amgylchedd ymhlith trigolion lleol, yn ogystal â bod yn ganolbwynt ar gyfer hyfforddiant ac addysg yn lleol.

**Sir Benfro Ymlaen a PLANED**

PLANED yw'r LAG a enwebwyd gan Sir Benfro Ymlaen, partneriaeth yr RDP sy'n ymdrin â sir wledig Penfro, i fwrw ymlaen ag Echelau 3 a 4 o'r RDP. Mae PLANED wedi ennill ei blwyf fel partneriaeth gymunedol sydd wedi cymryd rhan yn rhaglen LEADER ers i honno ddechrau yn 2001. Yn ei raglen waith bresennol, mae PLANED yn gweithio i wireddu nifer o strategaethau cydberthynol o dan chwe thema allweddol: helpu gweithgareddau cymunedol lleol i wella'u hansawdd bywyd; hybu ymdeimlad o le / gwerthfawrogi'r amgylchedd; datblygu diwylliant o fentergarwch; hybu menter leol; datblygu twristiaeth gynaliadwy; a chefnogi amaethyddiaeth gynaliadwy.

Mae prosiect Cymunedau Cynaliadwy Sir Benfro, a ddechreuodd ym mis Mawrth 2011 ac sy'n cael cymorth o dan Echel 4 o'r RDP, yn anelu at ymgysylltu â'r bobl leol drwy ystod o weithgareddau a gweithdai i ddod o hyd i fylchau mewn anghenion gwledig a chymryd camau i ateb yr anghenion hyn. Ffocws y prosiect yw adeiladu galluoedd cymunedau, creu cysylltiadau rhwng sectorau i sicrhau ymagwedd fwy di-fwlch, a hybu arloesi i gryfhau sylfaen sosio-economaidd cymunedau drwy beilotio ymagweddau newydd ac arloesol. Yn ystod 2011, cefnogodd y prosiect nifer o weithgareddau tyfu cymunedol a gweithgareddau cymunedol yn gysylltiedig â bwyd, gan gynnwys comisiynu adroddiad mapio bwyd a edrychodd yn fanwl ar gwestiwn bwyd lleol cynaliadwy ar

[6] Cyngor Sgiliau Sector yw *Lantra,* ar yfer diwydiannau'r tir a'r amgylchedd, ac mae'n gweithredu ledled y Deyrnas Unedig i roi hyfforddiant ar y tir a helpu pobl i gael gwaith yn y sectorau amaethyddol ac amgylcheddol.

Benrhyn Dewi; rhoi cyngor a chymorth i Gymdeithas Tyfwyr Sir Benfro drwy ystod o ddigwyddiadau cymunedol a gweithdai thematig; a helpu i sefydlu prosiectau tyfu newydd - gan gynnwys safle rhandiroedd newydd yn Llandudoch, ger Aberteifi, prosiect tyfu newydd yng Nghanolfan Gymunedol Phoenix yn Abergwaun a Gardd Berlysiau Trefdraeth.

Ar ben y gweithgareddau hyn, mae Rhwydwaith Tyfu Cymunedol Sir Benfro wedi'i sefydlu gyda chymorth PLANED mewn ymateb uniongyrchol i'r diddordeb cynyddol ymhlith grwpiau cymunedol ac unigolion ledled Sir Benfro mewn tyfu cymunedol a garddio ar randiroedd. Drwy'r rhwydwaith hwn, mae PLANED yn helpu rhandiroedd cymunedol presennol a newydd a phrosiectau tyfu cymunedol eraill i rannu enghreifftiau o'r arferion gorau, a chynyddu gwybodaeth a sgiliau mewn garddio. Mae'r rhwydwaith yn trefnu ymweliadau rheolaidd â safleoedd prosiectau tyfu sydd wedi ennill eu plwyf yn y sir a ledled Cymru, gan annog yr aelodau a'r cyfranogwyr i rannu eu profiadau a chyfeirio grwpiau at ffynonellau arian a chymorth posibl. Mae'r rhwydwaith wedi trefnu ymweliadau cyson ag Amaethyddiaeth Gymunedol Organig Caerhys (COCI) - sef cynllun CSA yn Nhyddewi a gafodd ei sefydlu a'i lansio yn 2009 gyda chymorth Eco City Grwp a PLANED. Yn 2010, ariannodd PLANED ymweliad gan Nick Weir o brosiect Amaethyddiaeth Gymunedol Stroud i roi cyngor ar sut i sefydlu CSA, ac wedyn ymweliad â'r safle yn Stroud i weld sut roedd y prosiect yn cael ei redeg. Mae'r rhwydwaith hefyd yn rhoi cyngor a chymorth ar gyfer gweithgareddau estyn allan megis cyhoeddusrwydd, diwrnodau agored a chyfleoedd datblygu sgiliau.

**Cadwyn Clwyd**

Mae Cadwyn Clwyd yn Asiantaeth Datblygu Gwledig a ymgorfforwyd yn 2001 i gyflawni rhaglenni datblygu gwledig yng nghefn gwlad Sir y Fflint a Sir Ddinbych, ac un o'r rhain yw'r rhaglen LEADER. O dan ei raglen waith gyfredol, mae'r cwmni'n ymwneud â helpu gweithgareddau a phrosiectau mewn amrywiaeth mawr o feysydd, gan gynnwys gwasanaethau gwledig, twristiaeth wledig, ynni amgen, treftadaeth gymunedol, gwyliau a digwyddiadau lleol, coedwigaeth ac amaeth-bwyd, ac yn benodol gweithgareddau bwyd cymunedol. Mae'r is-adrannau a ganlyn yn rhoi trosolwg byr o'r prosiectau bwyd sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

*(i) Menter Gydweithredol Gymunedol FlintShare*

Mae FlintShare yn fenter gymdeithasol gydweithredol yn Sir y Fflint, a gafodd ei sefydlu ym mis Medi 2010 gyda chymorth Cittaslow yr Wyddgrug a Chadwyn Clwyd. Mae'n anelu at gynhyrchu bwyd ffres, lleol a chynaliadwy i'w aelodau drwy rwydwaith o erddi cymunedol bach ar draws cefn gwlad Sir y Fflint, gan gynnwys safleoedd yng Nghilcain, Ffynnongroyw, Llaneurgain a Phenarlâg. Mae'r prosiect yn dibynnu'n fawr ar waith gwirfoddol ei aelodau sy'n rhannu 'gweledigaeth gyffredin o gynhyrchu bwyd mewn modd sy'n gynaliadwy ac sy'n lleihau milltiroedd bwyd' (Flintshare, 2012). Yn y dyfodol mae'n bwriadu datblygu'n gynllun CSA gwirioneddol drwy gydweithio â thyfwr neu ffermwr proffesiynol. Mae'r fenter gydweithredol yn chwarae rhan weithredol yn y cymunedau lleol, gan gynnal gwyliau a dathliadau yn rheolaidd a chynnal sesiynau i grwpiau gwirfoddol ac ysgolion lleol ar ei safleoedd.

*(ii) Rhandiroedd Llanelwy*

Yn 2010, cafodd Cymdeithas Rhandiroedd Llanelwy gymorth Cadwyn Clwyd i sefydlu safle rhandiroedd sy'n darparu 32 o leiniau unigol ar ran o safle 22 erw o dir amaethyddol sy'n perthyn i Gyngor Cymuned Llanelwy. Sicrhaodd y gymdeithas gyllid drwy brosiect Amaeth-bwyd Sir Ddinbych o dan Echel 4 o'r RDP i baratoi'r safle a gosod llwybrau i ganiatáu mynediad iddo. Mae'r aelodau'n amrywio o bobl ifanc i bensiynwyr lleol ac mae'r gymdeithas yn gobeithio datblygu ymhellach a chryfhau naws deuluol a chymunedol ei gwaith.

*(iii) Trawsnewid Llanelwy*

Mae Trawsnewid Llanelwy, grwp cynaliadwyedd dan arweiniad cymunedol, wedi dechrau trafodaethau gyda Chadwyn Clwyd ynghylch creu fferm bermaddiwylliant gymunedol gyntaf y sir. Disgwylir mai prosiect a redir gan wirfoddolwyr fydd hwn, gan gynnig bwyd am gost isel i bobl Llanelwy, gweithredu fel llwyfan i hybu system bermaddiwylliant a chodi ymwybyddiaeth o'i waith ymhlith y cymunedau a'r busnesau lleol. Mae'r grwp yn chwilio ar hyn o bryd am ffyrdd i gydweithio â chymunedau a busnesau lleol i sicrhau cymorth i'r prosiect ac i sicrhau tir yn ardal Llanelwy.

**Prosiect Community Foodie: Cymunedau Gwledig Creadigol (Bro Morgannwg), Reach (Pen-y-bont ar Ogwr) a CreaTe (Tor-faen)**

Nod y prosiect Community Foodie yw nodi, datblygu a chefnogi gweithgareddau tyfu cymunedol yn ardaloedd gwledig Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Thor-faen. Y nod cyffredinol yw cryfhau cymunedau drwy gynyddu faint o gynnyrch sy'n cael ei dyfu a'i fwyta'n lleol, ac wrth wneud hynny eu galluogi i ddatblygu sgiliau gwerthfawr, hybu ffyrdd iach o fyw a dod ag aelodau o'r gymuned o bob oed at ei gilydd. Yn ogystal â rhoi cymorth ymarferol i'r grwpiau sydd â diddordeb mewn sefydlu prosiectau tyfu lleol, mae'r prosiect yn anelu at sefydlu a chynnal banc adnoddau a deunyddiau, y gall cymunedau a grwpiau tyfu gael offer a pheiriannau ganddo, ac unrhyw ddeunyddiau y mae eu hangen i sefydlu gardd, er enghraifft coed i greu gwelyau wedi'u codi.

O ran strwythur llywodraethu'r prosiect ceir grwp llywio trawsffiniol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri LAG unigol ym mhob sir[7] ac o sefydliadau ac asiantaethau cyhoeddus, preifat a chymunedol eraill, a hwnnw'n cadw'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r prosiect, a thri grwp llywio lleol yn y tair sir sy'n ymdrin â'r cysylltiadau ar y lefel leol.

Mae gan y prosiect nifer o nodau allweddol, gan gynnwys:

- hybu a hwyluso cydweithio rhwng tirfeddianwyr a'r cymunedau lleol;
- chwilio am ffyrdd amgen i ddefnyddio tir nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon;
- datblygu sgiliau garddwriaeth drwy rannu gwybodaeth ac arbenigedd;
- cynyddu faint o gynnyrch sy'n cael ei dyfu'n lleol;
- cynyddu faint o gynnyrch lleol sydd ar gael ac yn cael ei ddefnyddio;
- cyfrannu at ddatblygu diwylliannau bwyd lleol;
- dathlu rôl amrywiol bwyd yn y cymunedau.

Drwy fynd ati i ddatblygu ar y cyd mae yna gysylltiad agos rhwng gweithgareddau'r prosiect Community Foodie a gwaith Ffederasiwn y Ffermydd Dinas a'r Gerddi Cymunedol (FCFCG) wrth wireddu prosiect y Ffederasiwn, Tyfu Pobl, gyda phrosiect Tyfu Pobl yn gweithio ar lefel ranbarthol a'r prosiect Community Foodie yn canolbwyntio ar lefel fwy lleol. Gyda'i gilydd bydd y rhain yn rhoi ystod o gymorth i wahanol fodelau o gynlluniau tyfu cymunedol ac ystod o weithgareddau sy'n cyd-fynd â'r camau yng Nghynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn Gymunedol Llywodraeth Cymru.

Dyddiau cynnar yw hi ar y prosiect ond mae cryn gynnydd wedi'i wneud eisoes tuag at roi nodau allweddol y prosiect ar waith, ac yn benodol wrth greu cysylltiadau â grwpiau cymunedol sydd â diddordeb. Mae'r tri LAG yn cydweithio'n agos ar hyn o bryd i rannu gwybodaeth a phrofiad, drwy fynd i gyfarfodydd ar y cyd, ymweld â phrosiectau bwyd cymunedol sydd eisoes yn bod, yn ogystal â safleoedd posibl at y dyfodol, a thrwy ddatblygu cydberthynas waith â'r FCFCG

[7] Y tri LAG yw: Cymunedau Gwledig Creadigol (CRC) – menter adfywio a datblygu economaidd o dan arweiniad Cyngor Bro Morgannwg mewn partneriaeth ag amryw o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol; Reach, y Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer wardiau gwledig sir Pen-y-bont ar Ogwr; a CreaTe, y Grwp Gweithredu Lleol sy'n gyfrifol am hybu gwaith y Rhaglen Datblygu Gwledig yn Nhor-faen.

a'u rhaglen Tyfu Pobl. Gyda chymorth cwmni dylunio graffig, mae'r prosiect hefyd wedi datblygu brand unigryw Community Foodie, a fydd yn cael ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect yn y tair sir a'r tu hwnt, ac a fydd yn cael ei gylchredeg yn y cyfryngau lleol, ar-lein ac mewn digwyddiadau cymunedol lleol.

Ym Mro Morgannwg yn unig, mae'r prosiect wedi creu cysylltiadau â naw o grwpiau cymunedol sydd â diddordeb mewn sefydlu gweithgareddau tyfu bwyd, a phob grwp yn cynnig set unigryw o amgylchiadau a gweledigaeth ar gyfer eu prosiect tyfu cymunedol. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cynghorau cymuned, grwpiau cymunedol annibynnol (megis grwpiau Trawsnewid), a grwpiau sydd â chysylltiad uniongyrchol â sefydliadau.

Mae'r prosiect hefyd wedi cysylltu â nifer o dirfeddianwyr preifat yn y Fro i ddod o hyd i dir sy'n addas at ddatblygu prosiectau tyfu. Er hynny, mae'r profiad hyd yn hyn yn awgrymu bod y grwp penodol hwn yn llai bodlon ymwneud ag agenda tyfu bwyd yn gymunedol ar hyn o bryd, ac felly bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu ymagweddau i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol opsiynau sydd ar gael iddyn nhw, ac i gyfleu manteision datblygu prosiect tyfu bwyd sy'n gysylltiedig â'r gymuned.

### CreaTe, Rhaglen Datblygu Gwledig Tor-faen

Mae CreaTe, y Grwp Gweithredu Lleol a sefydlwyd i wireddu Echelau 3 a 4 o'r RDP yn y saith ward wledig ar draws Tor-faen, wedi llwyddo i sicrhau cyllid i sawl prosiect o dan yr RDP, un ohonyn nhw'n cynnwys elfen o weithgareddau tyfu yn y gymuned neu'r ysgol. Yn ystod 2008-2011, sicrhaodd tîm yr RDP gyllid o dan Echel 3 i adfer ac addasu plasty rhestredig Gradd II Llanyrafon Manor a'i diroedd. Bydd y safle a'i weithgareddau yn canolbwyntio'n gryf ar ddibenion cymunedol a daw'n ased lleol. Mae cyllid wedi'i sicrhau am y cyfnod 2011-2013 i barhau â'r gwaith ac i gyflogi Swyddog Treftadaeth Wledig a fydd yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen o weithgareddau yn y ganolfan. Fel rhan o'r rhaglen, bydd tîm yr RDP yn gweithio mewn partneriaeth â'r ysgolion lleol i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc yn eu treftadaeth naturiol. Caiff y prosiect ei gysylltu â'r rhaglen Ysgolion Fforest bresennol sy'n cael ei gweithredu gan Lywodraeth Cymru.

### Glasu, Cynllun Datblygu Gwledig Powys

Mae Glasu yn bartneriaeth leol rhwng sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol ac mae'n rhan o Bartneriaeth Wledig Powys, a sefydlwyd yn 2000 i oruchwylio gwaith i ddatblygu, rheoli a gweithredu rhaglenni datblygu gwledig sy'n cael eu hariannu gan yr UE ym Mhowys. Nod y rhaglen gyfredol ar gyfer y cyfnod 2011-2013, o dan y teitl 'Powys Wydn' yw helpu i arallgyfeirio a chynnal yr economi gwledig a gwella ansawdd bwyd trigolion y sir. Mae'n ceisio helpu unigolion, cymunedau a busnesau i fod yn fwy gwydn yn wyneb yr heriau economaidd ac amgylcheddol lleol a byd-eang y maen nhw'n eu hwynebu drwy ganolbwyntio ar bum blaenoriaeth allweddol: arallgyfeirio ffermydd, arloesi mewn busnes, twristiaeth arloesol, gwytnwch cymunedol a threftadaeth ddiwylliannol. Gyda'i gilydd gall y rhain gyflawni rhaglen o gefnogaeth a chymorth ariannol i hybu mentrau arloesol, cynaliadwy sy'n gweithio o'r gwaelod i fyny ar raddfa fach, o dan arweiniad unigolion, busnesau a chymunedau.

O dan y bedwaredd flaenoriaeth, mae Glasu ar hyn o bryd yn helpu nifer o brosiectau sy'n anelu'n unswydd at ddatblygu opsiynau bwyd cynaliadwy yn lleol gan gynnwys defnyddio tir cymunedol, cynhyrchu a dosbarthu bwyd, a chodi ymwybyddiaeth o gynhyrchion a marchnadoedd lleol, yn enwedig ymhlith aelodau o gymunedau gwledig ledled Powys sy'n cael eu cau allan ac yn byw ar y cyrion. Ceir amlinelliad byr o bedwar prosiect isod.

*(i) Prosiect Addysgol Arbed Hadau'r Little Green Farm*

Mae'r prosiect hwn yn datblygu adnoddau addysgol ar y we i helpu ysgolion a disgyblion i reoli eu gerddi ysgol, drwy ddarparu blogiadau i roi cyfarwyddiadau tymhorol a'r newyddion diweddaraf, cynlluniau gwersi a chyflenwadau garddio, megis cyflenwadau o hadau llysiau wedi'u peillio. Yn y prosiect, mae pwyslais cryf yn cael ei roi ar feithrin sgiliau menter ac ymagweddau sy'n gysylltiedig â gardd yr ysgol, er enghraifft, drwy annog ysgolion i ystyried ymagweddau gwahanol at ddefnyddio'r hadau er mwyn adennill cost prynu'r adnoddau, sy'n golygu bod y gweithgareddau garddio yn niwtral o ran eu cost yn ystod y flwyddyn gyntaf.

*(ii) Fine Pluck*

Mae cynigion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd i sefydlu busnes te perlysiau hyfyw o ansawdd uchel gan ddefnyddio cynnyrch sy'n cael ei dyfu ar dyddyn 17 erw ym Mynyddoedd Cambria yn y Canolbarth, gan gynaeafu o blanhigion gwyllt a sicrhau cyflenwadau gan bartneriaid eraill o dyfwyr, gan ddefnyddio egwyddorion permaddiwylliant. Mae cymorth cychwynnol gan Glasu wedi caniatáu i Fine Pluck gynnal astudiaeth yn edrych ar ddichonoldeb y cynhyrchion hyn, cost eu cynhyrchu a'r gallu i gynaeafu digon o gnwd gan ddefnyddio dulliau permaddiwylliant ar y tyddyn ac ymhlith tyfwyr eraill yn y gymuned leol.

*(iii) Prosiect Hanes Llafar 'Storïau Bwyd' (yn disgwyl i'r LAG ei gymeradwyo)*

Mae partneriaeth o sefydliadau gwirfoddol o amgylch pentref Howey ger Llandrindod, gan gynnwys Menter Gymunedol Ashfield, wrthi'n gweithio ar gynnig ar gyfer prosiect a fyddai'n anelu at gasglu gwybodaeth draddodiadol leol am dyfu, prosesu, cynhyrchu, cadw a storio bwyd, a fydd ar gael i'r cymunedau lleol a'r cyhoedd i'w defnyddio. Mae cynigion y prosiect hefyd yn cynnwys datblygu cegin ag offer arbennig at gadw bwyd i'w defnyddio gan y partneriaid, busnesau a'r cyhoedd ar gyfer gweithgareddau megis creu sudd, sychu, potelu a chochi, i dreialu a datblygu cynhyrchion newydd, ac i ddefnyddio cynhyrchion bwyd a gormodeddau lleol.

*(iv) Astudiaeth Ddichonoldeb Cegin Gymunedol Llanidloes (yn disgwyl i'r LAG ei gymeradwyo)*

Mae pobydd arbenigol lleol yn Llanidloes am ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cegin/adnodd prosesu bwyd ar y cyd i'w alluogi ef a thyfwyr a chynhyrchwyr lleol eraill i gynyddu eu gallu a chyrraedd marchnadoedd newydd a phresennol. Y nod yw lleihau costau sylweddol sefydlu cyfleusterau ar wahân i bob cynhyrchydd, sy'n rhwystro unigolion a busnesau sydd am fynd i'r farchnad neu sydd am ehangu. Bydd yr astudiaeth yn ystyried pa mor ymarferol yw defnyddio ceginau yn yr ardal sy'n cydymffurfio â'r gofynion ond nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio ddigon megis yn y ganolfan gymunedol neu mewn ysgolion lleol. Ar ôl i hyn gael ei gwblhau, mae'r ymgeisydd yn bwriadu helpu i sefydlu cyfleusterau tebyg yn y cymunedau cyfagos.

# ADRAN 3: AROLWG TYFU CYMUNEDOL: DADANSODDIAD

**Rhagymadrodd**

Mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad o'r Arolwg Tyfu Cymunedol. Mae ynddi ddadansoddiadau amlder a sylwebaeth, a darlunnir y data drwy gyfrwng tablau. Fel y trafodwyd yn yr adran ar y fethodoleg, crewyd tri fersiwn o'r holiadur. Cafodd yr holiaduron eu dylunio ar sail templed cyffredin gydag amrywiadau ar gyfer pob un o'r tri math o brosiect tyfu: gerddi cymunedol [CGs], rhandiroedd, a chynlluniau amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned [CSA]. Ceir copïau o'r tri holiadur yn Atodiadau 2 i 4.

Mae'r dadansoddiad a ganlyn wedi'i rannu'n bum is-adran:

- Dadansoddiad o'r cwestiynau sy'n gyffredin i bob model tyfu cymunedol
- Dadansoddiad o gwestiynau'r CGs
- Dadansoddiad o gwestiynau'r Rhandiroedd
- Dadansoddiad o gwestiynau'r CSAs
- Crynodeb o'r pwyntiau allweddol o'r dadansoddiad

## Rhandiroedd, Gerddi Cymunedol a chynlluniau CSA: Ymatebion i'r cwestiynau cyffredin

### Manylion y Prosiect: Lleoliad, Ardal a Demograffeg

Ymatebodd cyfanswm o 196 o brosiectau tyfu cymunedol i'r arolwg. Ceir dadansoddiad o'r gwahanol fathau o brosiect yn Nhabl 3.1.

**Tabl 3.1 Ymatebwyr yr Arolwg**

| Math o brosiect | Nifer | Cyfran o'r arolwg |
|---|---|---|
| Gardd Gymunedol | 48 | 24% |
| Rhandir | 143 | 73% |
| CSA | 5 | 3% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **196** | **100%** |

Mae Tabl 1.1 ar t.12 yn dangos dosbarthiad daearyddol yr ymatebion i'r arolwg a hefyd y gyfran o'r prosiectau tyfu cymunedol a geir mewn mannau gwledig, lled-wledig, trefol ac yn y Cymoedd. Fel y gwelir yn y tabl, Caerffili oedd â'r nifer uchaf o ymatebion gan brosiectau tyfu cymunedol, wedyn Sir Benfro, Abertawe, Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent. O ran y math o ardal, y Cymoedd oedd â'r gyfran uchaf o brosiectau tyfu cymunedol, gyda chrynodiad o safleoedd rhandiroedd yn arbennig.

Mae Tabl 3.2 yn dangos maint y tri model o brosiect tyfu cymunedol yn yr arolwg.

**Tabl 3.2 Maint y safleoedd tyfu cymunedol**

| | Llai na 0.5 ha | 0.5ha - 1 ha | Dros 1 ha |
|---|---|---|---|
| Gardd Gymunedol | 38% | 32% | 30% |
| Rhandir | 52% | 23% | 24% |
| CSA | (1) | (3) | (1) |
| **Cyfanswm** | **47%** | **27%** | **26%** |

Roedd ychydig dros hanner y safleoedd rhandiroedd a arolygwyd yn llai na hanner hectar o ran arwynebedd, ac felly hefyd y gyfran leiaf o CGs. 0.85 ha oedd arwynebedd cymedrig safleoedd rhandiroedd. Yn achos CGs a chynlluniau CSA roedd yr arwynebedd cymedrig yn 7.4 ha a 3.3 ha yn eu tro.

Un pwynt pwysig i'w nodi yw bod rhai prosiectau tyfu cymunedol wedi cofnodi cyfanswm yr arwynebedd sy'n perthyn iddyn nhw yn hytrach na'r tir sy'n cael ei ddefnyddio at dyfu. Mae hynny'n chwyddo'r arwynebedd cymedrig. Er enghraifft, cofnododd CG ar hen faes awyr arwynebedd o 146 ha. Roedd y cofnodion uchel eraill yn cynnwys 72 ha a sawl un dros 10 ha. O dynnu'r pum cofnod uchaf cafwyd cymedr o 0.76 ha ar gyfer CGs.

## Demograffeg Tyfu Cymunedol

Drwy'r arolwg cyfan cafwyd bron dwywaith yn fwy o gynrychiolwyr gwryw na chynrychiolwyr benyw ar y safleoedd: hynny yw y sawl a lenwodd yr holiadur. Yn achos safleoedd rhandiroedd, aelod o'r pwyllgor oedd hwn, ac yn achos CGs a chynlluniau CSA gallai fod yn sylfaenydd y prosiect, rheolwr y prosiect, aelod o'r pwyllgor neu dyfwr. Er hynny, roedd y gymhareb rhywedd yn wahanol yn achos CGs. Mae Tabl 3.3 yn dangos rhywedd cynrychiolwyr y safleoedd ac mae Tabl 3.4 yn dangos ystod oed cynrychiolwyr y safleoedd.

**Tabl 3.3 Rhywedd cynrychiolwyr safleoedd**

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Gardd Gymunedol | 58% | 42% |
| Rhandir | 28% | 72% |
| CSA | (1) | (4) |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **35%** | **65%** |

**Tabl 3.4 Oed cynrychiolwyr safleoedd**

| | O dan 30 oed | 30 i 39 oed | 40 i 49 oed | 50 i 59 oed | 60 i 64 oed | 65 a throsodd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gardd Gymunedol | 12% | 23% | 23% | 23% | 5% | 14% |
| Rhandir | 2% | 1% | 12% | 28% | 18% | 40% |
| CSA | (1) | (2) | (0) | (1) | (1) | (0) |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **5%** | **7%** | **14%** | **27%** | **15%** | **32%** |

Y pwynt perthnasol yn Nhabl 3.4 yw proffil oed cynrychiolwyr y rhandiroedd, a oedd yn tueddu i fod yn hyn na chynrychiolwyr CGs a chynlluniau CSA.

Gofynnwyd i gynrychiolwyr y safleoedd roi manylion rhywedd ac oed y bobl a oedd yn gweithio ar y CGs a'r cynlluniau CSA neu fanylion deiliaid lleiniau'r rhandir. Gwelir y data hwn yn Nhabl 3.6.

O'u cymryd ynghyd mae'n ymddangos bod y data yn Nhablau 3.3, 3.4 a 3.5 yn ategu'r stereoteip mai lle i ddynion hyn yw safle rhandiroedd. Yn achos CGs a chynlluniau CSA roedd y gymhareb rywedd yn fwy cydradd. Hefyd, roedd mwy o bobl yn y grwpiau oed iau yn cymryd rhan yn y mathau hyn o weithgareddau tyfu cymunedol nag ar randiroedd.

**Tabl 3.5 Oed a rhywedd pobl ar safleoedd tyfu cymunedol**

| | Gwryw | Benyw | O dan 16 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-59 | 60 a throsodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gardd Gymunedol | 52% | 48% | 11% | 9% | 19% | 19% | 20% | 22% |
| Rhandir | 76% | 24% | 1% | 2% | 9% | 17% | 29% | 43% |
| CSA | 62% | 38% | 25% | 6% | 26% | 35% | 6% | 1% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **69%** | **31%** | **4%** | **4%** | **12%** | **18%** | **26%** | **37%** |

Mae Tabl 3.6 yn rhoi gwybodaeth am y pellter a oedd yn cael ei deithio gan aelodau'r safleoedd ac yn dangos bod prosiectau tyfu cymunedol yn lleol yn y bôn, gyda chyfran fawr o aelodau'r safleoedd yn byw yn gymharol agos i'r lle tyfu. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos rhandiroedd.

Y dull trafnidiaeth mwyaf poblogaidd i gyrraedd safleoedd tyfu cymunedol oedd cerdded (42%), wedyn modur (35%, ac o'r rhain roedd 9% yn rhannu cerbyd). Roedd cyfran lai yn defnyddio beic (9%); cludiant cyhoeddus (6%); neu gymysgedd o ddulliau (3%).

**Tabl 3.6 Pellter teithio aelodau safleoedd**

| | O dan ½ milltir | Rhwng ½ - 1 filltir | Rhwng 1 - 2 filltir | Mwy na 2 filltir |
|---|---|---|---|---|
| CG | 28% | 18% | 23% | 31% |
| Rhandir | 40% | 28% | 21% | 10% |
| CSA | 5% | 5% | 25% | 65% |
| **Cyfanswm** | **37%** | **25%** | **22%** | **16%** |

Gofynnwyd i gynrychiolwyr y safleoedd ddweud beth, yn eu barn nhw, oedd cymhellion allweddol pobl wrth ymuno mewn tyfu cymunedol. Mae Tabl 3.7 yn dangos yr ymatebion hyn. 'Gwella iechyd a lles personol' ddaeth i'r amlwg fel y cymhelliant allweddol yn gyffredinol. Gellir dadlau bod y cymhelliant hwn yn cynnwys bwyd ac iechyd corfforol a meddyliol. Sylwch fod pum cynllun CSA wedi ymateb i'r arolwg. Syndod o isel œdd yr atebion 'datblygu system fwyd amgen' a 'cynyddu cynhyrchiant bwyd lleol'.

**Tabl 3.7 Cymhellion allweddol cymryd rhan mewn tyfu cymunedol**

| | Mynediad i dir | Datblygu system fwyd amgen | Cynyddu cynhyrchiant bwyd lleol | Gwella iechyd / lles personol | Cyfarfod â phobl eraill | Dysgu mwy am yr amgylchedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CG | 42% | 56% | 60% | 79% | 79% | 54% |
| Rhandir | 34% | 57% | 36% | 86% | 62% | 20% |
| CSA | (0) | (2) | (1) | (4) | (5) | (4) |
| **Cyfanswm** | **35%** | **56%** | **42%** | **84%** | **67%** | **30%** |

**Tabl 3.8** **Y cnydau sy'n cael eu tyfu ar safleoedd tyfu cymunedol**

| Y math o gnwd | CG | Rhandir | CSA | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwreiddiau | 63% | 93% | (5) | **86%** |
| Ffrwythau llysiau | 54% | 88% | (4) | **80%** |
| Winwns a theulu aliwm | 58% | 94% | (5) | **85%** |
| Llysiau ar goesyn / llysiau lluosflwydd | 42% | 73% | (4) | **66%** |
| Pys a ffa | 63% | 94% | (5) | **86%** |
| Brasica | 50% | 90% | (5) | **80%** |
| Salad a dail | 58% | 89% | (5) | **82%** |
| Perlysiau | 63% | 79% | (4) | **75%** |
| Ffrwythau ar goed | 69% | 58% | (3) | **61%** |
| Ffrwythau meddal | 60% | 80% | (3) | **75%** |
| Ffrwythau gwinwydd a changhennau | 23% | 37% | (2) | **34%** |
| Blodau | 50% | 78% | (4) | **71%** |
| Eraill | 17% | 8% | (1) | **10%** |

## Dibenion, Gweithgareddau a Heriau'r Safleoedd

*Dibenion y Safleoedd*

Mae Tabl 3.8 yn dangos y mathau o gnydau a oedd yn cael eu tyfu ar y prosiectau tyfu cymunedol a ymatebodd a chyfran y prosiectau a oedd yn eu tyfu.

Roedd y cnydau eraill a oedd yn cael eu cynhyrchu ar safleoedd tyfu cymunedol yn cynnwys hopys, helyg, planhigion i'w plannu allan, cnydau lled-drofannol a chnau. Ar ambell safle roedd anifeiliaid yn cael eu cadw; er enghraifft, ieir a hwyaid. Un eitem arall a oedd yn fwyfwy poblogaidd oedd mêl o gychod ar y safle.

Roedd gwenyn hefyd yn cael eu gweld fel cyfrannwr uniongyrchol at fioamrywiaeth. Mae Tabl 3.9 yn dangos sut roedd y prosiectau tyfu cymunedol yn dosbarthu eu cynnyrch.

Gan fod rhandiroedd, yn ôl y diffiniad, yn bodoli er mwyn cynhyrchu bwyd i'w fwyta yn bersonol ac yn y cartref, gellid bod wedi disgwyl ymateb o 100% ar gyfer 'defnydd personol'. Ceir dau reswm pam na ddigwyddodd hyn. Yn gyntaf, wnaeth nifer fach o safleoedd rhandiroedd ddim ateb y cwestiwn. Yn ail, roedd rhai rhandiroedd yn gweithredu fel gerddi cymunedol ac yn defnyddio'r cynnyrch ar y cyd ac yn cyflwyno cynnyrch fel rhoddion.

**Tabl 3.9** **Dosbarthu'r cynnyrch bwyd**

| | Defnydd personol | Gwerthu 'cynnyrch gormodol' | Defnydd cymunedol | Rhoi'r cynnyrch | Eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| CG | 54% | 50% | 46% | 23% | 15% |
| Rhandir | 92% | 5% | 9% | 27% | 15% |
| CSA | (2) | (3) | (2) | (3) | (3) |
| **Cyfanswm** | **83%** | **18%** | **19%** | **27%** | **16%** |

**Tabl 3.10 Mesurau gan y safleoedd i hybu bioamrywiaeth a bywyd gwyllt**

| Mesur Bioamrywiaeth | Ie | Coed aeddfed | Pwll / nodwedd ddwr | Glaswellt heb ei dorri | Pentwr boncyffion | Blychau bywyd gwyllt | Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CG | **83%** | 85% | 60% | 88% | 83% | 63% | 25% |
| Rhandir | **50%** | 73% | 55% | 41% | 52% | 68% | 18% |
| CSA | **(5)** | (4) | (5) | (4) | (2) | (3) | (2) |
| **Cyfanswm** | **59%** | **78%** | **59%** | **59%** | **62%** | **66%** | **22%** |

*Bioamrywiaeth, Bywyd Gwyllt a Chadwraeth*

Roedd nodau rhai o'r prosiectau tyfu cymunedol, yn enwedig y CGs a'r cynlluniau CSA, yn cynnwys hybu bioamrywiaeth a bywyd gwyllt. Gofynnwyd i gynrychiolwyr y safleoedd ddweud a oedd eu safle'n cael ei reoli er mwyn hybu bioamrywiaeth a bywyd gwyllt, a pha fesurau a oedd wedi'u gosod i gyrraedd y nod hwn. Mae Tabl 3.10 yn dangos y data. Roedd y mesurau eraill yn cynnwys mannau gwyllt, gwrychoedd, hybu bioamrywiaeth ar lannau afonydd, daearau i ddyfrgwn, abwydfeydd, a chychod gwenyn, a oedd hefyd, fel y dywedwyd uchod, yn creu mêl i'w fwyta'n bersonol neu i'w werthu.

O ran cadwraeth, mae Tabl 3 yn dangos cyfran y prosiectau tyfu a oedd yn ailgylchu ac yn compostio ar raddfa gymunedol. Isel, mae'n ymddangos yw'r ymatebion ar gyfer compostio, heblaw'r 100% o'r pum cynllun CSA a oedd yn compostio. Efallai mai deiliaid rhandiroedd unigol oedd yn compostio, yn hytrach na bod un pentwr neu fin compost cyffredin i'r safle cyfan. Yn yr un modd, ychydig yn unig o CGs a fyddai heb bentwr compost.

Hefyd, roedd 29% o gyfanswm yr arolwg yn cynnal ymweliadau addysg; roedd 20% yn cynnal digwyddiadau hyfforddi; roedd 24% yn cynnal diwrnodau agored; ac roedd 23% yn cynnal digwyddiadau cymunedol. Ceir dadansoddiad o'r gweithgareddau hyn fesul math o brosiect yn Nhabl 3.18, yn yr is-adran 'Cydweithredu, Cyraeddiadau a Gweithgareddau at y Dyfodol'.

**Tabl 3.11 Gweithgareddau amgylcheddol ar safleoedd tyfu cymunedol**

| | Ailgylchu | Compostio |
|---|---|---|
| CG | 27% | 71% |
| Rhandir | 22% | 69% |
| CSA | (2) | (5) |
| **Cyfanswm** | **24%** | **70%** |

*Cyfleusterau ar y Safle*

Tueddai'r safleoedd tyfu cymunedol i fod heb gyfleusterau fel toiledau, cysgodfeydd a storfeydd. Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ddweud pa gyfleusterau oedd gan eu safle. Gwelir y canlyniadau yn Nhabl 3.12. Roedd y cyfleusterau eraill ar safleoedd yn cynnwys mannau hamdden, twneli polythen, ystafelloedd hyfforddi, a sgipiau sbwriel.

O ran cyfleusterau ar y safle, mae'r rhandiroedd yn amlwg am eu bod yn wahanol o ran maint i CGs a chynlluniau CSA, a'r pwynt allweddol yw mai 6% yn unig o randiroedd oedd â thoiled. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod ymhellach yn yr adran Astudiaethau Achos yn yr adroddiad hwn.

**Tabl 3.12 Cyfleusterau ar y safle**

| | Storfa gadarn | Cysgodfa | Toiled | Cyfleusterau cegin | Caffi |
|---|---|---|---|---|---|
| CG | 54% | 54% | 48% | 38% | 15% |
| Rhandir | 55% | 31% | 6% | 4% | 1% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CSA | (4) | (5) | (3) | (1) | (0) |
| **Cyfanswm** | **55%** | **38%** | **17%** | **13%** | **4%** |

*Yr heriau allweddol*

Yn ychwanegol at drefnu tyfu cymunedol a'i lywodraethiant, mae'r bobl sydd ynglyn â phrosiectau tyfu cymunedol yn aml yn wynebu heriau. Gofynnwyd i gynrychiolwyr y safleoedd ddweud pa fath o her yr oedd eu safle wedi'i wynebu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Tabl 3.13 yn dangos y mathau o her a oedd yn bodoli a pha gyfran o'r prosiectau tyfu cymunedol a oedd wedi'u hwynebu.

Mae'r tabl yn dangos mai rhandiroedd oedd yn dioddef amlaf yn sgil fandaliaeth, gollwng sbwriel a lladrata. Soniwyd am ddau fath o ladrata: dwyn offer ac eiddo personol oedd wedi'u storio ar y safle, a dwyn cynnyrch yn uniongyrchol oddi ar y lleiniau garddio.

Gofynnwyd i gynrychiolwyr y safleoedd ddweud hefyd a oedd digon o gymorth ar gael i'w helpu i fynd i'r afael â heriau. Rhandiroedd oedd debycaf o roi ateb cadarnhaol, sef 41%. Fe ellid priodoli hyn i'w cysylltiad uniongyrchol â'r awdurdodau lleol a'r cynghorau lleol, oedd yn gyfrifol yn y pen draw am safleoedd rhandiroedd. Roedd y CGs a'r cynlluniau CSA yn llai cadarnhaol, sef 29% a 17% yn eu tro.

Er gwaethaf yr ymatebion cadarnhaol hyn, roedd 41% o'r rhandiroedd a rhyw 29% o'r CGs a dau o'r pum cynllun CSA o'r farn mai annigonol oedd y cymorth. 38% oedd y gyfradd fodlonrwydd gyffredinol o ran cymorth.

**Tabl 3.13 Yr heriau sy'n wynebu prosiectau tyfu cymunedol yn y blynyddoedd diwethaf**

| | Fandaliaeth | Gollwng sbwriel | Lladrata | Deiliadaeth tir | Ansawdd tir / pridd | Deddfau | Materion personél | Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CG | 31% | 19% | 21% | 10% | 27% | 19% | 21% | 15% |
| Rhandir | 59% | 34% | 58% | 4% | 17% | 2% | 18% | 17% |
| CSA | (1) | (0) | (0) | (1) | (1) | (0) | (0) | (3) |
| **Cyfanswm** | **51%** | **29%** | **47%** | **6%** | **20%** | **6%** | **18%** | **17%** |

## Rhwydweithiau a Chymorth

Ceid mathau eraill o gymorth i brosiectau tyfu cymunedol ac roedd cyfanswm o 48% o'r prosiectau tyfu cymunedol yn yr arolwg yn perthyn i sefydliadau proffesiynol neu gynrychioliadol: 60% o CGs; 67% o gynlluniau CSA; a 43% o randiroedd. Gwelir y prif sefydliadau, a'r gyfran o'r tri math o brosiectau tyfu cymunedol a oedd yn perthyn iddyn nhw, yn Nhabl 3.14 (drosodd).

Fel y gwelir yn Nhabl 3.14, roedd 42% o'r rhandiroedd yn perthyn i NSALG; hynny yw, doedd y mwyafrif, sef 58%, ddim yn perthyn. Yn achos CGs, dywedodd mwy na hanner (54%) eu bod yn perthyn i'r FCFCG, ac roedd tri o'r cynlluniau CSA hefyd yn aelodau. Roedd y sefydliadau eraill yr oedd prosiectau yn perthyn iddyn nhw yn cynnwys BTCV (Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain), Cadwch Gymru'n Daclus, Permaddiwylliant, Cymdeithas Rhandiroedd Siroedd De-orllewin Lloegr, Gweithredu dros Gyflogaeth, Cymdeithas Ffrwythau Coed Cymru, y Gymdeithas Fioddeinamig a Gwenynwyr Cymru.

Mae'r data yn Nhabl 3.14 yn dangos bod dau o'r pum cynllun CSA a 6% yn unig o'r CGs oedd yn aelodau o Gymdeithas y Pridd: hynny yw eu bod wedi'u cofrestru fel tyfwyr organig. Er hynny, mewn ymateb i'r cwestiwn 'Pa system dyfu rydych chi'n ei defnyddio', honnodd pob un o'r cynlluniau CSA eu bod yn organig, ac roedd dau o'r pump yn defnyddio dulliau permaddiwylliant, sy'n ddulliau organig.

**Tabl 3.14 Sefydliadau**

| | FCFCG | RHS | NSALG | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Ground-work | Cymdeithas y Pridd | Landshare | Amgylchedd Cymru | ARI | Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CG | 54% | 6% | 10% | 8% | 19% | 6% | 2% | 48% | 4% | 19% |
| Rhandir | 6% | 4% | 42% | 1% | 7% | 1% | 0% | 4% | 2% | 10% |
| CSA | (3) | (0) | (0) | (0) | (0) | (2) | (0) | (1) | (0) | (0) |
| **Cyfanswm** | **19%** | **5%** | **33%** | **3%** | **10%** | **4%** | **1%** | **15%** | **3%** | **12%** |

**FCFCG** **Ffederasiwn y Ffermydd Dinas a'r Gerddi Cymunedol**
**NSALG** **Cymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Rhandir a'r Garddwyr Hamdden**
**RHS** **Y Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol**
**ARI** **Menter Adfywio Rhandiroedd**

Yn yr un modd, mewn ymateb i'r un cwestiwn, honnodd 67% o'r CGs eu bod yn organig ac roedd 27% yn defnyddio dulliau tyfu permaddiwylliant. I raddau, mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu diffyg cysylltiad rhwng prosiectau tyfu cymunedol a Chymdeithas y Pridd.

Gofynnwyd i gynrychiolwyr y safleoedd roi eu barn am y ddarpariaeth cymorth a chyngor i brosiectau tyfu cymunedol yng Nghymru. Mae Tabl 3.15 yn dangos yr ymatebion. Er bod y sgoriau cyffredinol yn dangos bod y sgoriau 'da iawn' a 'da', sef 44%, yn fwy na'r sgoriau 'gwael' a 'gwael iawn (cyfanswm o 37%), yn unigol cafwyd ymatebion pur wahanol gan y tri math o brosiect tyfu cymunedol. Roedd CGs yn tueddu i fod yn uchel eu parch at y sefydliadau sy'n cynnig cymorth iddyn nhw, gyda 63% o'r prosiectau'n dweud bod y ddarpariaeth cyngor a chymorth naill ai'n 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd y ffigur cyfatebol yn achos y rhandiroedd yn llawer is, sef 39%, gyda 42% o'r prosiectau'n dweud bod y ddarpariaeth cyngor a chymorth yn eu maes nhw naill ai'n 'wael' neu'n 'wael iawn'. Dywedodd tri o'r pum cynllun CSA yn yr arolwg hefyd fod y cymorth yn 'wael' neu'n 'wael iawn'.

Doedd cyfran gymharol uchel o'r CGs (19%) a'r rhandiroedd (20%) ddim yn ymwybodol bod yna gymorth. Hefyd, wnaeth 6% o'r arolwg ddim ateb y cwestiwn. Mae'r data yn awgrymu diffyg cysylltiad posibl rhwng grwpiau tyfu cymunedol a sefydliadau cymorth.

**Tabl 3.15 Cymorth a chyngor i grwpiau tyfu cymunedol**

| | Da Iawn | Da | Gwael | Gwael Iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| CG | 12% | 51% | 12% | 7% | 19% |
| Rhandir | 7% | 32% | 29% | 13% | 20% |
| CSA | (0) | (1) | (2) | (1) | (0) |
| **Cyfanswm** | **8%** | **36%** | **25%** | **12%** | **19%** |

## Cydweithredu, Cyraeddiadau a Chynlluniau Datblygu

*Gweithgareddau Cymunedau a Rhwydweithiau*

Roedd llawer o'r prosiectau tyfu cymunedol yn yr arolwg yn cydweithio â sefydliadau eraill i gyrraedd nodau cyffredin. Mae Tabl 3.16 yn dangos yr ystod o bartneriaid cydweithredu a chyfran

y prosiectau tyfu a oedd yn cydweithio â nhw. Ceir dau dabl arall wedyn. Mae Tabl 3.17 yn dangos y prif gymhellion dros gydweithredu â phrosiectau tyfu cymunedol eraill, ac mae Tabl 3.18 yn dangos pa gyfran o brosiectau a oedd yn cynnal ymweliadau addysgol, diwrnodau hyfforddi, diwrnodau agored, a digwyddiadau cymunedol.

Ar sail Tabl 3.16, rhandiroedd oedd â'r lefelau cydweithredu uchaf â'r awdurdodau lleol, sef 55%, er bod y CGs bron â chyrraedd yr un lefel, ar 54%. O gofio'r cysylltiad agos rhwng rhandiroedd a'r awdurdodau lleol, roedd y canlyniad hwn i'w ddisgwyl. Er hynny, mae mynychder cymharol uchel y cydweithredu rhwng CGs a'r awdurdodau lleol yn awgrymu bod yna ddulliau cydweithio mwy rhagweithiol.

Ar bob categori arall o bartneriaid, cyfran fach a gofnododd y rhandiroedd. Un canlyniad allweddol yw'r 23%, ychydig dros un ym mhob pump, o randiroedd a oedd yn cydweithio â phrosiectau tyfu cymunedol eraill. Ar y llaw arall, roedd CGs (46%) a chynlluniau CSA (tri o'r pump) yn llawer tebycach o gydweithredu â phrosiectau tyfu cymunedol eraill.

Mae natur unigolyddol y rhandiroedd o'u cymharu â CGs a chynlluniau CSA yn cael ei hadlewyrchu yn Nhabl 3.17. Cofnododd y rhandiroedd gyfran lawer is a oedd yn cael eu cymell gan y tri chategori 'rhannu': gweithgareddau cydategol; dysgu a rhannu'r arferion gorau; a rhannu arbenigedd.

Roedd yr ymatebwyr yn tueddu i ddefnyddio'r categori 'Eraill' i roi manylion eu gweithgareddau.

**Tabl 3.16 Partneriaid gwaith**

| | Ysgol-ion | Awdurdod lleol | Sefydliad au iechyd | Grwpiau ieuenctid | Busnes -au lleol | Cynlluniau cyflogi / hyfforddi | Sefydliad au crefyddol | Prosiectau tyfu eraill | Elusennau lleol | Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CG | 60% | 54% | 27% | 38% | 25% | 35% | 13% | 46% | 31% | 15% |
| Rhandir | 22% | 55% | 5% | 8% | 3% | 6% | 1% | 23% | 8% | 11% |
| CSA | (1) | (1) | (0) | (1) | (1) | (0) | (0) | (3) | (0) | (1) |
| **Cyfanswm** | **31%** | **53%** | **10%** | **15%** | **9%** | **13%** | **4%** | **29%** | **14%** | **12%** |

**Tabl 3.17 Y prif gymhellion dros gydweithredu**

| | Gweithgar eddau cydategol | Rhannu'r arferion gorau | Lleihau costau | Rhannu staff / gwirfoddol wyr | Rhannu arbeniged d | Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gardd Gymunedol | 60% | 69% | 27% | 31% | 58% | 6% |
| Rhandir | 15% | 29% | 15% | 7% | 30% | 5% |
| CSA | (2) | (4) | (0) | (0) | (3) | (0) |
| **Cyfanswm** | **27%** | **40%** | **17%** | **13%** | **38%** | **5%** |

**Tabl 3.18 Gweithgareddau cymunedol a rhwydweithio**

| | Ymweliadau addysgol | Digwyddiadau Hyfforddi | Diwrnodau agored | Digwyddiadau cymunedol | Eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| Gardd Gymunedol | 56% | 52% | 52% | 48% | 13% |
| Rhandir | 18% | 8% | 14% | 13% | 6% |
| CSA | (4) | (4) | (3) | (5) | (0) |
| **Cyfanswm** | **29%** | **20%** | **24%** | **23%** | **7%** |

Heblaw'r gyfran isel o randiroedd a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a rhwydweithio, sy'n gyson â'r data yn Nhabl 3.16 a Thabl 3.17, y pwynt perthnasol o Dabl 3.18 yw'r niferoedd uchel o gynlluniau CSA a oedd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Er hynny, o gofio bod 'Cymuned' wedi'i ymgorffori yn enw ac ethos gerddi cymunedol, mae'n ymddangos mai isel yw'r 48% i 56% o CGs a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

*Cyraeddiadau*

At ei gilydd, roedd 21% o'r prosiectau tyfu cymunedol yn yr arolwg wedi cael gwobrau neu ddyfarniadau: 35% o'r CGs, 15% o'r rhandiroedd, a dau o'r pum cynllun CSA. Gofynnwyd hefyd i gynrychiolwyr y safleoedd ddweud beth roedd eu prosiectau tyfu cymunedol wedi'i gyflawni mewn termau llai pendant. Gwelir y canlyniadau hyn yn Nhabl 3.19.

Roedd cyfran y rhandiroedd a oedd yn barnu eu bod wedi cyfrannu at fanteision iechyd yn debyg i'r gyfran o CGs a chynlluniau CSA, ac - yn 43% - roedd cyfran gymharol uchel o'r farn eu bod wedi cyfrannu at gynnydd mewn cynhyrchu a bwyta bwyd lleol. Ar bob categori arall cofnododd y rhandiroedd gyfran isel o'u cymharu â CGs a chynlluniau CSA. Er enghraifft, roedd y CGs yn gyson yn uchel ym mhob categori heblaw lles anifeiliaid.

*Cynlluniau Datblygu i'r Dyfodol*

Mae Tabl 3.20 yn dangos cynlluniau'r prosiectau tyfu cymunedol yn yr arolwg o ran ehangu ac arallgyfeirio.

**Tabl 3.19 Cyraeddiadau arwyddocaol**

| | Cynhwysiant cymdeithasol | Cyfranogi/ balchder dinesig | Partneriaethau cymunedol | Lles anifeiliaid | Gwella'r amgylchedd lleol | Addysg a hyfforddiant sgiliau | Garddio therapiwtig | Ymwybyddiaeth amgylcheddol | Ymwybyddiaeth gymdeithasol | Cynhyrchu/ defnyddio bwyd lleol | Iechy |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | 60% | 42% | 42% | 8% | 54% | 71% | 38% | 63% | 50% | 65% | 54% |
| handir | 30% | 16% | 19% | 7% | 27% | 15% | 20% | 24% | 13% | 43% | 52% |
| SA | (4) | (2) | (3) | (1) | (5) | (4) | (3) | (3) | (3) | (4) | (3) |
| **yfanswm** | **39%** | **23%** | **26%** | **8%** | **35%** | **31%** | **25%** | **35%** | **23%** | **49%** | **53%** |

**Tabl 3.20 Datblygiadau yn y dyfodol**

| | Ehangu | Crebachu | Arallgyfeirio | Aros yr un fath |
|---|---|---|---|---|
| Gardd Gymunedol | 42% | 2% | 19% | 10% |
| Rhandir | 21% | 0% | 8% | 55% |
| CSA | (3) | (0) | (0) | (2) |
| **Cyfanswm** | **27%** | **1%** | **10%** | **44%** |

Mae canlyniadau Tabl 3 yn datgelu bod y tri model tyfu cymunedol wedi ymateb yn bur wahanol o'u holi am eu cynlluniau at y dyfodol. Er enghraifft, roedd gerddi cymunedol yn llawer mwy cadarnhaol yn eu hymatebion, gyda 42% yn dweud eu bod yn debyg o ehangu eu gweithgareddau, a 19% arall yn dweud eu bod yn bwriadu arallgyfeirio mewn gweithgareddau newydd. Roedd y cynlluniau ehangu yn cynnwys defnyddio tir segur; datblygu gweithgareddau newydd yn gysylltiedig â'r ardd gymunedol, megis cynllun blychau llysiau, rhaglen hyfforddi neu gaffi; datblygu cysylltiadau â chynlluniau tyfu eraill, ysgolion lleol a denu mwy o wirfoddolwyr neu aelodau i'r prosiect; cyflwyno mathau newydd o ffrwythau a llysiau; ac ehangu i gymunedau neu ardaloedd cyfagos. O'r prosiectau hynny a nododd eu bod yn debyg o arallgyfeirio i weithgareddau newydd, y prif fwriad oedd creu incwm er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar grantiau a sicrhau cynaliadwyedd y prosiect yn yr hirdymor drwy addasu at newidiadau yn y blaenoriaethau a'r galwadau.

Ar y llaw arall, dywedodd ychydig dros hanner (55%) y safleoedd rhandiroedd a ymatebodd fod y gweithgareddau ar eu safleoedd yn debyg o aros yr un fath, a all fod yn gysylltiedig â'r broblem a amlygwyd yn yr adran flaenorol ynglyn â faint o dir sydd ar gael, a'r ffaith nad yw cynlluniau ar gyfer ehangu, crebachu a defnyddio'r safle, o ran arallgyfeirio, o dan reolaeth uniongyrchol safleoedd rhandiroedd yn aml. Serch hynny, roedd gan ychydig dros un rhan o bump (21%) o'r safleoedd gynlluniau ehangu a nododd 8% arall y bydden nhw'n arallgyfeirio'u gweithgareddau. Roedd y mathau o weithgareddau a oedd dan sylw yn debyg iawn i'r rhai a grybwyllwyd gan erddi cymunedol, gan gynnwys defnyddio tir segur neu wag; meithrin cysylltiadau â safleoedd rhandiroedd, prosiectau tyfu eraill a'r gymuned ehangach; gwella neu ehangu gwasanaethau a chyfleusterau ar y safle; cyflwyno mathau newydd o ffrwythau a llysiau; a chyfrannu at amcanion ehangach cynaliadwyedd, er enghraifft drwy gadw a gwella rhywogaethau a chynefinoedd bywyd gwyllt.

## Ymatebion i'r Cwestiynau i'r Gerddi Cymunedol

### Gwreiddiau, Cyllid a Threfniadaeth

*Gwreiddiau*

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran, ymatebodd 48 CG i'r arolwg. Dechreuodd cyfran fach (9%) o'r CGs hyn cyn 2000 ond roedd y mwyafrif mawr, sef 79%, wedi dechrau ers 2005. Mae Tabl 3.21 yn dangos dyddiadau dechrau'r CGs yn yr arolwg.

**Tabl 3.21 Dyddiadau dechrau CGs**

| Dyddiad dechrau'r prosiect | Cyfran y prosiectau a oedd wedi'u sefydlu |
|---|---|
| Cyn 2000 | 9% |
| 2000 - 2004 | 13% |
| 2005 - 2010 | 72% |
| 2011 ymlaen | 7% |

Gellir dadlau bod cyfran uchel y CGs a oedd wedi dechrau ers 2005 yn dangos diddordeb cyhoeddus cynyddol mewn tyfu cymunedol ac mewn garddio yn gyffredinol.

*Cyllid*

Mae Tabl 3.22 yn dangos sut roedd y prosiectau CG yn cael eu hariannu. Ar sail y Tabl mae'n ymddangos bod prosiectau TG yn tueddu i fod â mwy nag un ffynhonnell arian.

**Tabl 3.22 Ffynonellau arian y CGs**

| | N=48 | |
|---|---|---|
| Sector cyhoeddus | 14 | 29% |
| Sector preifat | 6 | 13% |
| Elusen | 13 | 27% |
| Hunan-ariannu | 16 | 33% |
| Rhoddion | 16 | 33% |
| Ffioedd aelodaeth | 15 | 31% |
| Gweithgareddau codi arian | 21 | 44% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfuniad o ffynonellau | 13 | 27% |
| Eraill | 3 | 6% |

Mae'n ymddangos bod y prif ffynonellau incwm yn gymharol sefydlog; dros y pum mlynedd diwethaf 26% oedd wedi gweld eu prif ffynhonnell arian yn newid.

Er hynny, dywedodd 42% o'r CGs fod y dirwasgiad economaidd diweddar wedi cael effaith ar eu gweithgareddau. Soniodd llawer o'u sylwadau am anawsterau sicrhau cyllid. Roedd eraill wedi gweld cynnydd o ran y gwaith gwirfoddol ar eu prosiectau.

*Trefniadaeth*

Roedd gan y mwyafrif llethol, sef 91%, o'r CGs yn yr arolwg bwyllgor rheoli o bobl leol. Roedd y trefniadaethau eraill yn cynnwys goruchwyliaeth gan elusen leol a swyddfa wirfoddoli, panel rheoli a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr busnes cenedlaethol, Gyrfa Cymru, pennaeth ysgol ac ystod o bobl leol, ac roedd 3% o'r CGs mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

Roedd hysbysebu a marchnata yn cael eu defnyddio gan 77% o'r CGs i hybu eu prosiect; doedd 10% ddim yn gwneud gwaith hybu; a doedd 13% ddim yn gwybod a oedd unrhyw hysbysebu neu farchnata i'w hybu. Mae Tabl 3.23 yn nodi'r dulliau a ddefnyddid gan y CGs.

Er bod cyfan fawr o'r CGs yn defnyddio amrywiaeth mawr o ddulliau, y pwysicaf i'w nodi o bosibl oedd bod bron hanner yn ystyried potensial gwefannau rhwydweithio cymdeithasol fel dulliau hysbysebu a marchnata.

**Tabl 3.23 Dulliau hysbysebu a marchnata**

| CGs a oedd yn hybu eu prosiect | |
|---|---|
| Gwefan y prosiect | 76% |
| Cyfryngau lleol | 81% |
| Wyneb yn wyneb | 100% |
| Digwyddiadau cymunedol | 100% |
| Taflenni | 81% |
| Gwefannau rhwydweithio cymdeithasol | 46% |
| Eraill | 10% |

*Gweithwyr, Gwirfoddolwyr a Grwpiau Defnyddwyr*

Roedd cyfanswm o 2,637 o bobl yn gweithio ar y 48 o CGs yn yr arolwg. Mae rhagor o fanylion yn Nhabl 3.24.

Roedd gan 80% o'r bobl a oedd yn gweithio ar y CGs gyfrifoldebau neu feysydd arbenigedd penodol.

Ar 67% o'r CGs, gwirfoddolwyr oedd yn gwneud gwaith bioamrywiaeth a'r gwaith ehangach i greu cynefinoedd bywyd gwyllt. Roedd y mwyafrif o'r CGs (86%) yn defnyddio'u haelodau eu hunain at y gwaith hwn, ac roedd 14% yn dod â gwirfoddolwyr i mewn o sefydliadau eraill.

**Tabl 3.24 Manylion Gweithwyr a Gwirfoddolwyr**

| **N = 2,637** | Niferoedd | Cyfran |
|---|---|---|
| Gweithwyr amser-llawn (mwy na 30 awr yr wythnos) | 53 | 2% |
| Gweithwyr rhan-amser (o dan 30 awr yr wythnos) | 106 | 4% |
| Gwirfoddolwyr cyson (sy'n cynnig cyfraniad yn rheolaidd) | 712 | 27% |
| Gwirfoddolwyr achlysurol (sy'n helpu o droi i dro) | 1476 | 56% |
| Eraill | 290 | 11% |
| **Cyfanswm y gweithwyr a'r gwirfoddolwyr** | **2,637** | **100%** |

Mae Tabl 3.25 yn dangos pa gyfran o'r CGs a fu'n ymwneud â gwahanol fathau o bobl. Mae'r tabl yn dangos bod 65% o'r CGs yn yr arolwg yn ymwneud â phobl ddi-waith a bod 52% a 46% yn ymwneud â phobl â phroblemau iechyd meddwl ac anableddau corfforol.

Cyfran gymharol fach o'r CGs, sef 19%, a oedd yn ymwneud â 'grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig', o'i gymharu â 69% a oedd o'r farn bod eu CG yn adlewyrchu cyfansoddiad ethnig yr ardal - doedd 23% ddim yn gwybod.

**Tabl 3.25 Grwpiau a oedd yn cael eu targedu gan y Gerddi cymunedol**

| Grwpiau | Cyfran o CGs |
|---|---|
| Plant (o dan 16) | 58% |
| Pobl ifanc (dros 16) | 54% |
| Pobl hyn | 60% |
| Teuluoedd â phlant ifanc | 44% |
| Pobl ddi-waith | 65% |
| Pobl ag anableddau corfforol | 46% |
| Pobl â phroblemau iechyd meddwl | 52% |
| Menywod | 54% |
| Grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig | 19% |
| Pobl o deuluoedd incwm isel | 44% |
| Cyn-droseddwyr | 33% |
| Dim un grwp yn benodol | 33% |
| Eraill | 6% |

*Defnyddio Safleoedd*

Roedd gan y CGs yn yr arolwg ystod o wahanol fathau o dir ac roedden nhw'n defnyddio amryw o ddulliau tyfu, fel y gwelir yn Nhabl 3.26.

Roedd gan rai CGs fwy nag un categori o dir. Roedd y mathau eraill o dir a oedd yn cael eu defnyddio gan CGs yn cynnwys mynwent a safle bywyd gwyllt. Dulliau tyfu organig oedd yn cael eu defnyddio gan y mwyafrif, sef 67%; roedd 27% yn defnyddio permaddiwylliant; roedd 29% yn defnyddio dulliau tyfu confensiynol; ac roedd 8% yn defnyddio dulliau eraill. Roedd y dulliau eraill yn cynnwys tyfu bioddeinamig, sy'n ddull mwyfwy poblogaidd. Dulliau organig yw permaddiwylliant a thyfu bioddeinamig.

**Tabl 3.26 Y math o dir sydd gan y CGs**

| Math o dir | Cyfran o CGs |
|---|---|
| Parc / gardd gyhoeddus | 8% |
| Gerddi preifat | 10% |
| Ysgol neu safle addysgol arall | 10% |
| Mannau chwaraeon (hynny yw caeau chwarae) | 2% |
| Tir gwag neu segur | 21% |
| Tir amaethyddol | 27% |
| Mannau gwyrdd at amwynder | 15% |
| Coetir | 15% |
| Eraill | 33% |

*Y Cyfyngiadau a'r Cymorth i Erddi Cymunedol*

Gofynnwyd i gynrychiolwyr y safleoedd nodi beth yn eu barn nhw oedd y cyfyngiadau ar dwf gerddi cymunedol yn gyffredinol, a'r hyn a ddylai gael ei wneud i'w hybu.

Yn fras, roedd eu sylwadau'n canolbwyntio ar dri phwnc. Yn gyntaf, bernid bod angen gwell mynediad i gyllid a grantiau. Yn ail, bernid bod angen dod o hyd i dir a threfnu bod hwnnw ar gael at erddi cymunedol. Yn drydydd, anogid Llywodraeth Cymru i ymrwymo i hybu a helpu gerddi cymunedol gan alluogi rhwydweithiau cymorth da.

## Ymatebion i'r Cwestiynau i'r Rhandiroedd

### Manylion y Safleoedd a'u Rheolaeth

*Manylion y Safleoedd*

Ymatebodd cyfanswm o 143 o safleoedd rhandiroedd i'r arolwg. Ar y safleoedd hyn, roedd 4,281 o leiniau ar gael i'w rhentu. Roedd nifer y lleiniau ar safle yn amrywio rhwng tair ar safle yn Sir Benfro a 300 ar safle yng Nghaerdydd.

Roedd y lleiniau'n cael eu gosod fel lleiniau maint llawn ac fel hanner lleiniau. 250 $m^2$ neu ddeg rhoden oedd maint llain lawn safonol; 125 $m^2$ neu bum rhoden oedd hanner llain. Roedd cyfanswm o 2,997 (70%) o leiniau llawn; 1,113 (26%) o hanner lleiniau; ac roedd 171 (4%) o leiniau o feintiau eraill. Yn achos llain o faint llawn, £18.72 y flwyddyn oedd y rhent cymedrig. Ar lain hanner maint, £13.16 oedd y rhent blynyddol cymedrig.

Roedd lleoliadau safleoedd rhandiroedd yn amrywio. Mae Tabl 3.27 yn dangos y mathau o dir gerllaw'r safleoedd.

**Tabl 3.27 Y Tir Cyfagos**

| Y math o dir | Cyfran y safleoedd |
|---|---|
| Parc / gardd gyhoeddus | 23% |
| Gerddi preifat | 51% |
| Ysgol neu safle addysgol arall | 8% |
| Mannau chwaraeon | 8% |
| Mynwent | 7% |
| Tir gwag neu segur | 17% |
| Tir amaethyddol | 15% |
| Man gwyrdd at amwynder | 10% |
| Coetir | 14% |
| Afon | 12% |
| Camlas | 1% |
| Ffordd | 41% |
| Rheilffordd | 7% |

Ar 7% o'r safleoedd, roedd lleiniau wedi'u gwaredu yn y pum mlynedd diwethaf. Roedd y rhesymau dros waredu lleiniau yn cynnwys parcio ceir; creu mannau i fwyd gwyllt; a cholli lleiniau i ddatblygiadau.

*Rheoli a Defnyddio Safleoedd*

Roedd y rhan fwyaf o'r safleoedd rhandiroedd, sef 69%, yn perthyn i'r awdurdodau lleol; roedd 20% yn perthyn i gynghorau tref neu gymuned; a wnaeth 11% o gynrychiolwyr y safleoedd ddim rhoi manylion perchnogaeth.

Roedd y cynnydd tybiedig ym mhoblogrwydd tyfu cymunedol i'w weld yn y 78% o safleoedd oedd â rhestr aros. Mae Tablau 3.28, 3.29 a 3.30 yn rhoi awgrym o raddfa problem y rhestrau aros o ran nifer y bobl sy'n aros; yr amser y bydd pobl yn aros am lain; a sut mae'r cyfnod aros wedi newid.

**Tabl 3.28 Niferoedd ar Restrau Aros**

| Nifer y bobl ar y rhestr aros | Cyfran y safleoedd â rhestr aros |
|---|---|
| Llai na 10 | 44% |
| 10 – 19 | 18% |
| 20 – 29 | 5% |
| 30 – 49 | 11% |
| 50 a rhagor | 23% |

Roedd nifer y bobl ar y rhestr aros yn amrywio rhwng un a 200.

Câi'r rhan fwyaf o'r rhestrau aros, sef 93%, eu rheoli ar lefel y safle, a 3% drwy gyfuno'r rhestrau ar lefel yr awdurdodau lleol ac roedd 3% yn cael eu rheoli drwy gyfuniad o'r ddau. Dim ond 1% o gynrychiolwyr y safleoedd oedd ddim yn gwybod sut roedd eu rhestr aros yn cael ei rheoli, sy'n awgrymu mai ar lefel yr awdurdodau lleol yr oedd yn cael ei rheoli.

Rhoddai cyfran fach o 15% o safleoedd flaenoriaeth i rai mathau o grwp cymdeithasol wrth rannu lleiniau. Roedd y rhain yn cynnwys pobl ar gynlluniau hyfforddi cymunedol, a phobl ag anableddau a phroblemau iechyd meddwl.

Mae Tabl 3.29 yn dangos bod gan gyfran sylweddol, sef 47%, restr aros o fwy na dwy flynedd, a bod gan 10% restr aros o fwy na phum mlynedd. Ceid arwyddion hefyd fod cyfnodau rhestrau aros yn cynyddu, fel y dengys Tabl 3.30 (drosodd).

**Tabl 3.29 Y Rhestrau Aros Cyfredol**

| | Cyfran y safleoedd â rhestr aros |
|---|---|
| Llai na blwyddyn | 17% |
| 1 i 2 flynedd | 34% |
| 2 i 5 mlynedd | 37% |
| Mwy na 5 mlynedd | 10% |
| Ddim yn gwybod | 3% |

**Tabl 3.30** **Newid yn y rhestrau aros dros y pum mlynedd diwethaf**

| | Cyfran y safleoedd â rhestr aros |
|---|---|
| Cynnydd | 51% |
| Gostyngiad | 4% |
| Aros yr un fath | 42% |
| Ddim yn gwybod | 3% |

Roedd gan gyfran fach o 13% o'r safleoedd yn yr arolwg leiniau gwag. O'r safleoedd hynny oedd â lleiniau gwag, soniodd dau safle am 'ddiffyg diddordeb'.

Roedd mwy nag un ym mhob pump (22%) o' safleoedd o'r farn eu bod wedi gweld newid oherwydd y dirwasgiad economaidd. Cyfeiriodd rhai at anawsterau wrth sicrhau cyllid; at dynnu gwasanaethau awdurdodau lleol yn ôl; at godiadau rhent; a soniodd 44% am gynnydd yn y galw am leiniau.

Mae'n glir bod rhestrau aros yn broblem ond roedd cyfran fach o 13% o'r safleoedd rhandiroedd yn ymwneud â gweithgareddau i ddenu deiliaid newydd i leiniau. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys stondinau mewn digwyddiadau cymunedol lleol; ymgyrchoedd taflenni; posteri; a diwrnodau agored. Hefyd, roedd 16% o'r safleoedd yn cynnig cymhellion i ddenu deiliaid newydd. Gwelir y mathau o gymhellion yn Nhabl 3.31.

Roedd y cymhellion eraill yn cynnwys cynnig hyfforddiant a chyngor ar dyfu; defnyddio offer rhandir; gostyngiadau rhent i rai grwpiau megis pobl hyn; a gostyngiadau ar bris hadau ac offer drwy brynu drwy gymdeithas y rhandir.

**Tabl 3.31** **Cymhellion i ddeiliaid lleiniau newydd**

| Rhandiroedd a oedd yn cynnig cymhellion | |
|---|---|
| Gostyngiadau rhent i grwpiau penodol | 22% |
| Cyngor ar baratoi llain / cylchdroi cnydau | 43% |
| Lleiniau llai i ddechreuwyr newydd | 87% |
| Cynllun 'rhannu bwyd' dechreuol | 0% |
| Eraill | 35% |

Ar sail Tabl 3.31, roedd y rhan fwyaf, sef 87%, o'r safleoedd yn cynnig lleiniau bach i ddechreuwyr newydd, gan gydnabod bod pobl weithiau yn bychanu faint o ymroddiad yw gofalu am randir, yn enwedig llain maint llawn, neu hyd yn oed llain hanner maint. Mae'n ymddangos bod y cymhelliant yn anelu at y senario a drafodir yn yr adran o'r adroddiad sy'n ymwneud ag 'Astudiaethau achos', lle mae lleiniau sy'n cael eu rhentu ond nid eu diwyllio yn gwaethygu'r rhestr aros.

Roedd cyfanswm o 29% o'r rhandiroedd yn hybu eu safleoedd mewn rhyw ffordd. Mae Tabl 3.32 yn dangos y dulliau.

**Tabl 3.32** **Dulliau Hysbysebu a Marchnata**

| Rhandiroedd a oedd yn hybu eu safle | |
|---|---|
| Gwefan yr awdurdod lleol | 55% |
| Gwefan y safle | 19% |
| Cyfryngau lleol | 17% |
| Wyneb yn wyneb | 52% |
| Digwyddiadau cymunedol | 26% |
| Taflenni | 17% |
| Gwefannau rhwydweithio cymdeithasol | 0% |
| Eraill | 21% |

Mae dau bwynt amlwg yn Nhabl 3.32. Y cyntaf oedd y gyfran gymharol fach (19%) o safleoedd rhandiroedd a oedd â'u gwefan eu hunain. Mae'n ymddangos ei bod yn well ganddyn nhw ddibynnu ar wefannau'r awdurdodau lleol. Yr ail bwynt i'w nodi oedd diffyg llwyr rhwydweithio cymdeithasol fel dull marchnata.

## Ymatebion i'r Cwestiynau i'r CSAs

Ymatebodd cyfanswm o bum cynllun Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned [CSA] i'r arolwg. Nid yw nifer mor fach yn arwyddocaol yn ystadegol. Gan hynny, mae'r dadansoddiad a ganlyn yn cynnwys llai o dablau na'r dadansoddiadau eraill yn yr adran hon.

**Gwreiddiau, Cyllid a Threfniadaeth**

*Gwreiddiau*

Roedd pob un o'r pum cynllun CSA wedi dechrau ers 2008. Roedd llawer o gymhellion gwreiddiol cynlluniau CSA yn ymwneud ag addysg, o ran iechyd bwyd; addysgu sgiliau tyfu; a gwybodaeth amgylcheddol. Cymhellion eraill a grybwyllwyd oedd cynhyrchu cynnyrch lleol ffres i bobl leol; sefydlu cynlluniau blychau; ac ailgysylltu'r gymuned leol â ffermwyr. Yn gyffredinol, roedd y cymhellion cychwynnol hyn yn dal yn ddilys - weithiau roedden nhw wedi symud tuag at fodelau gweithio cydweithredol neu roedd y cynllun CSA wedi arallgyfeirio i weithgareddau newydd.

*Cyllid*

Mae Tabl 3.33 yn dangos sut roedd y cynlluniau CSA yn cael eu hariannu. Nodir hefyd unrhyw newidiadau yn y ffynonellau arian dros y pum mlynedd diwethaf.

Roedd y cyllid yn dod o amryw o ffynonellau. Roedd yn ymddangos bod unrhyw newid yn y cyllid yn gysylltiedig â'r sefyllfa economaidd. O ran y dirwasgiad, roedd yr effeithiau a nododd y cynlluniau CSA yn cynnwys costau uwch, llai o adnoddau a chynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr wrth i ddiweithdra gynyddu.

**Trefniadaeth**

Roedd gan y pum cynllun CSA fodelau trefniadaeth gwahanol. Roedd tri wedi'u corffori fel cwmni cyfyngedig; roedd un yn gwmni buddiant cyhoeddus; ac roedd un yn adran o barc gwledig cyhoeddus. O ran rheoli, roedd dau o'r cynlluniau CSA yn cael eu rheoli gan bwyllgor o bobl leol; un gan dîm rheoli cyflogedig; un gan Groundwork; ac un drwy drafod anffurfiol.

**Tabl 3.33 Ffynonellau arian y CSAs a newidiadau dros y pum mlynedd diwethaf**

| CSA | Sector cyhoeddus | Elusen | Hunan-ariannu | Rhoddion | Ffioedd aelodaeth | Gweithgareddau codi arian | Nodiadau | Newid dros y pum mlynedd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | | | ✓ | | | | | |
| B | ✓ | | | | | | 80% Cronfa Datblygu Gwledig EARDF, 20% Cyngor Cefn Gwlad Cymru | |
| C | | | ✓ | | ✓ | ✓ | | Ariannu'n rhannol â grant i ddechrau – bellach â gwerthiant |
| D | | | ✓ | | | | Cyfrannau mewn llysiau organig yn ôl £30 y rhannwr | Mwy o aelodau = mwy o incwm |
| E | | | | ✓ | | | Grant Cymru Daclus, rhoddion hadau a phlanhigion | |

Mae Tabl 3.34 yn dangos dulliau hysbysebu a marchnata'r cynlluniau CSA. Roedd yn ymddangos bod pob un o'r cynlluniau CSA yn defnyddio ystod eang o ddulliau hysbysebu. Er hynny, un yn unig oedd yn archwilio potensial gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.

**Gweithwyr, Gwirfoddolwyr a Grwpiau Defnyddwyr**

Mae Tabl 3.35 yn dangos mathau a niferoedd y bobl a oedd yn ymwneud â'r cynlluniau CSA.

Ar ddau o'r cynlluniau CSA roedd yr aelodau a oedd yn tanysgrifio yn gweithio ar y prosiectau. Roedd gan bedwar o'r cynlluniau CSA aelodau neu wirfoddolwyr â meysydd arbenigedd penodol. Roedd y meysydd arbenigol hyn yn cynnwys datblygu busnes, gweinyddu, plygu gwrychoedd, gosod waliau sych a gwaith saer coed, ac, wrth gwrs, garddwriaeth.

**Tabl 3.34 Dulliau Hysbysebu a Marchnata**

| Dull | Nifer y cynlluniau CSA |
|---|---|
| Gwefan prosiect | 4 |
| Cyfryngau lleol | 3 |
| Wyneb yn wyneb | 3 |
| Digwyddiadau cymunedol | 5 |
| Taflenni | 4 |
| Gwefannau rhwydweithio cymdeithasol | 1 |

**Tabl 3.35 Pobl yn gweithio gyda Chynlluniau CSA**

| CSA | Gweithwyr amser llawn | Gweithwyr rhan-amser | Aelodau sy'n talu tanysgrifiad | Eraill | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| A | | 2 | | | |
| B | 4 | | | 58 | 58 o wirfoddolwyr / cleientau wedi ymuno |
| C | 1 | | 17 | 2 | Aelodau eraill (pwyllgor) |
| D | | 1 | 23 | 5 | Ffermwr yn gweithio'n wirfoddol am y flwyddyn gyntaf. Pob gwirfoddolwr yn aelod |
| E | 2 | 2 | | 68 | 20 o wirfoddolwyr, 48 o wardeniaid iau. Rhan fach yn unig o'u rôl yw'r prosiect. |

Amrywiol oedd y mathau o bobl a oedd yn gweithio ar gynlluniau CSA. Mae Tabl 3.36 yn dangos niferoedd y cynlluniau CSA a oedd yn ymwneud â gwahanol fathau o bobl. Roedd pob un o'r cynlluniau CSA o'r farn bod y mathau o bobl yr oedd y prosiect yn ymwneud â nhw yn adlewyrchu cyfansoddiad ethnig y gymuned leol. O ran pellterau teithio'r aelodau a'r gwirfoddolwyr i'r prosiectau, mewn pedwar o'r cynlluniau CSA roedd y rhan fwyaf yn teithio fwy na milltir.

Roedd gan dri o'r cynlluniau CSA ddarpariaethau i aelodau incwm-isel gyfrannu at y CSA a manteisio arno. Roedd y darpariaethau hyn yn cynnwys gweithio mewn undeb credyd lleol, cyfnodau talu estynedig a threfniadau cyfnewid gwaith am gynnyrch.

**Tabl 3.36 Y mathau o bobl yr oedd y cynlluniau CSA yn ymwneud â nhw**

| Grwpiau | Nifer y cynlluniau CSA |
|---|---|
| Plant (o dan 16) | 3 |
| Pobl ifanc (dros 16) | 2 |
| Pobl hyn | 2 |
| Teuluoedd â phlant ifanc | 1 |
| Pobl ddi-waith | 3 |
| Pobl ag anableddau corfforol | 3 |
| Pobl â phroblemau iechyd meddwl | 2 |
| Menywod | 3 |
| Grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig | 1 |
| Pobl o deuluoedd incwm isel | 3 |
| Cyn droseddwyr | 1 |
| Dim un grwp yn benodol | 1 |

Gofynnwyd i gynrychiolwyr y cynlluniau CSA ddweud faint o aelodau yr oedd y prosiect yn darparu cyfran o fwyd iddyn nhw, a'r uchafswm y gellid darparu ar ei gyfer. Gwelir y data yn Nhabl 3.37.

Mae'r data'n awgrymu bod dau o'r cynlluniau CSA o'r farn bod ganddyn nhw gryn botensial i ehangu.

**Tabl 3.37 Cyfrannau bwyd**

| CSA | Cyfrannau bwyd cyfredol | Uchafswm cyfrannau bwyd |
|---|---|---|
| A | 30 | 100 |
| B | Dim ateb | Dim ateb |
| C | 18 | 18 |
| D | 26 | 150 |
| E | Dim ateb | Dim ateb |

## Defnyddio Safleoedd

O ran tyfu, dulliau tyfu organig oedd gan bob un o'r pum cynllun CSA. Hefyd, roedd dau yn defnyddio permaddiwylliant. Mewn tri o'r cynlluniau CSA, roedd yr aelodau'n cyfrannu at y penderfyniadau ar yr hyn a oedd yn cael ei dyfu. Roedd hyn yn cael ei wneud drwy gonsensws mewn cyfarfodydd. Roedd pob un o'r cynlluniau CSA yn gwneud gwaith bioamrywiaeth a gweithgareddau bywyd gwyllt.

## Problemau, Heriau a Chymorth

O ran cyfyngiadau ar weithgareddau'r cynlluniau CSA a'u potensial ar gyfer ehangu, roedd y ffactorau a grybwyllwyd yn tueddu i ganolbwyntio ar gyllid a'r tir a oedd ar gael. Cafwyd pryderon hefyd am y dirwasgiad.

Roedd ffactorau a chamau y bernid y gallen nhw hybu cynlluniau CSA a thyfu bwyd yn gymunedol yn gyffredinol yn cynnwys mynediad hawdd i gyllid; sefydlu rhwydweithiau cymorth effeithiol; hybu cynlluniau CSA a thyfu cymunedol yn genedlaethol; mentrau gan Lywodraeth Cymru o blaid tyfu cymunedol; cymorthdaliadau i ffermwyr am gymryd rhan mewn cynlluniau CSA; tystysgrifau organig i brosiectau bach; a nodi a rhyddhau tir at dyfu cymunedol.

# ADRAN 4: YR ASTUDIAETHAU ACHOS

**Rhagymadrodd**

Yn sgil yr arolwg o dyfu cymunedol, cynhaliodd y tîm ymchwil gyfres o 20 o gyfweliadau manwl. Diben y cyfweliadau oedd casglu gwybodaeth fanwl am dyfu cymunedol yng Nghymru. Fel rhan o'r ymchwil, cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau hefyd â chynrychiolwyr amrywiol sefydliadau a chyrff sy'n gweithio ym maes tyfu cymunedol yn Lloegr a'r Alban, gan anelu at nodi'r tueddiadau presennol ac enghreifftiau o'r arferion gorau mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

## Yr astudiaethau achos

I sicrhau bod y mathau o brosiect a niferoedd y cyfweliadau yn adlewyrchu cyfansoddiad cyffredinol sampl yr arolwg, nodwyd yr atebwyr posibl drwy ddefnyddio'r meini prawf a ganlyn: maint y prosiect o ran tir a phobl; mathau o strwythur rheoli; mathu o gyllid; lleoliad daearyddol; cymarebau'r ymatebion i'r arolwg o ran y mathau o brosiect tyfu cymunedol; a pharodrwydd i roi cyfweliad.

O'r broses ddethol hon cafwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr o'r mathau o brosiect a welir yn Nhabl 4.1.

**Tabl 4.1**

| Rhandir | Gardd Gymunedol | CSA | Awdurdod lleol |
|---|---|---|---|
| 1 | | | Powys |
| 2 | | | Bro Morgannwg |
| 3 | | | Sir y Fflint |
| 4 | | | Caerffili |
| 5 | | | Rhondda Cynon Taf |
| 6 | | | Caerffili |
| 7 | | | Rhondda Cynon Taf |
| 8 | | | Blaenau Gwent |
| 9 | | | Abertawe |
| 10 | | | Caerdydd |
| 11 | | | Casnewydd |
| | Glyn-nedd/Rheola | | Castell-nedd Port Talbot |
| | Ffynnon Taf a Nantgarw | | Rhondda Cynon Taf |
| | Coeden Fach | | Abertawe |
| | Glanyrafon | | Caerdydd |
| | RENEW | | Powys |
| | Moelyci | | Gwynedd |
| | | Gerddi Ynys-las | Ceredigion |
| | | Ty Mawr | Wrecsam |
| | | Caerhys | Sir Benfro |

Roedd y cyfweliadau'n lled-strwythuredig, ar sail yr ymatebion i holiadur yr arolwg, gan ymdrin ag ystod o themâu allweddol. Nodwyd y themâu hyn gan dîm ymchwil yr Arsyllfa, gan ddefnyddio cyfraniadau'r Grwp Gorchwyl a Gorffen; manyleb yr ymchwil; a nodau ac amcanion y prosiect ymchwil. Er mwyn hwyluso cymariaethau ar draws y cyfweliadau, sicrhaodd yr ymchwilwyr fod y themâu hyn yn cael sylw yn ystod y cyfweliadau. Er bod y themâu yn drawsbynciol yn fras, cafodd y

cyfweliadau eu teilwra at y gwahanol fathau o brosiect tyfu cymunedol.

Cafodd yr atebwyr sicrwydd y bydden nhw'n parhau'n ddienw a gofynnwyd am eu caniatâd i recordio'r cyfweliad. Ran amlaf, fe roddodd yr atebwyr eu caniatâd i enwi eu prosiectau tyfu cymunedol. Cafodd yr holl gyfweliadau eu recordio a'u trawsgrifio. Drwy ddadansoddi'r trawsgrifiadau llwyddwyd i greu naratif ymchwil sy'n mynd y tu hwnt i'r dadansoddiad ystadegol i roi data cyfoethocach ar nifer dethol o brosiectau tyfu cymunedol yng Nghymru.

Mae'r adran hon o'r adroddiad, Astudiaethau Achos, wedi'i strwythuro gan ddefnyddio'r is-adrannau a ganlyn:

- Rhandiroedd, Gerddi Cymunedol ac Amaethyddiaeth a Gefnogir yn y Gymuned: Modelau, Deiliadaeth a Rheolaeth
- Pethau cyffredin yn yr Ethos
- Gwahaniaethau yn yr Ethos
- Hwyluso tyfu cymunedol a rhwystrau sy'n ei atal
    - Materion argaeledd tir
    - Materion cyllid
- Rhwydweithiau cymorth
- Arferion da, opsiynau polisi ac awgrymiadau ar gyfer strategaeth

## Rhandiroedd, Gerddi Cymunedol ac Amaethyddiaeth a Gefnogir yn y Gymuned: Modelau, Deiliadaeth a Rheolaeth

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, edrychodd yr ymchwil ar dri math o brosiect tyfu cymunedol: rhandiroedd, gerddi cymunedol [CGs] a chynlluniau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned [CSAs]. Cafwyd gwahanol fodelau deiliadaeth a rheolaeth yn y prosiectau tyfu cymunedol hyn.

### Rhandiroedd

Cyfwelwyd â chynrychiolwyr 11 o randiroedd ledled Cymru ar gyfer y prosiect ymchwil. Ceir ffotograffau o rai o'r rhandiroedd isod.

Yn fras, roedd tri model deiliadaeth ar gyfer rhandiroedd gyda pheth hyblygrwydd rhyngddyn nhw. Yn y cyntaf roedd y tir yn perthyn i'r awdurdodau lleol a oedd yn cael rhent am y rhandiroedd yn uniongyrchol gan ddeiliaid y lleiniau. Ar y model hwn, yr awdurdodau lleol oedd yn rheoli'r rhandiroedd yn uniongyrchol. Roedd yr agweddau rheoli yn cynnwys y rhestr aros a rhoi cynigion ar leiniau; cynnal y safle; a chynnal safonau ymhlith deiliaid unigol y lleiniau. Yn gyffredinol, byddai deiliaid y rhandiroedd yn ffurfio pwyllgor i gydgysylltu â'r awdurdod lleol. Yn yr ail fodel roedd y tir yn perthyn i'r awdurdodau lleol neu'r cyngor tref ac yn cael ei reoli gan gymdeithas o ddeiliaid lleiniau ar y safle a oedd yn casglu rhenti; yn cynnig lleiniau i bobl ar y rhestr aros; yn cydgysylltu â'r awdurdod lleol; ac yn cynnal safonau'r rhandir. Mewn rhai achosion roedd cyngor cymuned yn lefel ganolradd yn y model hwn. Rhandiroedd nad oedden nhw'n perthyn i'r awdurdodau lleol oedd y trydydd model. Er enghraifft, roedd rhai CGs yn gosod tir ar gyfer rhandiroedd.

Soniwyd uchod am gynnal safonau ar safleoedd rhandiroedd a chafodd diffyg cynnal rhandiroedd unigol ei enwi fel problem gan sawl atebwr, am dri rheswm. Roedd yn tueddu i wneud i'r safle cyfan edrych yn flêr; roedd yn bosibl y byddai chwyn yn lledu; ac roedd garddwr 'gwael' tybiedig neu arddwr esgeulus yn atal rhywun ar y rhestr aros rhag cymryd ymgymryd â'r rhandir. Roedd pwyllgorau rhai rhandiroedd o blaid rhoi gair bach o anogaeth i 'droseddwyr' ond roedd eraill yn mynd ati'n gryfach:

> *'O gofio'r pwysau ar y rhandiroedd, rydyn ni'n galed iawn ar y tenantiaid yma. Rhaid ichi ddefnyddio'r llain neu ei hildio hi. Pan fydda i'n cynnig llain, mae'r llythyr yn dweud bod ganddyn nhw 16 wythnos i'w rhoi mewn trefn weddol ac mae'n amlwg bod hynny'n dibynnu o ble maen nhw'n dechrau. Ond does dim croeso yma i bwdrod.* (Rhandir 6)









Safleoedd Rhandiroedd




Awgrymwyd dau reswm pam roedd rhandiroedd unigol yn wael eu cyflwr. Yn gyntaf, nodwyd bod rhai pobl yn bychanu'r amser a'r ymroddiad y mae eu hangen i ofalu am randir yn llwyddiannus:

> *'Rhan o'r broblem yw nad yw pobl yn sylweddoli mor galed yw hi. Mae'n waith caled iawn, iawn, ac mae'n cymryd llawer o amser ac mae pobl yn meddwl unwaith mae wedi'i wneud dyna fe. Ond nage. Dyw e byth ar ben, achos chi'n palu'r chwyn i gyd a phopeth a bythefnos wedyn chi'n dod nôl ac mae'r chwyn i gyd yn ôl eto. A dyw pobl ddim yn sylweddoli hynny.* (Rhandir 10)

Yn ail, credid bod rhenti rhandiroedd mor rhad nes y gallai pobl fforddio cadw eu rhandiroedd heb ofalu amdanyn nhw, *'gan fwriadu gwneud yn well yn y dyfodol o bosibl'*. (Rhandir 10)

Cafwyd un awgrym o raddfa'r broblem gan gynrychiolwyr Cyngor Sir y Fflint, a oedd wedi ailstrwythuro'i reolaeth rhandiroedd yn ddiweddar. Yn wyneb rhestr aros o 70 o bobl, roedden nhw'n amcangyfrif bod 10% o'u rhandiroedd yn cael eu rhentu heb eu diwyllio. Gan hynny, roedd costau cynnal y cyngor yn uwch na'r incwm.

**Gerddi cymunedol**

Cyfwelwyd â chynrychiolwyr chwe CG, a chytunodd pob un i'w prosiectau gael eu henwi yn yr adroddiad hwn. Roedd gan bob un o'r CGs hyn wefan. Mae'r gwahanol fodelau yr oedd y CGs hyn yn eu cynrychioli a'u prif weithgareddau wedi'u hamlinellu isod ynghyd â ffotograffau o'r safleoedd.

*Canolfan Amgylcheddol Moelyci*

Roedd y CG ym Moelyci yn rhan o brosiect amgylcheddol ehangach a oedd wedi'i sefydlu ers deng mlynedd bron ar 35 erw o dir ger Bangor yng Ngwynedd. Roedd Canolfan Amgylcheddol Moelyci, a oedd â morgais ar y tir, yn 'Gymdeithas Ddarbodus Ddiwydiannol' â statws elusennol, yn cael ei rhedeg fel menter gydweithredol. Roedd yn ofynnol i'r aelodau brynu isafswm o £25 o gyfranddaliad. Roedd Moelyci, a oedd yn dal wedi'i dynodi fel fferm:

> *'yn gyfleuster i'r gymuned i ddatblygu ymwybyddiaeth amgylcheddol, i roi cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant at swyddi, a gwirfoddoli. Cynhwysiant cymdeithasol ydy'r cysyniad allweddol.'*

Roedd yr holl weithgareddau ar y safle o dan ymbarél fferm Moelyci yn organig ac yn cynnwys uned gompostio werdd ar raddfa ddiwydiannol; gwaith coed gwyrdd; gardd farchnad; fferm ffrwythau; a 70 o randiroedd a oedd yn cael eu gosod i bobl leol. Roedd adeiladau allanol y safle hefyd yn cael eu defnyddio at ystod o weithgareddau megis addysg, cadwraeth, adeiladu traddodiadol, gwaith coed gwyrdd a chyrsiau coginio, ac at gynadleddau. Mae'n debyg bod cynllun busnes yn cael ei baratoi ar gyfer mynwent werdd.

Roedd nifer o swyddogion cyflogedig a chyfarwyddwyr. Roedd incwm yn deillio o grantiau a rhai o'r gweithgareddau, megis yr ardd farchnad; yr uned gompostio werdd; gosod rhandiroedd; a rhedeg cyrsiau. Roedden nhw hefyd yn rhedeg cwrs cadwraeth i Brifysgol Bangor, a oedd yn cynnwys myfyrwyr ym mhrosiectau Moelyci. I raddau helaeth, roedd llwyddiant Moelyci'n dibynnu ar ei ethos cydweithredol, ei wirfoddolwyr a chroes-gymorthdaliadau rhwng y gweithgareddau.

O ran lles a chynhwysiant cymdeithasol, roedd nifer o wahanol fathau o bobl yn cael eu cyfeirio at Foelyci i wneud gwaith garddio fel therapi, gan gynnwys pobl ag anawsterau dysgu, iselder, alcoholigion yn ymadfer, a throseddwyr ifanc.

Roedd Moelyci yn rheolaidd yn cynnal ystod o wahanol fathau o ddigwyddiadau cymdeithasol i'r gymuned megis ffeiriau a barbiciws cymunedol.



*Menter Natur, Addysg a Lles [RENEW] Sir Faesyfed*

Roedd RENEW wedi'i leoli mewn gardd furiog o gyfnod Victoria o ryw ddwy erw ar ystâd wledig rhwng Rhaeadr a Phontnewydd-ar-Wy ym Mhowys ers chwe blynedd. Roedd perchnogion yr ystâd wedi rhoi prydles o fwy na 30 mlynedd i RENEW, gyda'r opsiwn o ddefnyddio rhannau helaeth o'r ystâd at weithgareddau amgylcheddol a chadwraeth, a oedd wrthi'n cael eu dylunio.

Cafodd RENEW ei gyfansoddi fel cymdeithas ddielw. Roedd pwyllgor o bump o aelodau a 30 o aelodau eraill a oedd yn gwneud gwaith gwirfoddol ar y CG ac yn rhannu'r cynnyrch. Yn ychwanegol, roedd deg o leiniau rhandir ar y safle, yn cael eu gosod yn rhad ac am ddim yn gyfnewid am waith ar y CG.

Roedd gan RENEW dri nod. Y cyntaf oedd hybu garddwriaeth organig:

> *'Fel canolfan addysg, mynd ati i geisio hybu garddwriaeth organig i bobl ei dilyn. Un o fy syniadau i mewn ffordd yw y gallai pawb sy'n abl yn gorfforol roi cynnig ar dyfu peth o'i fwyd ei hunan. O gofio ein bod ni bellach yn dechrau ar y cyfnod yma o gynhesu byd-eang, wyddoch chi ceisio lleihau carbon, hwyrach diwedd olew hefyd. A diogelwch bwyd, dyna'r prif un a deud y gwir.'*

Yr ail oedd rhoi addysg mewn byw yn gynaliadwy, yr amgylchedd naturiol a chadwraeth natur drwy gyrsiau preswyl ar yr ystâd. Y trydydd nod oedd adfywio'r ardd furiog Fictoraidd, a oedd wedi'i hesgeuluso am gyfnod hir.

Grantiau oedd y prif ffrydiau arian. Hefyd, roedd y cynnyrch gormodol yn cael ei werthu i dy bwyta lleol. Roedd digwyddiadau codi arian yn cael eu cynnal hefyd.

O ran cynhwysiant cymdeithasol a lles, roedd RENEW yn cynnal digwyddiadau cymunedol yn rheolaidd ar y safle, gan ddefnyddio pabell fawr, ac yn cynnal digwyddiadau addysg a hamdden i blant lleol.



*Canolfan Hyfforddiant Glyn-nedd*

Mae Canolfan Hyfforddiant Glyn-nedd yn rhan uchaf Cwm Nedd mewn bodolaeth ers 25 mlynedd fel prosiect sy'n ailhyfforddi pobl leol gan anelu at eu galluogi i ailymuno â byd gwaith. Roedd yr elfen tyfu cymunedol yn y prosiect yn bur ddiweddar ac roedd yna ddwy ran iddi.

Yn gyntaf, roedden nhw wedi ymgymryd â phum llain randir yn agos i'r Ganolfan Hyfforddiant gan anelu at ddarparu cynnyrch organig i'w caffi seibr 'Java Bean' ar y safle. Llwyddodd y fenter ac felly aed ati i chwilio am ffyrdd i ehangu ar yr elfen tyfu cymunedol:

> *'…oedd i ni yn ffordd i ddarparu cynnyrch organig i'n caffi ni ac yn ffordd i helpu i wneud y caffi'n gynaliadwy.*
>
> *Yr unig broblem gyda'r rhandiroedd yw nad oedden ni'n cael gwerthu dim o'r gormodedd oedd yn cael ei dyfu*

*achos y rheolau sy gan gymdeithas y rhandir. Felly mae'n cael ei ddefnyddio yn y caffi ac wedyn roedden ni'n gallu gweld bod yna alw yn lleol am y math yma o gynnyrch, cynnyrch ffres felly edrychon ni o gwmpas, gwneud astudiaeth ddichonoldeb a chwilio'r ardal i gael llain o dir y gallen ni dyfu arno fe a gwerthu.'*

Ar yr adeg yma, o dan aden y cyngor lleol, Llywodraeth Cymru a pherchennog ystâd Rheola gerllaw, cafwyd cynnig prydles deng mlynedd, am ddim, ar ardd furiog ar yr ystâd, fel prosiect cadwraeth. Yn ychwanegol at adfer hen adeiladau ar y tir, a rhedeg cyrsiau ar adeiladu traddodiadol, roedden nhw'n tyfu ffrwythau a llysiau, ac yn gwerthu'r rheiny'n lleol. Roedd yna gynlluniau ar gyfer cynllun blychau llysiau. Gyda'i gilydd, roedd yr elfen tyfu cymunedol yn cyflogi dau o bobl. Roedd rheolaeth y prosiect tyfu cymunedol yn dod dan reolaeth gyffredinol y ganolfan hyfforddiant.

O ran lles a chynhwysiant cymdeithasol, roedd gan Ganolfan Hyfforddiant Glyn-nedd raglen barhaus i wirfoddolwyr, a oedd yn cynnwys gweithio ar dyfu cymunedol ac roedd yna drefniant gyda Chanolfan Byd Gwaith. Roedden nhw hefyd yn gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol lleol.




*Coeden Fach*

Roedd Coeden Fach yn brosiect lleol a oedd yn rhedeg bridfa goed yn Llandeilo Ferwallt ar Benrhyn Gwyr. Y prif weithgarwch oedd tyfu coed brodorol organig o hadau a gasglwyd yn lleol. Pan oedd y coed bach yn hyfyw, roedden nhw'n cael eu gwerthu i ystod o sefydliadau ac i'r cyhoedd. Hefyd, roedd Coeden Fach yn cynnig cyfleoedd gwirfoddol ac yn rhedeg cyrsiau hyfforddi mewn sgiliau bridio, permaddiwylliant a garddio coedwig. Roedd ganddyn nhw 'Gynllun Plannu Cymunedol' i roi coed i ysgolion lleol neu brosiectau cymunedol drwy werthu "Cerdyn Rhodd Coeden Gwyr".

Cafodd sylfaenydd Coeden Fach y syniad o redeg bridfa coed organig a chylchredeg y syniad o amgylch rhwydweithiau organig ac ecolegol. Enynnodd gryn ddiddordeb a dechreuodd y prosiect yn 2008 ar dir a oedd yn cael ei brydlesu oddi wrth fferm leol. Roedd y strwythur rheoli yn cynnwys pwyllgor craidd o bump; cydlynydd prosiect; gweithiwr cyswllt ysgolion; gweinyddydd; a thri arweinydd gwirfoddolwyr. Swyddi rhan-amser oedd y rhain i gyd. Gwirfoddolwyr oedd yn gwneud llawer o'r gwaith yn y fridfa goed.

Nodau Coeden Fach yn y bôn oedd hybu bioamrywiaeth, tyfu organig, a manteision garddio ar gyfer iechyd a lles, a chynnwys y gymuned leol a'r ysgolion lleol:

*'O'r dechrau yn deg y nod oedd ein bod ni i gyd yn teimlo ein bod ni am roi'r gair ar led yn fwy ac annog pobl. Mae'n od bod pobl heb, dych chi'n gwybod maen nhw'n deall ei bod yn dda bod yn yr awyr agored a bod natur yn beth da a bod garddio'n beth da ac ati ond dyw pobl ddim o reidrwydd yn ymwybodol o sut i reoli tir yn iawn, a pam na ddylech chi ddefnyddio mawn a pam mae tyfu'n organig yn dda a sut i wneud y pethau hyn i gyd. Felly roedd yn golygu, mynd allan i'r ysgolion a phethau, felly roedd yn golygu rhoi'r gair ar led. Roedden ni'n teimlo bod gyda ni sgiliau gwirioneddol dda mewn permaddiwylliant yma a dyn ni'n gwneud yr ardd fforest yma a does dim gardd fforest gan neb fforDD hyn, chi'n gwybod, dyna chi beth newydd sy'n dod mewn. Felly roedden ni'n teimlo ein bod ni am rannu'r sgiliau yna gyda phobl eraill.'*

Roedd ffrydiau incwm yn deillio o werthu coed, cyrsiau hyfforddi, ac ystod o grantiau. Roedd darparwyr y grantiau'n cynnwys Cronfa Datblygu Cynaliadwy Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Gwyr ac Amgylchedd Cymru. Roedd Coeden Fach yn amcangyfrif y bydden nhw'n dod yn hunangynhaliol maes o law.

O ran lles a chynhwysiant cymdeithasol, roedd gan Goeden Fach raglen gyda'r ysgolion lleol. Roedden nhw hefyd yn cynnal diwrnodau teuluol yn rheolaidd a digwyddiadau cymunedol eraill.



*Gardd Gymunedol Ffynnon Taf a Nantgarw*

Roedd CG Ffynnon Taf a Nantgarw wedi datblygu o'r rhandiroedd lleol. Bu rhai deiliaid rhandir, a oedd wedi ffurfio grwp 'tref drawsnewid', yn cydgysylltu â'r cyngor cymuned i ryddhau darn mawr o dir heb ei ddiwyllio ar gyfer rhagor o randiroedd ac i greu CG. Roedd y gwaith ar y safle wedi dechrau yn 2009. Cafwyd arian ar ffurf rhoddion gan y cyngor cymuned, grantiau gan sefydliadau megis Amgylchedd Cymru a Chadwch Gymru'n Daclus, a chyfres o ddigwyddiadau codi arian.

Nod y CG oedd creu lle mawr ar gyfer cynnyrch gardd a hwnnw, yn hytrach na chael ei weithio gan unigolion fel mewn rhandiroedd, yn cael ei weithio gan grwp o bobl leol o'u gwirfodd, na allen nhw o bosibl ymrwymo i randir. Roedd y cynnyrch yn cael ei rannu ymhlith y gwirfoddolwyr a oedd yn gweithio'r safle. Roedd ethos y CG yn cofleidio bioamrywiaeth, yr amgylchedd a chadwraeth. Roedd ganddyn nhw gynlluniau i gysylltu ag ysgolion lleol.



*Gardd Gymunedol Glanyrafon*

Roedd CG Glanyrafon yn rhan o Gymdeithas Marchnad Gymunedol Glanyrafon a oedd wedi hen ennill ei phlwyf ac yn rhedeg ers deng mlynedd ac roedd ganddi leoliad ar safle Rhandiroedd Parhaol Pontcanna yn ardal ddwys ei phoblogaeth Glanyrafon yng Nghaerdydd:

> *'Dechreuodd Cymdeithas Marchnad Gymunedol Glanyrafon ryw ddeng mlynedd yn ôl a ryw chwe blynedd yn ôl roedden nhw'n credu bod yna grwpiau penodol o bobl heb gyfle i gael cynnyrch ffres, felly daeth y syniad o greu gardd gymunedol. Y syniad oedd y gallai pobl ddod draw, heb fod angen gwybod dim byd am dyfu pethau, a chymryd cyfran o'r cynnyrch roedden nhw'n ei dyfu.'*

I ddechrau, cafwyd arian ar ffurf grant am chwe blynedd gan Amgylchedd Cymru.

Er bod y CG yn dod o dan aden Cymdeithas Marchnad Gymunedol Glanyrafon, un person oedd yn gyfrifol am redeg y CG ac yn cyfarwyddo'r amrywiol brosiectau tyfu yno, drwy gonsensws. Roedd y gwirfoddolwyr yn dod ac yn gweithio fel mynnen nhw. Roedd rhywfaint o gynnyrch yn cael ei werthu ym Menter Bwyd Gydweithredol Glanyrafon.

Roedd y CG yn organig ac yn ceisio hybu bioamrywiaeth, bywyd gwyllt a chynaliadwyedd. Yn ychwanegol at arddio cyffredin, roedd technegau 'creadigol' yn cael eu defnyddio i ddefnyddio lle, megis

sbiral perlysiau, gardd fforest, a chynaeafu chwyn bwytadwy. Cadw gwenyn oedd un o'r prosiectau

O ran lles a chynhwysiant cymdeithasol roedd y CG yn cynnwys ystod o wahanol fathau o bobl:

> *'Rydyn ni'n rhedeg prosiect agored y gall unrhyw un gyfeirio ato. Mae'r rhan fwya o bobl yn dod drwy'r sector gwirfoddol, mae rhai yn dod drwy Farchnad Glanyrafon, rhai yn dod drwy glywed ar lafar. Mae rhai yn dod am fod diddordeb gyda nhw mewn cynaliadwyedd a materion trawsnewid. Mae lot o bobl yn dod achos, dych chi'n gwybod, efallai bod ganddyn nhw anawsterau iechyd meddwl, wedi bod i ffwrdd o'r gwaith drwy straen, yn ddi-waith ers amser hir, neu eu bod nhw am gael dianc o'r ty.'*

Roedd CG Glanyrafon yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddarparu rhaglenni a hyfforddiant i'r gwahanol fathau hyn o bobl.

**Amaethyddiaeth a Gefnogir yn y Gymuned**

Cyfwelwyd â chynrychiolwyr tri chynllun CSA, a chytunodd pob un i'w prosiectau gael eu henwi yn yr adroddiad hwn. Roedd y tri chynllun CSA yn cynrychioli modelau a gweithgareddau gwahanol, a amlinellir isod, ynghyd â ffotograffau o'r safleoedd.

*Caerhys*

Roedd cynllun CSA Caerhys ar fferm organig mewn lle llonydd ar yr arfordir ym Meria, ychydig filltiroedd i'r gogledd o Dyddewi yn Sir Benfro. Roedd yn anarferol yn yr ystyr bod y cynllun CSA wedi'i ddechrau gan ffermwr, yn hytrach na chan y gymuned. Yn sgil cyflwyniad ar gynllun CSA Stroud yng Nghanolfan Organig Cymru, roedd y ffermwr hwn wedi ymweld â chynllun CSA Stroud ac wedi penderfynu dechrau cynllun CSA ar Gaerhys, ei fferm organig yntau. Cysylltodd â grwp cymunedol Eco Ddinas yn Nhyddewi a chynnig dwy erw a'i amser a'i arbenigedd am ddim, ar y ddealltwriaeth y byddai telerau newydd yn cael eu trafod ar ôl i'r cynllun CSA ddod yn hunangynhaliol.

Roedd cynllun CSA Caerhys yn ei flwyddyn gyntaf ac roedd ganddo 28 o aelodau, yn uwch felly na tharged y flwyddyn gyntaf o 20 o aelodau. Roedd rheolwr marchnata wedi'i gyflogi, gyda tharged newydd o 70 o aelodau erbyn diwedd 2011. Amcangyfrifwyd y byddai'r cynllun CSA yn hunangynhaliol pan geid tua 100 o aelodau. Roedd yr aelodau'n talu tanysgrifiad misol ac yn cael cynnyrch ffres yn gyfnewid amdano. Yn ôl eu gallu, roedd yr aelodau'n gweithio ar y cynllun CSA. Os na allai'r aelodau danysgrifio am ryw reswm, fe allen nhw wneud gwaith gwirfoddol ychwanegol ar y cynllun CSA. Roedd grwp craidd o wyth yn gwneud penderfyniadau ar wariant a rheolaeth. Roedd cyngor ar dyfu yn cael ei roi gan grwp mentora o dri garddwr a'r ffermwr. Roedd y cynllun CSA hefyd yn derbyn 'Woofers' - aelodau o fudiad byd-eang sy'n galluogi pobl i deithio drwy aros a gweithio ar ffermydd organig.[8]

Roedd y ffermwr, a oedd yn ymroddedig i syniad y CSA, yn dadlau bod ffermio wedi mynd ar wahân i'r gymuned. Roedd yn gweld cynlluniau CSA yn ffordd i ailgysylltu ffermwyr â'r gymuned; i ddarparu bwyd organig lleol da i'r gymuned leol; a rhoi incwm i ffermydd bach:

> *'I fi mae hyn - Amaethyddiaeth a Gefnogir yn y Gymuned - o les i fyd ffermio, ac o les i'r gymuned achos beth on i'n hoffi am y peth oedd ei fod yn adnewyddu ysbryd y gymuned gyda'r ffarm, a dod â'r ddau at ei gilydd achos fel yn Stroud dyn nhw ddim yn gwneud elw ond yn y diwedd mae'r ffermwr yn cael cyflog. Ac a dweud y gwir mae e fel ffarmwr yn gamblo ar gost prynu'r hadau, talu costau cynhyrchu i wneud e. Mae e ar y farchnad agored, dyw e ddim yn rheoli pethau ac ar ddiwedd y dydd dyw e ddim yn siwr os caiff e gyflog.*

[8] Cyfleoedd Byd-eang ar Ffermydd Organig [WWOOF]

*Ond mae hyn i gyd yn cynnwys y gymuned mewn penderfyniadau a thyfu bwyd iddyn nhw a rhannu'r cynnyrch.'*

Roedd cynllun CSA Caerhys yn cynnal digwyddiadau cymunedol cyson megis barbiciws a dawnsfeydd.



*Cynllun CSA Gerddi Ynys-las*

Roedd cynllun CSA Gerddi Ynys-las wedi'i leoli mewn gardd furiog, oedd yn cael ei rhentu oddi wrth landlord preifat, i'r gogledd o'r Borth ar arfordir Ceredigion. Dechreuwyd y cynllun CSA yn 2008 gan y tyfwr a phartner busnes, ac roedden nhw newydd adnewyddu'r brydles dwy flynedd. Eu nodau ar y dechrau oedd sefydlu cynllun blychau gyda 25-30 o aelodau yn talu a rhedeg cyrsiau hyfforddi mewn tyfu organig i bobl leol.

Adeg y cyfweliad, roedd gan gynllun CSA Gerddi Ynys-las 16 o aelodau lleol a oedd wedi ymrwymo i gyfnod hir drwy dalu ymlaen llaw. Gallen nhw dalu am flychaid mawr neu flychaid bach o lysiau. Roedd penderfyniadau ar beth i'w dyfu yn cael eu gwneud mewn cyfarfodydd o'r aelodau. Roedd holl waith y cynllun CSA yn cael ei wneud gan y tyfwr, oedd yn arddwr proffesiynol.

Roedd gan y tyfwr ethos amgylcheddol ac organig gref gan ddadlau y dylai fod yna gysylltiad rhwng cynhyrchwyr bwyd a chymunedau a defnyddwyr lleol - cysylltiad yr oedd yn dadlau ei fod wedi'i golli mewn gwaith cynhyrchu bwyd modern:

*'Fel ffermwr gallwch chi fod yn unig iawn yn y bôn, ac mae'n hawdd iawn colli cysylltiad â'r bobl sy'n prynu'ch cynnyrch, felly rhyw gadw'r cysylltiad yw e. Ond, dyw pobl ddim wedi math o arfer siarad â'u ffermwr am sut mae eu cynnyrch yn cael ei greu. So rydyn ni'n gweithio'n galed iawn ar hynny. Ond, chi'n gwybod rydyn ni'n byw yn y math yma o gymdeithas ble mae pethau yn mynd i'r silff yn y* supermarket *ac mae pobl yn mynd i'r* supermarket *ac yn prynu stwff oddi ar y silff ac mae fel, does yna ddim ymwybyddiaeth o'r sort o broblemau sy'n wynebu ffermwyr o ran pa fath o adnoddau maen nhw angen, neu beth maen nhw'n cystadlu gyda* really*. Dwi'n angerddol iawn am yr amgylchedd, materion yr amgylchedd. A dwi'n credu y ffordd mae amaethyddiaeth wedi mynd, yw bod mwy a mwy yn gweithio ar raddfa fawr, yn defnyddio mwy a mwy o beiriannau, mwy a mwy o gwrtaith. A dyw'r math yna a dyw hyn'na ddim yn gweithio* really*.'*

Ar ben cyrsiau ar amaeth-goedwigaeth a thyfu organig, roedd cynllun CSA Ynys-las yn cynnal digwyddiadau cymunedol megis barbiciws.



*Cynllun CSA Ty Mawr*

Roedd cynllun CSA Ty Mawr yn cael ei redeg fel rhan o Barc Gwledig Ty Mawr yng Nghefn Mawr, anheddiad yn agos i Draphont Ddwr Froncysyllte, i'r dwyrain o Langollen. Parc fferm oedd y parc gwledig, yn gogwyddo tuag at anifeiliaid fferm a thair blynedd yn ôl roedd y rheolwr wedi datblygu'r syniad o gynhyrchu llysiau gyda thema ailgylchu. Roedd hyn wedi'i wneud drwy roi lle yn un o gaeau'r fferm a

thyfu llysiau mewn cynwysyddion wedi'u hailgylchu. Roedd y cynwysyddion yn cynnwys y bagiau tunnell sy'n cael eu defnyddio yn y fasnach adeiladu, hen whilberi, bwcedi a chafnau dwr:

> *'Felly mae'r cyfan mewn bagiau mawr, bagiau dympio, bagiau am oes, bagiau siopa, wyddoch chi, pob math o bethau y medrwn ni blannu ynddyn nhw a thyfu dros y tymor, ac wedyn os na fydd digon o staff gynnon ni y flwyddyn nesa mi fyddwn ni'n medru codi'r cyfan, cael gwared arno a bydd y glaswellt yn dal yno. Hynny ydy ar wahân i ansicrwydd y staffio, y peth arall yw bod gwelyau parhaol yn ystod y gaeaf yn edrych yn flêr...a pharc cyhoeddus ydy hwn ac mae'n agored bob dydd o'r flwyddyn. Felly os medrwn ni gymryd pethau i ffwrdd yn yr hydref a'u rhoi nhw nôl yn y gwanwyn yna does dim rhaid poeni bod y cyfan yn edrych yn wael.'*

Cafodd y cynwysyddion, yr hadau a'r deunyddiau eraill eu rhoi gan bobl, ac roedd gwirfoddolwyr yn gweithio ar y garddio. Wedyn roedd y cynnyrch yn cael ei werthu am bris gostyngedig ac roedd yr enillion yn mynd yn ôl i mewn i'r cynllun CSA, a oedd yn cael ei redeg o fewn cyllideb gyffredinol y parc gwledig. Rheolwr y parc gwledig, oedd ag un cynorthwyydd, oedd yn gyfrifol am reoli'r cynllun CSA.

Roedd gan Barc Gwledig Ty Mawr raglen addysgol helaeth gyda'r ysgolion lleol, gyda rhyw 60 o ddisgyblion yr wythnos, a chafodd y cynllun CSA ei gynnwys yn y rhaglen. Roedd hyn yn cael ei weld fel ffordd i addysgu plant am sut roedd bwyd yn cael ei dyfu a manteision llysiau organig ffres.

Hefyd, roedd Ty Mawr a'r cynllun CSA yn gweithio gyda myfyrwyr ar brofiad gwaith; pobl ag anawsterau dysgu; a phobl â phroblemau iechyd meddwl.



## Pethau cyffredin yn yr Ethos

Er bod yr astudiaethau achos yn dangos ystod o fodelau gwahanol o dyfu cymunedol, dangosodd yr ymchwil nifer o bethau cyffredin yn eu hethos.

### Cynhyrchu bwyd o safon

Heb eithriad, roedd yr atebwyr yn canmol cynhyrchu bwyd o safon yn lleol, i'w fwyta'n lleol:

> *'A dyna chi'r peth arall, o ran y peth iechyd. Mae e'n gwneud gwahaniaeth i beth chi'n fwyta. Mae'n mynd yn syth o fan hyn i'r plât.'* (Rhandir 4)

Roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau tyfu cymunedol yn defnyddio dulliau tyfu organig.

### Cynaliadwyedd

Gwnaeth sawl atebwr gysylltiad rhwng cynhyrchu bwyd o safon a chynaliadwyedd. Dadleuwyd bod tyfu cymunedol yn ddewis amgen yn lle dulliau cynhyrchu bwyd a marchnata dan ddylanwad yr uwchfarchnadoedd, a system economaidd, a oedd yn cael eu gweld fel anghynaliadwy:

> *'Yr economeg ym mhopeth sy'n atal y cyfan, chi'n gwybod, a, beth dwi'n ddweud yn y bôn yw nad oes yna ddim gobaith inni newid a mynd yn fwy hunanddigonol a mwy cynaliadwy yn y wlad yma, oni bai ein bod ni'n newid yr economeg. Wel, dyna ni, mae bron fel,*

> *rydyn ni'n dweud o na allwn ni ddim newid, allwn ni ddim newid yr economeg, felly man a man inni neidio dros y clogwyn fel* lemmings*, chi'n gwybod. Ac anelu am y math o gwymp fawr sy'n debyg iawn o ddigwydd mewn cwpwl o flynyddoedd. Pan fydd y storom berffaith o gynhesu byd-eang, newid hinsawdd, allyriadau carbon, anterth olew a diogelwch bwyd yn rhyw ddod at ei gilydd.'* (RENEW)

Un o'r meddylwyr amgylcheddol mwyaf ymroddedig roddodd y dyfyniad uchod ond roedd gan sawl un arall farn debyg, gan weld eu rhandiroedd a'u prosiectau tyfu cymunedol fel symudiadau tuag at ddulliau cynhyrchu bwyd amgen, cynaliadwy.

Roedd yr enghreifftiau o arferion cynaliadwy yn cynnwys CG Moelyci, oedd â gwirfoddolwr yn gweithio gyda chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o fyw'n gynaliadwy. Roedd wedi helpu yn ddiweddar i sefydlu'r farchnad ffermwyr ym Methesda yn ardal chwareli Gwynedd. Ac yn rhandiroedd Crucywel, cafodd yr ymchwilwyr eu cyfeirio at randiroedd newydd yn Llangatwg gerllaw. Yma, roedd cymdeithas y rhandiroedd wedi creu dyfrdwll ac wedi gosod paneli ynni haul i roi ynni i bwmpio dwr i sestonau o amgylch safle'r rhandiroedd. Roedd y prosiectau tyfu cymunedol i gyd yn compostio ac yn ailgylchu, ac roedd rhai yn casglu dwr glaw.

**Bioamrywiaeth**

Er bod pob atebwr yn siarad am bwysigrwydd bioamrywiaeth, i rai roedd hyn yn un o'r nodau pendant a oedd yn cael ei hybu'n weithredol. Er enghraifft, roedd gan rai prosiectau, gan gynnwys rhai o'r rhandiroedd, gychod gwenyn. Roedd llawer yn defnyddio technegau plannu fel tan-hau, a oedd yn cadw'r chwyn i lawr ac yn hybu pryfed llesol.

Roedd rhai rhandiroedd wedi gosod, neu'n bwriadu gosod, pyllau i hybu bywyd gwyllt megis brogaod:

> *'Un rhan o'r foeseg os mynnwch chi ar y safle lle mae'n wahanol i randir traddodiadol, yw fy mod i wedi gwahardd pob cemegyn, felly pethau fel plaleiddiad, llysleiddiad a phethau felly, felly mae'n gwbl organig. A'r syniad yw ein bod ni'n ceisio hybu cymaint o fioamrywiaeth â phosibl, ac felly pan awn ni yno fe welwch chi un man sydd i'r llygad trefol yn edrych fel lle gwyllt. Lle gwyllt yw e i fod. Mae gyda ni bwll bach sy'n denu chi'n gwybod, pob math o drychfilod a chreaduriaid di-asgwrn-cefn a mamaliaid ac ati. Felly rydyn ni hefyd yn gwneud pethau fel plannu gwrychoedd a defnyddio, dwi'n credu mai Ymddiriedolaeth Coetir Prydain yw hi sy'n gwneud bargen lle gall grwpiau gael 420 o goed.* (Rhandir 8)

Roedd gan rai rhandiroedd flychau adar a phentyrrau coed i ddenu pryfed a thrychfilod. Roedd deiliaid rhai rhandiroedd yn cadw ieir a hwyaid.

**Manteision ar gyfer Iechyd, y Gymdeithas a'r Gymuned**

Ar ben manteision cynnyrch iach, roedd y prosiectau tyfu cymunedol hefyd yn hybu iechyd a lles drwy weithgarwch corfforol garddio. Gallai'r cynrychiolwyr rhandir hyn weld y manteision:

> *'Roedden ni'n sylwi'n arbennig gyda'r hen fois, mae'r lle'n eu cadw'n nhw'n fyw achos bod ganddyn nhw rywle i fynd. Mae ganddyn nhw bobl i gwrdd â nhw, a dwi'n credu bod mynd allan lawr yna, y tamed bach o dynnu coes cymdeithasol a'r ymarfer a'r cwbl, dwi'n wirioneddol gredu bod hynny'n beth da.' (*Rhandir 6*)*

> *'Ac mae'n lle da i ymadfer hefyd i ddod i wella ar ôl salwch, llawdriniaeth, unrhyw beth fel yna, mae digon o ffitrwydd i'w wneud a gallwch wneud cymaint neu gyn lleied ag y mynnoch. Mae gennyn ni gwpl o bobl â chlefyd siwgr sy'n dod yma ac maen nhw'n gwneud eu tamed bach o ymarfer corff drwy balu neu chwynnu neu beth bynnag ac maen nhw'n gweld bod hynny'n gwneud byd o les. Gafodd e driniaeth ar ei gluniau ac roedd e'n rhyw ddefnyddio dwy ffon a'r peth nesa dyma fe ar un ffon a'r peth nesa wedyn mae e bron yn rhedeg at*

*ei leiniau [chwerthin] so mae e'n dal yn palu.'* (Rhandir 7)

Er bod manteision cymdeithasol a chymunedol wedi'u cynnwys yn ethos a nodau'r CGs a'r cynlluniau CSA, soniodd pob un o'r rhandiroedd hefyd am agweddau ar gymuned, megis trosglwyddo gwybodaeth, rhannu arbenigedd garddio, cyfnewid planhigion, hadau a chynnyrch, a chyfarfodydd cymunedol i gael paned. Roedd rhai o'r rhandiroedd yn fwriadol yn mynd ar ôl ethos cymunedol gan gynnal gweithgareddau megis clirio safleoedd ar y cyd, barbiciws a phartïon. O ran y ganran, roedd 13% o randiroedd yr arolwg yn cynnal digwyddiadau cymunedol o'i gymharu â 48% o CGs a phob un o'r cynlluniau CSA yn yr arolwg.

**Mentrau Lles**

Yn achos rhai o'r CGs a hefyd cynllun CSA Ty Mawr, roedd manteision therapiwtig garddio i unigolion wedi'u cynnwys fel rhan o'r sefydliad ac roedd rhaglenni wedi'u sefydlu. Mae'r amlinelliadau o'r CGs a'r cynlluniau CSA yn gynharach yn yr adran hon yn rhoi'r manylion, a oedd yn cynnwys rhaglenni i bobl ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl, iselder, grwpiau adfer ar ôl alcoholiaeth, a throseddwyr.

Roedd rhai safleoedd rhandiroedd yn cael eu defnyddio hefyd at adsefydlu, er nad oedd deiliaid y lleiniau'n ymwneud â gwaith goruchwylio:

*'…a'r bechgyn sy'n byw ar y stryd ac sydd â phroblemau cyffuriau, cewch weld eu rhandir nhw. Dyw e ddim cystal eleni ag mae wedi bod, ond mae'n dal yn dda iawn. Dyn nhw ddim yn broblem i ni o gwbl.'* (Rhandir 10)

Roedd CG Moelyci yn ymwneud ag ystod o fentrau lles a nodwyd bod rhai wedi bod yn broblem oherwydd y personoliaethau ac oherwydd diffyg cyfatebiaeth rhwng sgiliau gofalwyr, mentoriaid a phersonél Moelyci, fel y gwelir yn y detholiad isod o ddyfyniadau:

*'Er bod y busnes cynhwysiant cymdeithasol yma'n swnio'n wych ond weithiau rydych chi'n gosod pobl i fyny i fethu a dwi'n ceisio achub y blaen. Dwi'n rhoi cyfweliad a dweud y gwir i bobl sydd am ddod â chleientau yma bellach i ofyn ydych chi'n sylweddoli beth sydd o'ch blaen chi? Allwch chi ddim eistedd yn y car a gadael eich cleient ar y rhandir. Does dim pwynt, wneith hynny ddim gweithio ac mae'n gas gen i wneud y peth ond yn anffodus y cyfan mae'r gofalwyr yn ei wneud yw gwaith gofalu. Dydyn nhw ddim yn arddwyr a dydyn nhw ddim yn athrawon.'*

*'Ac maen nhw i gyd yn bobl sydd wedi rhoi'r gorau i yfed. Felly fe ddaethon nhw yma yn y gwanwyn eisiau cael rhandir, i weithio fel cymuned ac mewn ffordd strwythuredig er mwyn dysgu sut i arddio. Doedd rhai ddim yn gallu gwahaniaethu rhwng un math o lysiau a'r llall, roedd rhai yn gallu. Y nod yn y pen draw oedd gwerthu'r cynnyrch i godi arian at y mudiad. Ond yn barod mae'r cydlynwyr mwya awchus, sy'n cael eu talu i weithio gyda nhw, wedi symud ymlaen.'*

*'Roedd ganddyn nhw arddwr oedd wedi hyfforddi mewn therapi garddwriaeth ac a oedd yn ardderchog, heblaw ei fod o'n fwy o arddwr yn gweithio efo phobl neis a wnaeth o ddim para'n hir iawn. Achos mae'r grwp sy'n gwella ar ôl alcohol yn cynnwys pawb o ferched ifanc sy wedi bod yn cam-drin eu hiau wyddoch chi erbyn eu bod nhw'n un ar hugain, i hogiau sy'n dal i chwilio am ryw fath o statws rywle, i'r bobl fwy aeddfed. Mae'n wir yn gymysgedd ac allai'r garddwr, y garddwr therapi garddwriaeth, ddim ymdopi â'r grwp.'*

*'Wyddoch chi, dach chi'n gweld Hugh Fearnley-Whittingstall yn codi grwp ym Mryste i sefydlu rhandir bach ar damad o dir gwastraff a'r tameidiau sy'n cael eu ffilmio, mae pawb yn annwyl ac yn ffrindiau efo'i gymdogion. A dydy bywyd ddim felly.'* [Chwerthin] (Moelyci)

Cafodd polisi'r llywodraeth, yn enwedig ar droseddwyr ifanc a phobl ag anawsterau

dysgu, ei feirniadu hefyd o ran ei effaith ar ddelwedd garddwriaeth:

> *'Mae angen inni godi proffil pobl sy'n tyfu llysiau a ffrwythau. Ar hyn o bryd, wel ers y tri deg neu'r pedwar deg mlynedd diwethaf, mae garddio wedi cael ei ddefnyddio fel cosb.*
> *Mae hi, chi'n gwybod, troseddwyr ifanc yn gwneud gwasanaeth cymunedol, beth fedran ni gael nhw i wneud, o ie cael nhw i wneud gwaith garddio. Mae'n cael ei ddefnyddio hefyd i anfon pobl sy'n methu ennill dwedwch lefel 'O' neu TGAU y dyddiau yma - felly y math o bobl is heb fod mor ddisglair, dach chi'n gwybod. Ie, heb fod mor ddisglair yn academaidd beth bynnag yn cael eu gwthio weithiau i mewn i arddwriaeth, chi'n gwybod a phobl ag anawsterau dysgu ac ati, mae wedi cael ei ddefnyddio fel yna. Felly mae proffil garddwriaeth wedi cael ei gysylltu'n fawr â'r ochr yna i bethau. Beth hoffwn i weld ydy rhyw fath o hybu garddwriaeth fel peth gwirioneddol dda i'w wneud. Ardderchog ar gyfer iechyd, gwych ar gyfer ym, chi'n gwybod, bwydo'ch hun, ymarfer corff. Dach chi'n gwybod, y cyfan a dweud y gwir a hefyd helpu i leihau'r ôl troed carbon. A hefyd, hynny yw, gallai hyn i gyd gael ei hybu gan lywodraeth leol a'r llywodraeth genedlaethol mewn ffordd fawr. Ond dydy o ddim.'* (RENEW)

**Mentrau addysg**

Yn fras, roedd prosiectau gerddi cymunedol yn cael eu gweld fel prosiectau addysgol yn yr ystyr eu bod yn gyfle i blant ddysgu am fwyd, tyfu pethau, bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Roedd yr agweddau hyn yn cael eu hybu gan rai safleoedd rhandiroedd, oedd wedi sefydlu pyllau, blychau adar a phentyrrau o foncyffion i ddenu bywyd gwyllt ac annog y plant ar eu safleoedd. Roedd gan rai o'r prosiectau tyfu cymunedol, gan gynnwys rhai rhandiroedd, drefniadau mwy ffurfiol ynglyn ag ymweliadau gydag ysgolion lleol:

> *'Mi wnaethon ni lain i deuluoedd a phlant bach a'i rhannu'n bedwar fel bod yna bedwar sgwâr bach a dyn ni'n cael teuluoedd a phlant bach i balu fan yna. Ac wedyn dyn ni wedi cynnwys yr ysgolion a'r cylchoedd meithrin lleol ac maen nhw'n dod ddwywaith y flwyddyn i weld.'* (Rhandir 1)

## Gwahaniaethau yn yr Ethos

Er bod y rhandiroedd, y CGs a'r cynlluniau CSA yn rhannu ystod o bethau cyffredin, datgelodd yr ymchwil wahaniaethau yn yr ethos hefyd.

Roedd yna wahaniaeth sylfaenol mewn ethos rhwng rhandiroedd a'r ddau fath arall o brosiect tyfu cymunedol. Mae gan randiroedd hanes cymharol hir gan ei bod yn orfodol i'r awdurdodau lleol eu darparu a hynny o dan gyfres o Ddeddfau Seneddol: Deddf Rhandiroedd 1887; Deddfau Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 a 1925; a Deddf Rhandiroedd 1950. Mae'r deddfau hyn wedi ymateb i'r galw am randiroedd ac wedi llunio'r galw am randiroedd yn ystod cyfnod a oedd yn cynnwys dau ryfel byd a newid yn y sefyllfa economaidd. Mae'r rhan fwyaf o randiroedd wedi'u darparu gan y wladwriaeth, er bod yna randiroedd mewn perchnogaeth breifat hefyd, a'r wladwriaeth sydd wedi gosod y nodau sylfaenol ar eu cyfer, sef yn y bôn caniatáu i aelwydydd unigol gynhyrchu a bwyta bwydydd iach, 'cartref', ar sail ddielw. O ganlyniad, mae gan randiroedd ethos unigolyddol yn y bôn, fel y gwelir yn y dyfyniad hwn:

> *'Rydyn ni'n tyfu llysiau. Mae mor syml â hynny. Safle hen ffasiwn iawn ydyn ni. Dyn ni ddim yn gwneud y stwff estyn allan a'r staff addysgu, chi'n gwybod, ryn ni yma i dyfu'n llysiau. Does dim tai bach yma, does dim cyfleusterau, does dim pwer. Ryn ni'n ddigon bodlon ar y sefyllfa, ond os dechreuwch chi ehangu beth sydd ar gael, yna bydd angen yr holl bethau eraill yma ac mae'n mynd yn fwy cymhleth nag yn ni eisiau lawr yma. Rydyn ni'n hapus yn hen ffasiwn.'* (Rhandir 6)

Yn wahanol i'r rhandiroedd, mentrau cymharol ddiweddar oedd CGs a chynlluniau CSA. Roedd eu cynnyrch nhw

naill ai'n cael ei fwyta gan y cynhyrchwyr neu'n cael ei farchnata neu ei gyfnewid. Yn bwysicaf oll, fel y mae eu teitlau yn ei awgrymu, ethos cymunedol yn hytrach nag unigolyddol oedd ganddyn nhw ac roedden nhw'n tueddu i fod yn fwy cynhwysol yn gymdeithasol. Awgrymwyd nad oedd deiliaid lleiniau ar randiroedd traddodiadol bob amser yn llwyr ddeall cysyniad gerddi cymunedol:

> *'Y sefydliad cyffredinol yw Cymdeithas Rhandiroedd Ffynnon Taf a Nantgarw a sefydlodd y safle rhandiroedd gwreiddiol. Fi gyflwynodd yr ardd gymunedol ac yn y ddwy flynedd diwethaf dydy hynny ddim wedi bod yn ddelfrydol achos does neb yn deall yr ardd gymunedol. Does neb o'r rhandiroedd neu o Bwyllgor Cymdeithas y Rhandiroedd o reidrwydd yn deall beth yn y byd rydyn ni'n ei wneud. Dydyn nhw ddim, allan nhw ddim dod allan o'r syniad o - wel jyst rhandir mawr yw e. Ond nage. Mae gymaint yn fwy na hynny.'* (CG Ffynnon Taf a Nantgarw)

### Materion Rhywedd

Yn ychwanegol at amlygu'r ethos unigolyddol 'hen ffasiwn' oedd yn nodweddu rhai safleoedd rhandiroedd, ond nid y cyfan, mae un dyfyniad uchod yn crybwyll mater rhywedd. Yn draddodiadol, mae rhandiroedd wedi bod yn lle i ddynion, sy'n tueddu i dderbyn trefniadau tai bach amrwd yn barotach na menywod. Yn wir, 6% yn unig o'r rhandiroedd a ymatebodd i'r arolwg oedd â chyfleusterau tai bach ar y safle. Er hynny, mae nifer cynyddol o fenywod yn garddio ac yn cymryd rhandir. Disgrifiodd y fenyw hon sy'n ddeiliad rhandir y newid yn y berthynas rhwng y ddau ryw:

> *'Mae arnyn nhw ofn y bydd rhyw groten fach yn tyfu rhiwbob mwy o faint na nhw. Yn gyntaf roedd yn gas ganddyn nhw weld merched yn dod i'r rhandiroedd ac roeddwn i'n un o'r merched cyntaf. Mi es i lawr ryw ddiwrnod a dyna lle roedd tri hen fachgen yn sefyll a'u dwylo ar eu cluniau yn edrych ar fy rhandir i a medden nhw - twt mae gen ti gorn melys da fan hyn ferch - oes medde finne, eitha da. Roedd e'n wirioneddol dal. Medde fe - o mae'n dda, mae'n well na f'un i a chrotes sy wedi'i dyfu fe. Ond maen nhw'n wahanol nawr, hollol, hollol wahanol. Dyn ni ddim yn fygythiad bellach ac maen nhw'n rhoi'r holl gyngor dyn ni ddim eisiau.' [Chwerthin].* (Rhandir 1)

## Hwyluso Tyfu Cymunedol a Rhwystrau sy'n ei Atal

Y ddau rwystr mawr sy'n atal tyfu cymunedol yng Nghymru ac y soniodd yr atebwyr amdanyn nhw oedd y tir sydd ar gael a chyllid. Materion eraill a grybwyllwyd oedd addysg a chymorth gan y llywodraeth.

### Y tir sydd ar gael

Ar gyfer tyfu cymunedol mae angen tir ac er bod y CGs a'r cynlluniau CSA yn yr arolwg wedi llwyddo, mewn amryw o ffyrdd, i ddod o hyd i dir, dadleuwyd bod prinder tir yn rhwystr mawr i atal dyfodol tyfu cymunedol yng Nghymru. Er enghraifft, er bod rhandiroedd yn ddarpariaeth statudol roedd rhai o'r atebwyr ar safleoedd rhandiroedd yn pryderu y gallai tir rhandiroedd gael ei golli i gynlluniau datblygu. Roedd hyn wedi digwydd ar ddau safle o leiaf:

> *'Wel mae'r rhandiroedd yma ers rhyw gan mlynedd byddwn i'n meddwl. Roedd un yma gan fy nhad-cu. Ond yn y blynyddoedd diwethaf mae'r cyngor wedi cymryd rhan o'r tir i adeiladu Parc Manwerthu Lecwydd a Stadiwm Dinas Caerdydd, felly mae hynny wedi lleihau nifer y rhandiroedd. Nawr maen nhw wedi cymryd darn arall o dir, sydd wedi'i ddyrannu i Vision 21 iddyn nhw godi eu hadeilad newydd sbon nhw, a gyda rhan o hynny maen nhw'n cymryd chwech o randiroedd ar hyd y darn uchaf lle daethon ni i mewn.'* (Rhandir 10)

> *'Roedden nhw'n arfer bod tua thair gwaith beth ydyn nhw nawr. Teulu Legg-Bourke dechreuodd nhw, fel rhan o'u hystâd nhw i'w gweithwyr. Ond mae datblygiadau modern wedi bwyta i mewn iddyn nhw felly rhyw un*

*rhan o dair sydd ar ôl. Mae yna fygythiad datblygu o hyd, achos mae hi yng nghanol Crucywel ac mae'n dir adeiladu gwych.'* (Rhandir 1)

I atal bygythiad datblygu ac i hybu syniad tyfu cymunedol, awgrymwyd y dylai darpariaeth ar gyfer rhandiroedd gael ei gynnwys yn statudol mewn cynlluniau datblygu. Er hynny, o dan y rheoliadau presennol dadleuwyd bod darpariaeth ar gyfer rhandiroedd yn statudol ond yn dibynnu ar ewyllys da yr awdurdodau lleol, gan nad oedd yna gosbau am beidio â chydymffurfio.

Dadleuwyd hefyd fod digon o leiniau bach o dir segur ledled Cymru, llawer ohono'n perthyn i Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau chwilio i ddod o hyd i ddibenion cynhyrchiol i'r lleiniau bach hyn ar gyfer tyfu cymunedol.

Doedd yr un o'r atebwyr yn ymwybodol o 'fanciau tir cymunedol'.

Cafwyd dau syniad cysylltiedig ynghylch rhyddhau tir ar gyfer tyfu cymunedol gan atebwyr o CGs a chynlluniau CSA. Yn gyntaf, dadleuwyd bod gormod o dir yng Nghymru wedi'i fuddsoddi mewn ffermio defaid. Yn ail, dadleuwyd y dylid cael cymhellion ariannol i ffermwyr i ryddhau tir at dyfu cymunedol, ac yn enwedig cynlluniau CSA:

*'Ond y broblem o ran sefydlu CSAs yng Nghymru yw na wnaiff ffermwyr ildio'u tir. Nawr petai'r Cynulliad yn ei ddoethineb yn cynnig dwedwch £1000 yr erw i ffermwyr am ryddhau tir i'r gymuned a bod yn rhan o'r CSA, wrth gwrs dwi'n dweud £1000 yr erw, dim ond rhyw ddwy neu dair erw i'r cymunedau yn ni'n sôn am ta beth.'* (Cynllun CSA Caerhys)

Dadleuwyd bod £1,000 yr erw y flwyddyn yn werth yr arian o'i gymharu â chost darparu rhandiroedd a chostau rhai o'r cymhellion ariannol presennol i ffermwyr.

Ffyrdd eraill i hwyluso tyfu cymunedol a awgrymwyd oedd cynnwys bwyd a sut mae'n cael ei gynhyrchu yng nghwricwlwm yr ysgolion, ac i Lywodraeth Cymru ddechrau rhaglen hirdymor gyda chyllid da i wneud pobl yn ymwybodol o dyfu cymunedol gan fynd ati i'w hybu.

**Materion ariannol**

Er bod swyddogaeth sylfaenol y rhandiroedd yn cael ei ariannu drwy strwythurau rhent yr awdurdodau lleol, roedd cymdeithasau rhandiroedd unigol mewn sefyllfa i wneud cais am grantiau at welliannau, offer a chyfleusterau ar eu safleoedd ac roedd llawer wedi gwneud hyn. Er hynny, soniodd yr atebwr hwn am anghysondeb tybiedig yn y polisi ar randiroedd:

*'Yr hyn sy'n rhyfedd yw mai rhandiroedd yw'r unig weithgaredd hamdden statudol, ond does dim arian ar eu cyfer nhw byth.'* (Rhandir 6)

O ran cynlluniau CSA, dadleuwyd bod diffyg strwythur grant CSA penodol yn rhwystr, gan fod cynllun CSA, o'i gymharu â rhandiroedd yn brosiect tyfu ar raddfa gymharol fawr ac angen sylw arbenigol, amser-llawn:

*'Mae angen cronfa ariannol i sefydlu CSA. Dylech chi gael grant i'w ariannu fe. Dylech chi gael cronfa i gyflogi person o bosibl, tyfwr am 18 mis i ddwy flynedd. Dyma un enghraifft ichi ar hyn o bryd. Mae gen i arddwr yn gweithio gyda fi. Garddwr bioddeinamig yw e, wedi bod ers 30 mlynedd. Rydyn ni wedi'i gyflogi fe. Roedd gyda ni gronfa annibynnol, £1000, i gyfogi rhywun. Byddwn i'n dwlu ei gyflogi fe hyd yn oed ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae ei gyfraniad a'i wybodaeth e ar hyn yn fantais fawr achos rydyn ni'n tyfu llysiau ar raddfa cae, nid gardd yw hi, nid rhandir, felly mae angen inni greu ein, ein dull tyfu ein hunain a'n system ein hunain.'* (CSA Caerhys)

Er bod awydd wedi'i fynegi'n gyffredinol i CGs a chynlluniau CSA beidio â dibynnu ar grantiau yn y tymor hirach, roedden nhw'n gydran o bwys yn ffrydiau incwm y CGs, yn enwedig y rhai â gweithwyr cyflogedig, a oedd yn tueddu i ddibynnu

arnyn nhw. Roedd ceisiadau wedi'u gwneud neu roedd ceisiadau yn yr arfaeth i nifer o ddarparwyr grantiau yn amrywio o'r Loteri Genedlaethol i gynghorau cymuned. Er hynny, roedd y rhan fwyaf o grantiau'n cael eu rhoi gan sefydliadau y bernir eu bod yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru, megis Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), a Chymunedau yn Gyntaf. Dadleuwyd y byddai'n fwy effeithlon pe bai'r holl grantiau sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru ym maes tyfu cymunedol yn cael eu gweinyddu gan un corff cyffredinol:

> *'Dwy ddim yn gwybod faint sydd yna ond dwedwn ni fod yna 10 neu 15 o wahanol ffrydiau arian sydd i bob pwrpas yn dod o Lywodraeth Cymru yn y pen draw. A'r syniad dych chi'n gwybod, mae yna Gyngor Cefn Gwlad ac mae yna Amgylchedd Cymru ac rwy'n credu bod yna WCVA efallai ac wedyn mae yna arian Cymunedau yn Gyntaf a'r holl ffrydiau arian gwahanol yma. Beth fyddai'n ddelfrydol yw pe bai'r grantiau i gyd gan y WCVA a'u bod nhw'n cadw nhw i gyd a bod rhywun ganddyn nhw yn rheoli ac yn nabod yr holl wahanol ffrydiau hyn.'* (CG Glanyrafon)

Roedd yna broblemau tybiedig eraill ynghylch grantiau. Er enghraifft, roedden nhw'n tueddu i gael eu rhoi am gyfnod hiraf o dair blynedd ac roedd rhaid i ail gais fod yn gais am brosiect newydd:

> *'O mae popeth yn gysylltiedig ag arian i sefydliadau fel ni. Chi'n gwybod dwi'n credu bod arian grant yn debyg o roi uchafswm o dair blynedd o arian ichi, sy ddim yn ddigon hir i wneud gwahaniaeth mawr mewn maes fel hyn. A hefyd os gwnewch chi gais eto ar ôl tair blynedd mae'n gorfod bod yn brosiect newydd sbon. Felly dyw prosiectau da ddim yn gallu cael cymorth. Wedyn, chi'n gorfod ailddyfeisio'r olwyn.'* (CG Glynnedd/Rheola)

Yn ychwanegol, awgrymwyd bod tuedd gynyddol i ddarparwyr grantiau ariannu prosiectau cyfalaf yn unig, ond bod angen cyllid refeniw hefyd i alluogi deiliaid grantiau i dalu am waith ar brosiectau cyfalaf.

Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd mai cyfyngedig oedd y cyfle i gael gwybodaeth am dyfu cymunedol a chyllid. Awgrymwyd mai un ffordd ymlaen fyddai ffurfio corff cyffredinol, fel yr awgrymwyd uchod ar gyfer grantiau.

## Rhwydweithiau cymorth

Cymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Rhandir a'r Garddwyr Hamdden [NSALG] a Ffederasiwn y Ffermydd Dinas a'r Gerddi Cymunedol [FCFCG] oedd y grwpiau cenedlaethol yr oedd y prosiectau tyfu cymunedol yn yr astudiaethau achos debycaf o berthyn iddyn nhw. Roedd NSALG yn tueddu i ddarparu ar gyfer y rhandiroedd, gyda 42% o'r arolwg yn aelodau ac roedd aelodau'r FCFCG yn debycach o fod yn CGs, sef 54% o'r arolwg, a chynlluniau CSA, sef 60%. Roedd cyfran fach (6%) o'r rhandiroedd yn aelodau o'r FCFCG; yn yr un modd, roedd 10% o'r CGs yn aelodau o'r NSALG. Roedd yna ystod o sylwadau ynghylch pa mor effeithiol oedd y sefydliadau hyn; credai rhai eu bod yn fuddiol, credai eraill eu bod yn aneffeithiol.

Roedd rhandiroedd yr astudiaethau achos, wrth gwrs, mewn cysylltiad â'u hawdurdodau lleol a'u cynghorau cymuned. Unwaith eto, roedd y farn am lefel y cymorth i'r rhandiroedd gan yr awdurdodau lleol yn amrywio.

Roedd y CGs yn tueddu hefyd i weithio gyda sefydliadau cenedlaethol megis Amgylchedd Cymru, y Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol, Cymdeithas y Pridd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a Ffederasiwn Ymddiriedolaethau Groundwork. Roedd y sefydliadau eraill a grybwyllwyd yn cynnwys Cadwch Gymru'n Daclus, Cymdeithas Coed Ffrwythau Cymru, BTCV, a Permaculture. Roedd yna gysylltiadau â mudiad 'trefi trawsnewid'. Yn wir, roedd rhai o'r cynlluniau CSA a'r CGs mewn cysylltiad â chynllun CSA Stroud yn Lloegr. Mae Stroud yn 'dref

drawsnewid' a soniwyd am gynllun CSA Stroud fel patrwm o arferion CSA.

Yn ychwanegol at y sefydliadau uchod, roedd yna rwydweithiau cymorth anffurfiol. Er enghraifft, roedd rhandiroedd mewn ardaloedd cyfagos mewn cysylltiad â'i gilydd. Yn yr un modd, roedd CGs a chynlluniau CSA mewn cysylltiad â'i gilydd. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn cychwyn rhwydwaith cymorth Cymru gyfan i grwpiau tyfu cymunedol.

A chymryd rhwydweithiau ar raddfa ehangach, awgrymwyd bod y teledu'n cael effaith sylweddol ar dyfu cymunedol. Ar un llaw, roedd rhaglenni garddio ar y teledu yn hybu garddio cymunedol a'r ethos cydnaws â'r amgylchedd a'r pwyslais ar fwyta'n iach a oedd yn sail iddo. Ond ar y llaw arall, awgrymwyd bod newid diweddar ar fformat 'Gardeners World' wedi arwain at lai o ddiddordeb mewn rhandiroedd:

> *'Mi ddweda i beth sy'n gwneud gwahaniaeth ydy faint o sylw iddo sydd ar y teledu yn ystod yr oriau brig, achos dwi wedi sylwi bod fformat newydd Gardeners World, sydd heb randir Joe erbyn hyn ac mae lefel yr ymholiadau wedi gostwng. Felly mae'r math yna o sylw yn y brif ffrwd yn gwneud i bobl feddwl beth allan nhw wneud, sut i fynd ati. Y cyfryngau yw'r peth mawr mae'n debyg.'* (Rhandir 6)

## Enghreifftiau o'r arferion gorau mewn tyfu cymunedol o'r Alban a Lloegr

### Rhagymadrodd

Yn y cyfweliadau â chynrychiolwyr amryfal sefydliadau a chyrff yn gweithio ym maes tyfu cymunedol yn Lloegr a'r Alban amlygwyd set debyg o heriau a rhwystrau sy'n wynebu tyfu cymunedol yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Roedd y rhain yn cynnwys y tir a oedd ar gael a mynediad i dir; deiliadaeth ansicr; ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o werth posibl tyfu cymunedol a'r gwahanol opsiynau sydd ar agor i unigolion, grwpiau a thirfeddianwyr; a diffyg ymroddiad gan y llywodraethau i hybu tyfu cymunedol a'i arwyddocâd fel cwestiwn polisi trawsbynciol o bwys; a diffyg cyffredinol sgiliau a gwybodaeth mewn tyfu bwyd a garddwriaeth.

Gan fyfyrio ar y rhwystrau a'r heriau hyn, rhoddodd cynrychiolwyr tyfu cymunedol enghreifftiau defnyddiol o ymagweddau a oedd wrthi'n cael eu mabwysiadu yn Lloegr a'r Alban i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd gan brosiectau tyfu a'r rhai sy'n gweithio ym maes tyfu cymunedol. Roedd yr ymagweddau hyn yn ymwneud â dau bryder yn benodol - yn gyntaf, yr angen i gynyddu'r tir sydd ar gael at dyfu cymunedol a'r mynediad iddo, ac yn ail, yr angen i wella'r ddarpariaeth ar gyfer canllawiau a chymorth i bob math o weithgareddau tyfu. Mae'r adran a ganlyn yn amlinellu'r ymagweddau hyn yn fyr.

*Materion tir*

Enwyd diffyg mynediad i dir a materion sicrwydd deiliadaeth fel cyfyngiadau mawr ar bob math o dyfu cymunedol. Dadleuai'r ymatebwyr y dylid rhoi llawer mwy o bwyslais ar sicrhau cyflenwad digonol o dir, yn y tymor byr a'r tymor hir, i fodloni'r galw cynyddol am fannau tyfu. Fel y pwysleisiwyd yn gynharach yn yr adroddiad, cydnabu'r ymatebwyr fod gan y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, ynghyd â thirfeddianwyr preifat, ran bwysig i'w chwarae wrth gynyddu lefel y gweithgareddau tyfu cymunedol ledled y Deyrnas Unedig oherwydd y tiroedd mawr, gan gynnwys llawer o fannau agored, a oedd yn perthyn iddyn nhw ac yn cael eu rheoli ganddyn nhw. Roedd angen gwell cyngor a chanllawiau ar arferion da, gan anelu at nodi a hwyluso cyfleoedd tyfu newydd gyda rhagor o gymorth i helpu i drosglwyddo perchnogaeth neu reolaeth tir i grwpiau cymunedol drwy brynu neu drwy gytundebau prydlesu, a hynny ar fyrder er mwyn helpu'r datblygiadau ehangach hyn.

Mewn ymateb i'r pryderon hyn, yn 2010, comisiynodd DEFRA a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn

Whitehall yr FCFCG i ymchwilio i ffyrdd posibl i ymateb yn fwy effeithiol i'r cynnydd yn y galw am fannau tyfu cymunedol. Yn sgil ymchwil helaeth ac ymgynghori â'r cyfranddeiliaid, cafodd y Gwasanaeth Ymgynghorol Tir Cymunedol (CLAS) ei sefydlu yn 2011 gan anelu at ddod â mwy o dir i mewn i ddefnydd cymunedol cynhyrchiol ar gyfer gweithgareddau megis garddio a thyfu bwyd. Bydd y gwasanaeth yn gweithredu fel cyfryngwr a brocer i ymddiried ynddo rhwng tirfeddianwyr a grwpiau cymunedol sydd â diddordeb mewn cyrchu neu ryddhau tir at dyfu cymunedol ac yn cydategu, yn cefnogi ac yn gwella'r mentrau lleol a rhanbarthol presennol, megis Landshare, yr Ymddiriedolaeth Tir, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Rhwydwaith Trawsnewid. Caiff y rhaglen tair-blynedd ei rhedeg gan yr FCFCG a'i chyflwyno ar draws Lloegr a'r Alban. Adeg ysgrifennu, roedd trafodaethau wedi dechrau gyda Llywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd o gael model i'r Deyrnas Unedig gyfan, a fyddai'n darparu gwasanaethau penodol ar sail cyd-destunau a blaenoriaethau gwahanol y gwledydd datganoledig.

Ar y cyd â hyn, roedd cynnydd o bwys yn cael ei wneud yn yr Alban, drwy waith yr FCFCG a Chymdeithas Gerddi Rhandir yr Alban (SAGS), i wella lefel y cymorth a'r canllawiau a oedd ar gael i brosiectau tyfu cymunedol. Mae'r FCFCG yn gweithio ar hyn o bryd ar gynhyrchu canllaw ar dyfu cymunedol i dirfeddianwyr a defnyddwyr tir, canllaw a fydd yn cynnwys cyngor ar gytundebau prydlesu ac yn rhoi enghreifftiau o dempledi prydlesau ar gyfer gwahanol fathau o dyfu cymunedol. Yn yr un modd, mae'r SAGS wrthi'n drafftio canllaw arferion da ynghylch dylunio a datblygu safleoedd rhandiroedd newydd a phresennol, a fydd yn creu cysylltiadau uniongyrchol â pholisïau cynllunio. Anelir y canllaw at ddarparwyr a defnyddwyr rhandiroedd.

Rhoddodd yr ymatebwyr hefyd nifer o enghreifftiau o'r arferion gorau ac ymagweddau newydd sydd wedi'u datblygu gan amryw o sefydliadau a grwpiau tyfu yn Lloegr a'r Alban i helpu i oresgyn heriau a rhwystrau a oedd yn atal tyfu cymunedol. Roedd y rhain yn cynnwys prosiectau tyfu wedi'u sefydlu ar dir cyhoeddus ac ar dir preifat a oedd wedi llwyddo i ddod dros anawsterau wrth gaffael tir a sicrwydd deiliadaeth; prosiectau a oedd yn amlygu manteision ar draws ystod eang o agendâu polisi cyhoeddus, gan gynnwys datblygu'r economi ac adfywio cymunedau, addysg a dysgu gydol oes, diogelwch cyhoeddus a lleihau troseddau, capasiti cymdeithasol a chydlyniant cymunedol, ffitrwydd corfforol ac iechyd a lles seicolegol; a phrosiectau sydd wedi llwyddo i ddatblygu elfennau o addysg a hyfforddiant cymunedol yn eu gweithgareddau craidd. Ceir trosolwg byr o nodau allweddol pob un o'r astudiaethau achos yn yr adran a ganlyn a dolenni gwe i gael rhagor o wybodaeth.

### Gerddi Cymunedol Ysbyty Brenhinol Caeredin

*Defnyddio tir y GIG dros dro at dyfu cymunedol*

Mae Gerddi Cymunedol Ysbyty Brenhinol Caeredin yn brosiect peilot a ddechreuwyd gan GIG NHS Lothian yn 2010 i edrych ar gyfleoedd ar gyfer gerddi cymunedol dros dro ar dir y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'r gerddi'n sefyll ar safle tair erw yn nhiroedd Ysbyty Brenhinol Caeredin ac yn anelu at roi cyfleoedd i gymunedau lleol ac unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl neu iechyd corfforol, anfantais, unigrwydd neu dlodi, i ymgymryd â gweithgarwch corfforol a ffydd iachach o fyw. Mae'r gerddi wedi'u bwriadu i roi ymagwedd holistig at hybu iechyd a honno'n cydnabod effeithiau llesol gweithgareddau garddio cymunedol, drwy'r cyfleoedd a ddarperir ar gyfer gwella iechyd a lles, rhoi llwybrau i mewn i waith, gwella ymwybyddiaeth amgylcheddol a gwella dealltwriaeth gymdeithasol ac integreiddio cymunedol. Mae'r prosiect yn cael ei reoli gan y Cyreniaiad, elusen yng Nghaeredin, o dan gyfarwyddyd Grwp Llywio sy'n cynnwys swyddogion o'r GIG a cyfranddeiliaid o'r trydydd sector. Gobeithir y bydd y prosiect

yn fodel i safleoedd eraill yn y GIG ledled yr Alban ac ymhellach i ffwrdd.

www.royaledinburghcommunitygardens.wordpress.com

**Rhandiroedd Cow Hill, Fort William**

*Rhandir cymunedol ar dir dan reolaeth Comisiwn Coedwigaeth yr Alban.*

Yn 2007, sicrhaodd grwp o drigolion Fort William, sydd gyda'i gilydd yn cael eu hadnabod fel Sunny Lochaber United Gardeners (SLUG), gytundeb prydlesu oddi wrth Gomisiwn Coedwigaeth yr Alban i ddatblygu safle rhandiroedd ar dir oedd yn ffurfio rhan o ystâd fforest mewn perchnogaeth gyhoeddus yn Fort William. Ar ôl llwyddo i godi £75,000 i ariannu'r prosiect, agorodd y safle ym mis Ebrill 2010 ac erbyn hyn mae'n darparu 17 o leiniau rhandir, sydd ar gael i unigolion a grwpiau cymunedol, yn ogystal â maes parcio, storfa a chaban cyfarfod, a thoiled compostio. Nodau allweddol y prosiect yw creu man cymunedol sy'n hybu mwy o gynhwysiant a chydadwaith cymdeithasol; rhoi hyfforddiant mewn sgiliau gwledig a sgiliau garddio traddodiadol; a hybu arferion byw gweithredol, cynaliadwy ac iach yn y gymuned. Mae rhagor o gynlluniau'n cael eu paratoi i ddatblygu perllan gymunedol a phrosiect gwrychoedd bwytadwy. Mae'r grwp wedi cael cymorth gan sawl ffynhonnell, gan gynnwys Cyngor yr Ucheldiroedd, gweithwyr iechyd proffesiynol lleol, Leader+, Awards for All a Chronfa Her yr Hinsawdd.

www.slugrhandiroedd.co.uk/index.asp

**Sow and Grow Everywhere (SAGE), Glasgow**

*Gerddi Cymunedol Dros Dro*

Cafodd astudiaeth Sow and Grow Everywhere ei gomisiynu gan Bartneriaeth Rhwydwaith Gwyrdd Glasgow a Dyffryn Clud yn 2009 i ystyried lefelau diddordeb cymunedol mewn mentrau tyfu lleol ar draws rhanbarth dinas Glasgow a'r galw amdanyn nhw. Nododd yr adroddiad ar yr astudiaeth nifer o opsiynau tyfu cymunedol gan ddefnyddio gwahanol fathau o dir, naill ai'n barhaol neu dros dro, gan gynnwys tir gwag a diffaith, tir ad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol, fel darnau o barciau cyhoeddus, darnau mawr o fannau amwynder heb swyddogaeth benodol, a rhannu gerddi preifat. Un opsiwn sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yw defnyddio dros dro safleoedd sydd â chynllun datblygu pendant at y dyfodol (sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel 'mannau gohiriedig'). Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar greu nifer o safleoedd tyfu arddangos, sydd wedi'u cynllunio i fod yn 'symudol', ac felly pan fydd angen y tir i'w ddatblygu gall y seilwaith gael ei symud i safle newydd. Rhan ganolog o hyn yw'r 'pecyn tyfu' sy'n cynnwys system fodiwlaidd bwrpasol o flychau a bagiau tyfu cadarn o safon sydd wedi'u creu o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

http://sowandgroweverywhere.org/

http://www.gcvgreennetwork.gov.uk/prosiectau/Urban-Growing/Sow-Grow-Everywhere-SAGE.html

**Cymdeithas Rhandiroedd Middlezoy, Gwlad yr Haf**

*Safle rhandiroedd ar dir sy'n cael ei brydlesu oddi wrth dirfeddiannwr lleol*

Pentref gwledig bach ar wastadeddau Gwlad yr Haf yn Sedgemoor yw Middlezoy. Ym mis Rhagfyr 2008 penderfynodd trigolion o'r pentref edrych ar bosibilrwydd sefydlu rhandiroedd cymunedol yn y pentref o ganlyniad uniongyrchol i bryderon ymhlith y trigolion ynghylch diffyg lle i weithgareddau tyfu, yn y pentref ac mewn gerddi preifat unigol. Mynegodd teulu amaethyddol lleol ddiddordeb mewn prydlesu darn o dir i'r gymuned leol er mwyn i randiroedd gael eu datblygu ac yn sgil trafodaethau ffurfiol gyda'r Cyngor Dosbarth a'r NSALG, cafodd cytundeb ffurfiol ei lunio rhwng y tirfeddiannwr a'r Gymdeithas Randiroedd i brydlesu safle o 2.5 erw yng nghanol y

pentref i'r Cyngor Plwyf. Rhoddodd yr NSALG gyngor am gytundebau prydlesu addas, gan gymryd i ystyriaeth amodau penodol a osodwyd gan y tirfeddiannwr, gan gynnwys cyfyngiadau ar y math o seilwaith i'w ddefnyddio ar y safle, darparu cyflenwad dwr a gofynion cyffredinol ar gynnal a chadw'r tir a'r gwrychoedd o'i amgylch. Erbyn diwedd mis Chwefror 2009, roedd yr holl ddogfennau angenrheidiol wedi'u paratoi, gan ganiatáu i'r gymdeithas ddyrannu lleiniau i'w 47 o aelodau.

http://mzoyas.co.uk/

**Amaethyddiaeth Gymunedol Stroud (SCA)**

*Menter gydweithredol gymunedol dan berchnogaeth a rheolaeth yr aelodau*

Mae Stroud Community Agriculture Ltd yn fenter dan arweiniad y gymuned sydd wrthi'n datblygu busnes ffermio lleol i gynhyrchu cynnyrch organig ffres i'w aelodau. Mae'r aelodau'n talu aelodaeth flynyddol a thaliad arall i gael cynnyrch sy'n cynnwys llysiau, cig moch a chig eidion, a chynnyrch arall. Mae'r fenter yn prydlesu 23 erw yn Hawkwood llai na milltir o ganol Stroud, a 23 erw arall yn Brookthorpe, dair milltir Gaerloyw. Mae'r aelodau'n helpu'r ffermwyr i gynhyrchu eu bwyd drwy ddiwrnodau gwaith cymunedol rheolaidd, ac mae yna fywyd cymunedol bywiog o amgylch y fferm gyda phicnics, prydau sy'n cael eu rhannu, coelcerthi, teithiau cerdded liw nos, gwyliau tymhorol a gweithgareddau i blant.

http://www.stroudcommunityagriculture.org/about.php

**Amaethyddiaeth a Gefnogir yn y Gymuned yn Exeter**

*Menter gydweithredol gymunedol ar dir sy'n cael ei brydlesu oddi wrth dirfeddiannwr preifat*

Cafodd Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned yn Exeter ei sefydlu gan fenter gydweithredol bona fide Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus (IPS) ym mis Medi 2008 ac mae wedi'i lleoli ar safle pedair erw ar fferm organig 24 erw yn Shillingford, ger Exeter. Mae nodau allweddol y fenter yn cynnwys tyfu bwyd i'r aelodau, cynnig cyfleoedd dysgu, ac ailgysylltu pobl â'r tir. Mae gan y fenter gydweithredol 42 o aelodau ar hyn o bryd, deg yn perthyn i'r pwyllgor rheoli. Mae'r cytundeb tenantiaeth wedi'i sefydlu deilio ar denantiaeth busnes fferm ac mae'n para am gyfnod o ddeng mlynedd. Cafodd templed enghreifftiol ei ddarparu gan Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (NFU).

http://www.soilcymdeithas.org/communitycymorthedagriculture/casestudies

**Prosiect garddio Diggin' It, Plymouth**

*Gardd Gymunedol ar dir yr awdurdod lleol*

Mae Diggin' it yn brosiect garddio organig yn Plymouth a gynhelir gan y Routeways Centre Ltd, elusen leol. Yn 2006, sicrhawyd cyllid prosiect oddi wrth raglen 'Reaching Communities' y Loteri Fawr i ddatblygu gardd gymunedol ar gyfer tyfu a gwerthu llysiau, ffrwythau, perlysiau a blodau ar safle 2.5 erw o dir rhandir sydd heb ei ddefnyddio ac sy'n eiddo i Gyngor Dinas Plymouth. Mae safle'r prosiect yn cynnwys terasau, llwybrau, gwelyau wedi'u codi, ardaloedd bywyd gwyllt, pwll mawr, gardd synhwyraidd a thoiled compostio.

Prif nod y prosiect yw darparu amgylchedd a fydd o fudd i amrywiaeth o bobl sy'n agored i niwed neu dan anfantais gymdeithasol, gan eu helpu i gael eu hintegreiddio'n well yn y gymuned a dod â chymunedau at ei gilydd. Trwy'r prosiect, mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn cael eu cynorthwyo i ennill sgiliau, hyder, hunan-barch a bod yn hunangynhaliol, gan eu galluogi i gymryd rhan lawnach yn y gymdeithas. Ym mis Mawrth 2010, sicrhaodd y prosiect gyllid oddi wrth y Gronfa Loteri Fawr i sefydlu Rhaglen Allgymorth Bwyd Lleol, sy'n darparu cyngor a chymorth i ysgolion a chymunedau i'w galluogi i ddysgu sut i

dyfu a choginio eu bwyd eu hunain, deall manteision maethiadol cynnyrch ffres organig a gwella ehangder eu gwybodaeth am dyfu trwy gompostio, ailgylchu a denu bywyd gwyllt llesol i'r ardd. Mae tîm allgymorth pwrpasol yn darparu sesiynau addysg ar safle'r prosiect ac mewn lleoliadau allanol.

http://www.diggin-it.org/

**Urban Roots, Glasgow**

*Prosiectau amgylcheddol dan arweiniad y gymuned, gan gynnwys tri safle gardd gymunedol*

Mae Urban Roots yn sefydliad dan arweiniad y gymuned yn Toryglen, Glasgow Southside. Mae'r cynllun yn ymrwymedig i weithio gyda phobl leol ar brosiectau sy'n gwella amgylchedd ac iechyd eu hardal leol drwy ystod o weithgareddau gan gynnwys coginio, garddio cymunedol a'r celfyddydau amgylcheddol. Mae'r sefydliad bellach yn cynnwys tîm ymroddedig o wirfoddolwyr, sy'n ymgymryd ag ystod o brosiectau gwahanol megis trawsnewid mannau gwyrdd sy'n ddiffaith neu heb eu defnyddio yn erddi cymunedol ffyniannus sy'n darparu perlysiau, llysiau, ffrwythau a blodau. Mae'r prosiect wrthi ar hyn o bryd yn cynnal a datblygu tair gardd gymunedol leol, bob un wedi gwella'n sylweddol ar yr amgylchedd lleol, gan greu mannau mwy diogel a deniadol i'r cymunedau lleol. Mae'r grwp hefyd yn ymwneud â gwelliannau amgylcheddol lleol ar diroedd ysgolion a meithrinfeydd lleol ac yn ystyried sefydlu caffi cymunedol newydd yn yr ardal, a fydd yn defnyddio cynnyrch o'r gerddi.

http://www.urbanroots.org.uk/

**Gardd Furiog Redhall, Caeredin**

*Gardd gymunedol i unigolion ag anawsterau iechyd meddwl*

Mae Gardd Furiog Redhall yn ardd furiog o'r 18fed ganrif mewn ystâd 6 erw, sy'n cynnig hyfforddiant mewn garddwriaeth, cadwraeth, sgiliau cynnal a chadw, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a sgiliau bywyd i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r prosiect yn darparu lleoliadau gwaith ar gyfer hyd at 50 o ddefnyddwyr gwasanaethau o bob rhan ddinas Caeredin. Ei nod yw hybu amgylchedd diogel lle gall unigolion ddysgu sut i ddelio â heriau gwella o broblemau iechyd meddwl parhaus a hybu ffyrdd cynaliadwy ac iach o fyw. Mae'r gerddi ar agor i'r cyhoedd ac mae hyn yn helpu i chwalu stigma problemau iechyd meddwl a datblygu cysylltiadau cymunedol cryfach.

http://www.samh.org.uk/services

**Ymddiriedolaeth Gardd Hope, Angus, yr Alban**

*Gardd therapiwtig sydd ag elfen o fenter gymdeithasol*

Nod gardd organig Ymddiriedolaeth Gardd Hope yw darparu hyfforddiant garddwriaeth a phrofiad gwaith mewn garddio i unigolion ag anableddau dysgu. Yn 2000, dechreuwyd cynllun blychau llysiau organig, gan ddarparu 20 o flychau o lysiau yr wythnos i drigolion lleol yn Arbroath. Bellach mae dros 60 o gartrefi yn derbyn cyflenwad o lysiau organig yn ystod misoedd tyfu'r flwyddyn. Mae'r cynnyrch wedi'i ardystio'n organig gan Gymdeithas y Pridd.

www.hopegardentrust.org.uk

**'Concrete to Coriander', Birmingham**

*Cynllun garddio cymunedol i fenywod ar dir cyhoeddus segur*

Mae Concrete to Coriander yn brosiect cymunedol a gynhelir gan CSV Environment, elusen flaenllaw gwirfoddoli a hyfforddi, a Chlwb Garddio'r Menywod Bangladeshi yn nwyrain Birmingham. Mae'r prosiect yn annog menywod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig i gymryd camau i adfywio a gwella'u hamgylchedd

lleol. Mae'r prosiect yn gweithio gyda'r gymuned leol i ddod â gerddi diffaith a segur yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol neu ddefnydd hamdden, ac wrth wneud hynny mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd, dod yn llai unig yn gymdeithasol a gwella'u lles iechyd yn gyffredinol.

http://plantnetwork.org/proceedings/west-dean-2010/concrete-to-coriander-community-garden-in-birmingham/

**Grwp Gweithredu Iechyd ac Amgylchedd Hartcliffe, Bryste**

*Prosiectau garddio cymunedol*

Mae Grwp Gweithredu Iechyd ac Amgylchedd Hartcliffe (HHEAG) yn grwp cymunedol lleol ar ystâd dai ar gyrion y ddinas yn Ne Mryste. Mae'r prosiect yn darparu ystod o gyfleoedd i bobl leol o bob oed i dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol iach sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Mae'n darparu amryw o brosiectau, gan gynnwys gardd farchnad gymunedol, gardd gymunedol 'Sow and Grow' a grwp tyfu, sy'n annog pobl leol i dyfu a bwyta mwy o ffrwythau a llysiau ffres, Prosiect Coginio Cymunedol Menter Gydweithredol Bwyd Hartcliffe, amryw o gyrsiau garddwriaeth a rhaglen tyfu yn yr ysgol.

http://www.hheag.org.uk/?HHEAG

# ADRAN 5: TYFUN BWYD YN GYMUNEDOL MEWN YSGOLION

## Rhagymadrodd

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg o weithgareddau tyfu mewn ysgolion ledled Cymru. Cyflwynir data disgrifiadol o'r arolwg er mwyn diffinio nodweddion cyffredinol yr ysgolion sy'n cynnig cyfle i'r disgyblion cymryd rhan mewn gweithgareddau garddio fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

## Y sampl ysgolion

O'r 1844 o ysgolion a gynhelir gan y llywodraeth ac ysgolion annibynnol ledled Cymru y cysylltwyd â nhw, daeth 692 o ymatebion i law, sef cyfradd ymateb o 38%. Ysgolion cynradd oedd y mwyafrif (78%) a ymatebodd i'r arolwg, tra oedd 12% o'r sampl arolwg yn ysgolion uwchradd. O weddill yr ysgolion yn y sampl, roedd 24 yn ysgolion arbennig (3%), 22 yn ysgolion annibynnol (4%), 13 yn feithrinfeydd (2%) a naw yn cael eu dosbarthu fel unedau cyfeirio disgyblion (1%). Dangosodd nifer yr ymatebion a gafwyd gan ysgolion arbenigol yn nodi y gall athrawon addysg arbennig weld garddio ysgol fel dull effeithiol i gyrraedd myfyrwyr penodol a mynd i'r afael â'u hanghenion arbennig. Roedd nifer y disgyblion ar y gofrestr yn sampl yr arolwg yn ymestyn hyd at 1950 o fyfyrwyr.

Mae'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg wedi'u dosbarthu'n weddol gyfartal ar draws Cymru, sy'n dangos diddordeb eang mewn garddio. Cafwyd ymatebion i'r arolwg o bob awdurdod lleol yng Nghymru, gyda'r gyfran uchaf o ymatebion o Gonwy (9%), Ynys Môn (8%), Tor-faen (8%), Ceredigion (8%) a Sir Benfro (6%). Mae'r cyfrannau ar gyfer yr awdurdodau eraill yn amrywio o 1% i 5%. Fel y gwelir yn Nhabl 5.1, mae'r cyfraddau ymateb o fewn pob ardal awdurdod lleol yn amrywio'n sylweddol o ychydig dros chwarter (21%) ym Mlaenau Gwent i ychydig dros hanner (53%) yn Sir Fynwy.

**Tabl 5.1 Y gyfradd ymateb fesul ardal awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Cyfradd Ymateb |
|---|---|
| Sir Fynwy | 53% |
| Merthyr Tudful | 47% |
| Bro Morgannwg | 47% |
| Sir Benfro | 47% |
| Ynys Môn | 46% |
| Powys | 43% |
| Rhondda Cynon Taf | 41% |
| Sir Ddinbych | 40% |
| Sir Gaerfyrddin | 40% |
| Castell-nedd Port Talbot | 39% |
| Conwy | 37% |
| Caerdydd | 37% |
| Wrecsam | 36% |
| Casnewydd | 35% |
| Abertawe | 34% |
| Gwynedd | 34% |
| Sir y Fflint | 33% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 31% |
| Ceredigion | 29% |
| Tor-faen | 29% |
| Caerffili | 26% |
| Blaenau Gwent | 21% |
| **Cyfanswm yr Ymatebion** | **38%** |

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau garddio yn yr ysgol yng Nghymru

Ceisiodd y cwestiwn cyntaf bennu lefel y cyfranogiad mewn gweithgareddau garddio mewn ysgolion ledled Cymru. At ei gilydd, mae'r canfyddiadau yn awgrymu y gall gweithgareddau garddio fod yn fwy cyffredin mewn ysgolion cynradd ledled Cymru, o'i gymharu ag ysgolion uwchradd a mathau eraill ac ysgolion. Fel y gwelir yn Nhabl 5.2, o'r 692 ymateb a gafwyd, mae cyfran sylweddol (78%) yn dod o ysgolion cynradd ac mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd garddio yn yr ysgol. Mae hyn yn awgrymu bod gweithgareddau garddio wedi'u hymgorffori'n fwy yng nghwricwlwm yr ysgolion cynradd a'u bod yn weithgareddau mwy amlwg mewn ysgolion cynradd o'u cymharu ag ysgolion uwchradd ac ysgolion eraill ledled Cymru.

**Tabl 5.2 Y Gyfradd ymateb fesul categori o ysgol**

| Math o Ysgol | Nifer yr ymatebion | Nifer â gweithgareddau garddio yn yr ysgol | Cyfran o sampl yr arolwg |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 543 | 533 | 78% |
| Uwchradd | 81 | 68 | 12% |
| Arbennig | 24 | 24 | 3% |
| Annibynnol | 22 | 20 | 4% |
| Meithrin | 13 | 13 | 2% |
| Unedau Cyfeirio Disgyblion | 9 | 9 | 1% |
| **Cyfanswm** | **692** | **667** | **100%** |

O edrych yn fanylach ar natur a phatrwm garddio yn yr ysgol, mae'r arolwg yn dangos bod ysgolion yn darparu cyfoeth o weithgareddau sy'n defnyddio garddio a thyfu planhigion a blodau fel ffocws canolog. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal ar dir yr ysgolion a'r tu allan i amgylchedd yr ysgol. Mae Tabl 5.3 (drosodd) yn cyflwyno'r canlyniadau.

Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd garddio mewn ysgolion oedd tyfu llysiau a blodau yn yr ardd, sef 92% ac 84% yn y drefn honno. Roedd canran ychydig yn llai, sef 67% o'r ysgolion, wedi datblygu ardal bywyd gwyllt ar dir yr ysgol, a honno'n cael ei defnyddio gan y disgyblion ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â garddio, tra oedd 62% yn rhedeg clwb garddio dynodedig. Roedd ychydig dros hanner (53%) o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg yn trefnu ymweliadau â'r gymuned a safleoedd eraill i alluogi'r disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau garddio, tra oedd un rhan o dair yn gwahodd y gymuned i gynorthwyo gyda gweithgareddau garddio ar dir yr ysgol. Roedd gweithgareddau celf a chrefft yn gysylltiedig â gardd yr ysgol a dosbarthiadau coginio a oedd yn defnyddio cynnyrch o'r gerddi yn cael eu cynnal hefyd gan hanner y sampl yn yr arolwg. Roedd y gweithgareddau awyr agored poblogaidd eraill yn cynnwys datblygu ardaloedd coetir a thyfu llysiau a blodau mewn tai gwydr a thwneli polythen ar dir yr ysgol.

**Tabl 5.3** **Yr amrediad o weithgareddau garddio mewn ysgolion ledled Cymru**

| Math o weithgarwch | Nifer | Cyfran o'r sampl |
|---|---|---|
| Gweithgareddau ar safle'r ysgol: gardd lysiau | 615 | 92% |
| Gweithgareddau ar safle'r ysgol: gardd flodau / gardd addurnol | 558 | 84% |
| Gweithgareddau ar safle'r ysgol: ardal bywyd gwyllt | 450 | 67% |
| Clybiau ysgol (e.e. clwb garddio) | 413 | 62% |
| Gweithgareddau ar safle'r ysgol: gardd berlysiau | 403 | 60% |
| Ymweliadau â'r gymuned / safleoedd eraill | 355 | 53% |
| Gweithgareddau ar safle'r ysgol: dosbarth coginio | 334 | 50% |
| Gweithgareddau ar safle'r ysgol: gweithgareddau celf a chrefft | 330 | 49% |
| Ymweliadau gan y gymuned | 222 | 33% |
| Gweithgareddau ar safle'r ysgol: gardd i'r synhwyrau | 192 | 29% |
| Gweithgareddau ar safle'r ysgol: gardd thematig | 52 | 8% |
| Gweithgareddau yn ystod gwyliau | 51 | 8% |
| Eraill | 58 | 9% |

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod gweithgareddau garddio ysgol yn cael eu cynllunio mewn nifer o ffyrdd i gyfrannu at ystod eang o anghenion. Er enghraifft, mae nifer o ysgolion sy'n wynebu prinder tir a mannau gwyrdd wedi adeiladu gwelyau uchel ar wynebau caled mewn ardaloedd chwarae i alluogi'r myfyrwyr i dyfu llysiau a blodau, tra oedd eraill wedi ymdopi drwy dyfu llysiau a thatws mewn sachau neu finiau sbwriel. Mae llond llaw o ysgolion hefyd wedi goresgyn problemau diffyg tir drwy ymgymryd â rhandir ar safle yn agos i dir yr ysgol, a nododd un arall eu bod yn darparu cyfleoedd rheolaidd i fyfyrwyr blannu bylbiau yn y parc cyhoeddus lleol. Roedd un ysgol hefyd yn cynnig cyfle i'r disgyblion ymuno â'r clwb garddio fel rhan o gynllun gwobrwyo yr ysgol.

Er hynny, nid oedd gweithgareddau garddio yn yr ysgol yn gyfyngedig i leiniau awyr agored; roedd gan yr ysgolion amryw o ffyrdd i ddarparu profiadau garddio i'w disgyblion, fel defnyddio cynwysyddion plastig yn yr ystafell ddosbarth a blychau ffenestr. Roedd yn ymddangos nad oedd llawer o athrawon, myfyrwyr a chydlynwyr garddio allweddol yn cyfyngu eu dealltwriaeth o 'arddio' i'r cysyniad traddodiadol o ardd yn yr awyr agored, ond wedi ehangu'r cysyniad i gynnwys unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â gofalu am blanhigion newydd a chymryd mwy o ddiddordeb yn yr amgylchedd.

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod patrymau ym maint a math y gweithgareddau garddio a gynigir drwy'r ysgol yn amrywio yn ôl y math o ysgol ac oed a natur y disgyblion dan sylw. Mae'r ystod o weithgareddau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymddangos yn weddol debyg ac yn cynnwys tyfu llysiau, blodau a pherlysiau; cynnal ardal bywyd gwyllt; gweithgareddau yn yr ysgol, fel clwb garddio; ac ymweliadau rheolaidd â'r gymuned a safleoedd eraill. Er bod ysgolion meithrin, ysgolion annibynnol ac unedau cyfeirio disgyblion yn cynnig ystod debyg o gyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan mewn garddio, roedden nhw hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar dasgau mwy creadigol megis gweithgareddau celf a chrefft a gwersi coginio. Yn yr un modd, roedd nifer fawr o'r ysgolion arbennig a ymatebodd i'r arolwg (17 allan o 24) wedi

datblygu gerddi synhwyraidd i annog eu disgyblion i ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â garddio.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd fod eu hysgolion yn cymryd rhan weithredol mewn garddio nodi'r unigolion neu'r grwpiau allweddol a oedd yn ymwneud â threfnu'r gweithgareddau. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod gweithgareddau garddio ysgol yn cael cychwyn a'u cydlynu yn bennaf gan staff addysgu a staff cymorth, yn ogystal â disgyblion, a nododd 27% o'r ysgolion fod aelodau o'r uwch dîm rheoli yn cymryd rhan wrth gydlynu gweithgareddau garddio. Er hynny, roedd arwyddion bod garddio yn weithgaredd i'r ysgol gyfan mewn llawer o ysgolion, gyda chyfranogiad gweithredol gan bob aelod o gymuned yr ysgol - o rieni, neiniau a theidiau a llywodraethwyr ysgol, i ofalwyr, cynorthwywyr glanhau a chogyddion yr ysgol.

Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn dangos bod nifer fach o ysgolion yn defnyddio sawl ffynhonnell o arbenigedd y tu allan i helpu i gydlynu a darparu gweithgareddau garddio yn eu hysgolion. Roedd y rhain yn cynnwys swyddogion o'r awdurdod lleol fel cydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf, cydlynwyr Eco-Ysgolion a gweithwyr ieuenctid. Nododd yr ymatebwyr hyn hefyd eu bod yn cael cymorth yn rheolaidd gan nifer o wirfoddolwyr megis aelodau o'r gymuned leol a garddwyr profiadol.

## Newidiadau diweddar yn y ddarpariaeth garddio yn yr ysgol

O'u holi am unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth gweithgareddau garddio yn yr ysgol yn ystod y pum mlynedd diwethaf, nododd 90% o'r ymatebwyr fod lefel garddio yn yr ysgol wedi cynyddu yn eu hysgol yn ystod y cyfnod hwn, a dywedodd 6% arall na fu newid sylweddol yn y ddarpariaeth. Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd dros y cynnydd hwn yn y ddarpariaeth oedd ymwybyddiaeth gynyddol ymysg athrawon a staff yr ysgol o ganlyniadau posibl garddio yn yr ysgol a grybwyllwyd gan 58% o'r ymatebwyr. Dilynwyd hyn yn agos gan faterion yn ymwneud ag argaeledd cynyddol cyfleoedd garddio yn yr ysgol (51%) a staff i gynnal gweithgareddau garddio (47%).

Roedd y rhesymau amlwg eraill dros y cynnydd diweddar mewn gweithgareddau garddio yn yr ysgol yn cynnwys argaeledd ehangach adnoddau ac offer a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer garddio yn amgylchedd yr ysgol, a grybwyllwyd gan 44% o'r ymatebwyr, a newid yn y blaenoriaethau o fewn cwricwlwm yr ysgol, a nodwyd gan 41 %. Roedd ychydig dros draean o'r holl ymatebwyr a ymatebodd i'r arolwg yn priodoli'r twf diweddar mewn cyfleoedd garddio yn yr ysgol i gynnydd yn lefel y cymorth y rhieni a'r gymuned ehangach. Hefyd, dywedodd 27% o'r ymatebwyr fod rôl garddio yn yr ysgol wedi'i chryfhau o ganlyniad i lefelau uwch yn y gefnogaeth i arddio yn eu hysgol dros y pum mlynedd diwethaf.

## Nodau allweddol garddio yn yr ysgol

Cafodd gwerth gweithgareddau garddio yng nghwricwlwm yr ysgol ei grybwyll gan y 96% o'r ymatebwyr a oedd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod garddio yn yr ysgol yn gwella lles, dysgu a datblygiad cyffredinol eu disgyblion. Roedd yr holiadur yn ceisio canfod nodau ac amcanion penodol gweithgareddau garddio mewn ysgolion ledled Cymru.

Fel y mae Tabl 5.4 (drosodd) yn dangos, roedd yr ysgolion yn darparu ystod o ymatebion amrywiol; ond, roedd y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yn gysylltiedig a nodau addysgol, gan danlinellu'r rhan bwysig sy'n cael ei chwarae gan arddio yn yr ysgol wrth annog myfyrwyr i gymryd diddordeb yn yr amgylchedd a'r awyr agored. Ar draws yr arolwg, dywedodd 93% fod gweithgareddau garddio yn eu hysgol yn cael eu hanelu'n bennaf at wella ymwybyddiaeth amgylcheddol y myfyrwyr, ac roedd 87% defnyddio'r gweithgareddau hyn i roi cyfleoedd i'r myfyrwyr godi a datblygu sgiliau garddio. Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr (92%) hefyd yn teimlo

bod gweithgareddau garddio yn cyfrannu at wella amgylchedd ehangach yr ysgol.

**Tabl 5.4 Nodau allweddol gweithgareddau garddio yn yr ysgol yng Nghymru**

| Nod | Nifer | Cyfran o sampl yr arolwg |
|---|---|---|
| Cynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol | 623 | 93% |
| Gwella amgylchedd yr ysgol | 612 | 92% |
| Gwella'r ddealltwriaeth o fwyta'n iach / maeth | 577 | 87% |
| Datblygu sgiliau garddio'r disgyblion | 579 | 87% |
| Hybu gwaith tîm | 566 | 85% |
| Gwella sgiliau rhyngbersonol a chymdeithasol | 507 | 76% |
| Rhoi cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol | 353 | 53% |
| Ymgysylltu â'r gymuned ehangach | 334 | 50% |
| Gwella perfformiad academaidd | 254 | 38% |
| Gwella ymddygiad disgyblion | 249 | 37% |
| Annog y rhieni i gymryd rhan | 198 | 30% |
| Ddim yn gwybod | 4 | 1% |
| Eraill | 37 | 6% |

Roedd y rôl arwyddocaol sy'n cael ei chwarae gan yr ysgolion wrth godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bwyta'n iach a ffordd iach o fyw yn cael ei hadlewyrchu hefyd yng nghanlyniadau'r arolwg, gydag 87% o'r ymatebwyr yn dweud bod eu gweithgareddau garddio yn cael eu hanelu at wella dealltwriaeth y myfyrwyr yn gyffredinol o faterion bwyta'n iach a maeth. O fewn yr amcan hwn, roedd nifer o ysgolion yn defnyddio'u gerddi a'u mannau awyr agored i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y myfyrwyr o darddiad bwyd a sut mae'n cael ei gynhyrchu, ac i roi profiad ymarferol o gylch bywyd planhigyn - o blannu i bydru a'i ddefnydd yn y bin compost.

Roedd datblygu sgiliau personol y disgyblion hefyd yn uchel yn y rhestr o fanteision tybiedig; roedd 85% o'r ymatebwyr yn teimlo bod garddio yn yr ysgol yn annog y myfyrwyr i ddatblygu sgiliau gweithio mewn tîm, ac roedd 76% o'r ymatebwyr yn teimlo ei fod yn gwella datblygiad sgiliau rhyngbersonol a chymdeithasol. Cafodd rôl garddio yn yr ysgol wrth ddarparu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a chaniatáu i'r ysgol i gysylltu â'r gymuned ehangach ei nodi gan hanner yr holl ymatebwyr. Cafodd manteision mwy cyffredinol eraill nad oedden nhw o reidrwydd yn perthyn yn uniongyrchol i weithgareddau garddio, ond a oedd efallai yn dod o dan ddylanwad gweithgareddau o'r fath, megis gwelliannau mewn perfformiad academaidd ac ymddygiad myfyrwyr, eu henwi gan ychydig dros draean o'r ymatebwyr, sef 38% a 37% yn y drefn honno.

O edrych yn fanylach ar yr ymatebion, roedd yn ymddangos nad oedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng nodau allweddol y gweithgareddau garddio a gafwyd ym mhob categori o ysgol. Roedd rôl gweithgareddau garddio o ran codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ymhlith myfyrwyr yn amlwg gan ei fod yn ymddangos yn y ddau nod mwyaf cyffredin a enwyd ym mhob categori o ysgol. Roedd hefyd yn ymddangos bod y pum nod a nodwyd amlaf yr un fath ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion annibynnol, er mewn trefn wahanol o ran eu pwysigrwydd. Roedd gweithgareddau garddio meithrinfeydd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio

disgyblion yn tueddu i roi mwy o bwyslais ar wella sgiliau rhyngbersonol a chymdeithasol.

Yn ogystal â nodi amcanion allweddol garddio yn yr ysgol, roedd yr arolwg yn ceisio penderfynu a oedd y gweithgareddau hyn yn cael eu targedu'n unswydd ar unrhyw grwpiau penodol o fewn amgylchedd yr ysgol; roedd 73% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf nad oedd gweithgareddau garddio yn eu hysgol yn cael eu cyfyngu i rai grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol, ond eu bod yn cael eu cynnig drwyddi draw, ni waeth beth am oedran na rhyw. Mae hyn yn awgrymu bod garddio yn cael ei ddefnyddio ym mhob oedran yn y system addysg yng Nghymru.

Er hynny, roedd rhywfaint o dystiolaeth bod gweithgareddau garddio yn cael eu targedu'n benodol at grwpiau penodol o fewn amgylchedd yr ysgol, gyda 26% o'r ymatebwyr yn nodi bod gweithgareddau garddio wedi'u cyflwyno'n unswydd yn eu hysgol nhw i fynd i'r afael ag anghenion dysgu, cyfathrebu ac ymddygiad y disgyblion penodol. Roedd wyth o'r naw o unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg yn cymryd rhan mewn gweithgareddau garddio wedi'u targedu'n unswydd ar fyfyrwyr ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Hefyd, nododd 23% fod gweithgareddau garddio o les i ddisgyblion ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio ac roedd 16% yn sicrhau bod elfennau o'u rhaglenni garddio yn cael eu hanelu at ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae'r amrywiaeth o ffyrdd yr oedd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn garddio yn amgylchedd yr ysgol yn dangos bod modd i'r gweithgareddau hyn gyfrannu at ystod eang o nodau ac amcanion. Roedd y doreth o wybodaeth a roddwyd gan yr ymatebwyr ar yr ystod o weithgareddau garddio a wneir yn amgylchedd yr ysgol yn dangos bod llawer o ysgolion yn defnyddio'u gerddi a thir yr ysgol fel adnodd dysgu creadigol trawsgwricwlaidd, fel y nododd yr ymatebydd hwn:

> '*[Rydyn ni'n] defnyddio garddio fel dull addysgu mwy gweledol a chyffyrddol ar draws sawl cwricwlwm, megis maths, EcoYsgolion, cyfathrebu, tech gwyb a bioleg*.'

Roedd yr ystod eang o feysydd pwnc addysgol yr oedd garddio yn yr ysgol yn cael ei ymgorffori ynddyn nhw yn cynnwys mathemateg, gwyddoniaeth, ieithoedd, celf a dylunio, dinasyddiaeth, dylunio a thechnoleg, daearyddiaeth, TGCh ac addysg gorfforol.

Roedd hyn yn arddangos gallu garddio yn yr ysgol i gael ei ddefnyddio fel arf dysgu ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal â sgiliau sylfaenol, sgiliau allweddol a phynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, nododd yr ymatebwyr hefyd amryw o feysydd ychwanegol yr oedden nhw'n eu haddysgu gan ddefnyddio'r ardd a garddio fel ffocws canolog i'r profiad dysgu. Roedd y rhain yn cynnwys addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd, dysgu cysylltiedig â gwaith a gweithgareddau hamdden. Roedd yr ystod o bynciau a gafodd sylw yn y cyntaf o'r rhain yn cynnwys technegau rheoli ymddygiad, sgiliau penderfynu, perthnasoedd â'ch cyfoedion, sgiliau gwaith tîm, cadw amser a hunan-barch a hyder personol. Roedd y materion hyn yn cael eu trafod drwy ddefnyddio amryw o ddulliau a gweithgareddau addysgu gan gynnwys penodi swyddogion gardd, dyrannu dyletswyddau a chyfrifoldebau garddio ymhlith y myfyrwyr a thasgau a thrafodaethau grwp.

Roedd nifer o enghreifftiau o waith sy'n gysylltiedig â gweithgareddau yn cael eu darparu gan yr ymatebwyr hefyd, gan gynnwys chwarae rôl, gwaith i wella sgiliau cyflwyno a chyfathrebu'r myfyrwyr a threfnu menter codi arian gan ddefnyddio cynnyrch o ardd yr ysgol. Roedd y meysydd galwedigaethol mewn sectorau penodol a gafodd eu hastudio neu eu profi gan y myfyrwyr yn cynnwys sgiliau amaethyddiaeth, gofal anifeiliaid, adeiladu, arlwyo, dylunio, sgiliau gweinyddol, peintio ac addurno, a gwaith manwerthu.

Roedd y rôl bwysig sy'n cael ei chwarae gan weithgareddau garddio yn yr ysgol wrth roi mwy o gyfleoedd ar gyfer hamdden a gweithgareddau hamdden hefyd yn cael ei phwysleisio gan yr ymatebion i'r arolwg. Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol a chydlynwyr garddio o'r farn bod gweithgareddau o'r fath yn ffordd werthfawr o hybu datblygiad cryfderau personol a chymdeithasol y myfyrwyr ac o roi cyfle i'r myfyrwyr ddilyn gweithgareddau cymdeithasol a rhwydweithiau adeiladol a fyddai'n eu gosod mewn sefyllfa dda ar ôl ymadael â'r ysgol.

## Cyngor a chymorth i weithgareddau garddio yn yr ysgol

Roedd yr holiadur yn ceisio pennu lefel y cymorth, y cyngor a'r anogaeth i dyfu cymunedol ledled Cymru, gan edrych yn arbennig ar y flaenoriaeth a roddir i weithgareddau garddio ar wahanol lefelau, o lefel yr ysgol unigol, i lefel yr awdurdod lleol ac yn yr amgylchedd ehangach.

*Yn amgylchedd yr ysgol:*

O'u holi i ba raddau yr oedd garddio wedi'i integreiddio yn niwylliant yr ysgol, roedd 82% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod gweithgareddau garddio yn yr ysgol yn rhan annatod o ethos yr ysgol. Ar ben hynny, roedd yn ymddangos bod cytundeb cyffredinol bod athrawon bellach yn rhoi blaenoriaeth uchel i weithgareddau garddio yn eu hysgolion ac yn hybu ac yn mynd ati i hyrwyddo cyfranogiad mewn garddio ar draws pob grwp oedran. Fel y gwelir yn Nhabl 5.5, roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oedd hyn yn wir yn eu hysgolion yn sylweddol is.

Roedd canlyniadau'r arolwg hefyd yn dangos bod ystod o adnoddau ar gael i helpu i gydlynu a chyflwyno prosiectau a gweithgareddau garddio yn yr ysgol. Fel y gwelir yn Nhabl 5.6, dywedodd 37% o'r ymatebwyr fod yr ysgol yn darparu cyfleoedd i'r staff ddilyn cyrsiau hyfforddi a oedd yn gysylltiedig â garddio yn yr ysgol, ac roedd 22% o'r holl ysgolion yn darparu niferoedd staff ychwanegol i helpu i baratoi a chyflwyno tasgau garddio. Mewn un achos penodol, roedd cynorthwyydd dysgu wedi ymgymryd â swydd ychwanegol yn ystod y tymor i helpu i gydlynu a rheoli gweithgareddau garddio'r ysgol.

**Tabl 5.5 Rhoi gweithgareddau garddio ar waith yn yr ysgol**

| | Gweithgareddau garddio yn yr ysgol yn rhan annatod o ethos yr ysgol | Manteision garddio yn yr ysgol yn cael eu cydnabod ar draws yr ysgol | Gweithgareddau garddio yn yr ysgol yn cael eu cydnabod yn eang ar draws yr ysgol | Gweithgareddau garddio yn cael eu hybu mewn rhai rhannau o'r cwricwlwm yn unig | Gweithgareddau garddio yn gyfyngedig i grwpiau blwyddyn / Cyfnodau Allweddol penodol |
|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf / cytuno | 82% | 79% | 78% | 35% | 20% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 13% | 15% | 15% | 24% | 5% |
| Anghytuno'n gryf / anghytuno | 4% | 5% | 6% | 37% | 73% |
| Dim ateb | 1% | 1% | 1% | 4% | 2% |

**Tabl 5.6 Ystod y cymorth a oedd yn cael ei ddarparu yn yr ysgolion i helpu i gyflwyno garddio yn yr ysgol**

| Math o gymorth | Nifer | Cyfran o sampl yr arolwg |
|---|---|---|
| Arian i brynu adnoddau / cyfleusterau | 486 | 73% |
| Cyfleoedd i ddilyn cyrsiau hyfforddi | 247 | 37% |
| Arian ar gyfer ymweliadau dydd / teithiau maes | 213 | 32% |
| Amser digyswllt i gynllunio a threfnu gweithgareddau | 146 | 22% |
| Staff ychwanegol ar gyfer gweithgareddau garddio | 144 | 22% |
| Athrawon cyflenwi i ganiatáu ymweliadau allanol yn ystod oriau ysgol | 124 | 19% |
| Eraill | 100 | 15% |

Er hynny, i lawer o'r ymatebwyr roedd yn amlwg mai dod o hyd i amser i gynnwys garddio yn amserlen y dosbarth oedd yr agwedd fwyaf ymestynnol mewn garddio yn yr ysgol. Er bod 22% o'r ysgolion yn dweud bod gan aelodau staff a oedd yn cymryd rhan mewn cyflwyno gweithgareddau garddio hawl i gael amser rhydd yn yr amserlen addysgu i gynllunio a pharatoi gwaith, nododd nifer o'r ymatebwyr fod gallu eu hysgol i roi digon o amser rhydd yn amserlenni'r dosbarthiadau wedi'i gyfyngu'n ddifrifol gan gyfyngiadau ar y gyllideb a'r staffio. Yn aml, roedd unrhyw waith â garddio yn seiliedig ar ewyllys da a brwdfrydedd yr aelodau staff a'r myfyrwyr unigol, fel y gwelir yn y dyfyniadau hyn:

> *'Mae'n amhosibl rhoi amser digyswllt gan fod y gyllideb yn dynn iawn. Mae'r staff yn cynllunio yn eu hamser rhydd eu hunain.'*

> *'Ychydig iawn o gyllideb sydd ar gael gennyn ni, felly mae gwaith garddio'n dibynnu yn gyffredinol ar ewyllys da a brwdfrydedd.'*

Yn yr un modd, dywedodd ychydig o dan un o bob pum ymatebydd fod eu hysgol yn darparu athrawon cyflenwi ychwanegol er mwyn caniatáu ymweliadau allanol yn ystod oriau ysgol. Ond nid oedd hyn fel petai'n atal yr ysgolion rhag trefnu ymweliadau ysgol i safleoedd allanol. Dywedodd dros hanner (53%) o'r ymatebwyr fod hyn yn elfen bwysig o'r rhaglen arddio yn eu hysgol nhw.

Codwyd pryderon tebyg hefyd mewn perthynas â gallu athrawon i neilltuo digon o amser addysgu yn amserlen y dosbarth wrth ymgymryd â thasgau garddio, megis plannu a chynnal a chadw'r ardd. Roedd yn amlwg bod ymatebwyr o'r farn bod hyn yn hanfodol er mwyn i arddio yn yr ysgol gael ei ddefnyddio'n llwyddiannus fel arf addysgu yng nghwricwlwm yr ysgol.

Dywedodd llawer hefyd eu bod yn cael anawsterau wrth ddod o hyd i ddigon o amser addysgu i alluogi pob myfyriwr i gael profiad ymarferol yn yr ardd, ac i integreiddio garddio yn effeithiol yn y cwricwlwm.

Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod diffyg amser yn peri rhwystredigaeth i ysgolion ac athrawon a oedd yn cymryd rhan mewn garddio yn yr ysgol. Dywedodd llawer y byddai darparu offer a chyflenwadau digonol, a chael deunyddiau priodol i integreiddio garddio yn y cwricwlwm yn lleihau'n sylweddol ar yr amser paratoi y mae ei angen i sefydlu gweithgareddau garddio.

### *Cymorth yr awdurdodau lleol*

O ran lefel y cymorth a ddarperid gan awdurdodau lleol Cymru ar gyfer datblygu gweithgareddau garddio, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod yr

awdurdodau lleol ar draws Cymru chwarae rhan ymylol yn unig o ran hybu a helpu i ddatblygu gweithgareddau garddio yn y system addysg. Fel y gwelir yn Nhabl 5.7, er bod chwarter yr ysgolion yn dweud eu bod wedi cael gwybodaeth am fanteision garddio ysgol gan eu hawdurdod lleol, a bod 22% wedi cael adnoddau dysgu awyr agored ac offer i helpu i gyflwyno gweithgareddau garddio, roedd yn amlwg bod yr amrywiaeth o gyngor a chefnogaeth yn bur gyfyngedig. Er enghraifft, dim ond 13% o ysgolion a oedd wedi cael cyngor gan yr awdurdod lleol ar ymgorffori garddio yn yr ysgol yn y cwricwlwm; yr un gyfran a oedd wedi cael gwybodaeth am arferion da mewn garddio yn yr ysgol; a 15% o'r ymatebwyr a oedd wedi cael cefnogaeth chymorth gan yr awdurdod lleol ar ddulliau addysgu a dysgu gan ddefnyddio gweithgareddau garddio yn yr ysgol.

**Tabl 5.7 Yr amrediad o gymorth a ddarperid gan yr awdurdodau lleol ledled Cymru at arddio yn yr ysgol**

| | Gwybodaeth am fanteision gweithgareddau garddio yn yr ysgol | Gwybodaeth am yr ystod o gyfleoedd / adnoddau garddio sydd ar gael i'r ysgolion | Darparu adnoddau ac offer dysgu awyr agored | Cymorth i ymgorffori garddio yn yr ysgol yn y cwricwlwm | Cymorth gydag addysgu / dysgu gan ddefnyddio garddio yn yr ysgol | Rhannu arferion da ynghylch gweithgareddau garddio yn yr ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn eu cael | 25% | 19% | 22% | 13% | 15% | 13% |
| Heb fod yn eu cael | 36% | 37% | 34% | 35% | 36% | 36% |
| Ddim ar gael | 10% | 10% | 10% | 10% | 10% | 10% |
| Bydden nhw'n ddefnyddiol | 18% | 22% | 25% | 28% | 28% | 27% |
| Dim ateb | 11% | 12% | 10% | 13% | 12% | 13% |

Dywedodd cyfran uwch o'r ysgolion (ymhell dros draean o'r sampl) nad oeddent wedi cael unrhyw fath o wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â gweithgareddau garddio. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr hyn o'r farn y byddai ystod ehangach o gymorth ac adnoddau yn ddefnyddiol ac yn fuddiol i'w hysgolion.

*Cymorth a chyngor gan ffynonellau allanol*

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod integreiddio garddio yng nghwricwlwm yr ysgol a'i gyflwyno mewn amgylchedd addysgol yn golygu llawer iawn o gynllunio a pharatoi, bod angen arbenigedd a gwybodaeth benodol yn y pwnc, a'i fod yn gofyn llawer o adnoddau. O ganlyniad nid oedd yn syndod bod athrawon a chydlynwyr garddio yn aml yn defnyddio help a chymorth ychwanegol o ffynonellau y tu allan i amgylchedd yr ysgol wrth gymryd rhan mewn profiadau garddio gyda myfyrwyr. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod yr ysgolion wedi defnyddio amryw o ffynonellau lleol i gael cymorth gwirfoddol, gan gynnwys busnesau lleol (33%), ysgolion eraill (32%) a phrosiectau tyfu eraill (21%). Roedd y ffynonellau cymorth gwirfoddol ychwanegol yn cynnwys sefydliadau iechyd lleol (20%) ac elusennau lleol (19%). Roedd garddwyr proffesiynol ac arbenigwyr tirlun hefyd yn ffynhonnell bwysig o gymorth a chyngor allanol i ysgolion a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau garddio. Roedd eu hyfforddiant a'u harbenigedd garddwriaeth yn golygu eu bod yn aml yn chwarae rhan allweddol wrth gyflwyno garddio yn yr ysgol.

Mae pwysigrwydd cydweithredu a rhannu gwybodaeth yn lleol yn amlwg o ganlyniadau'r arolwg (gweler Tabl 5.8 drosodd) gan fod cyfran lai o'r ysgolion yn dweud eu bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau a grwpiau ar lefel genedlaethol. O sampl yr arolwg, nododd 16% eu bod yn gweithio ar y cyd â Ffederasiwn yr Ymddiriedolaethau Groundwork - elusen gymunedol genedlaethol, nododd 14% eu bod yn cael cymorth a chefnogaeth gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne, Sir Gaerfyrddin, a hefyd gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol (RHS), a nododd 12% eu bod yn cydweithio â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ddarparu gweithgareddau garddio yn eu hysgolion.

Mae'n bosibl bod lefel gymharol isel y cydweithio rhwng ysgolion a chyfleusterau fel yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, a safleoedd tebyg eraill ledled Cymru yn arwydd nad yw lawer o ysgolion wedi'u lleoli yng nghyffiniau'r mathau hyn o adnoddau. Er hynny, roedd yna dystiolaeth bod ysgolion yn defnyddio ystod o adnoddau eraill i helpu i roi garddio yn yr ysgol ar waith, yn dibynnu ar ffocws y prosiectau garddio, megis amgylcheddwyr ac artistiaid.

**Tabl 5.8 Cydweithio lleol a chenedlaethol mewn garddio yn yr ysgol ledled Cymru**

| Sefydliad / Grwp | Nifer | Cyfran o'r sampl |
|---|---|---|
| **Lefel leol** | | |
| Ysgolion cynradd / uwchradd eraill | 214 | 32% |
| Colegau Chweched Dosbarth / Addysg Bellach | 50 | 7% |
| Sefydliadau Addysg Uwch | 62 | 9% |
| Sefydliadau iechyd | 132 | 20% |
| Grwpiau ieuenctid | 67 | 10% |
| Busnesau lleol | 219 | 33% |
| Sefydliadau crefyddol | 81 | 12% |
| Prosiectau tyfu eraill | 140 | 21% |
| Elusennau lleol | 124 | 19% |
| Eraill | 96 | 14% |
| **Lefel genedlaethol** | | |
| Ffederasiwn y Ffermydd Dinas a'r Gerddi Cymunedol | 9 | 1% |
| Y Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol | 93 | 14% |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 82 | 12% |
| Groundwork | 108 | 16% |
| Cymdeithas y Pridd | 11 | 2% |
| Amgylchedd Cymru | 42 | 6% |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | 42 | 6% |
| Dysgu drwy Dirluniau Cymru | 57 | 9% |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 93 | 14% |
| Eraill | 68 | 10% |

*Defnyddio deunyddiau'r cwricwlwm i gyflwyno garddio yn yr ysgol*

Roedd yr athrawon yn defnyddio amryw o ddeunyddiau addysgu yn amgylchedd y dosbarth i gefnogi defnyddio garddio yn y cwricwlwm. Roedd y deunyddiau hyn yn amrywio o werslyfrau a ddarperid drwy'r system addysg i nodiadau cyfarwyddyd sylfaenol ar dasgau ymarferol ac arbrofion y gellid eu gwneud yn y dosbarth. Er hynny, mae canfyddiadau'r arolwg yn tynnu sylw at brinder gwybodaeth ddefnyddiol a pherthnasol ar integreiddio garddio yn yr ysgol yn y cwricwlwm, ac roedd hyn yn effeithio ar allu'r ysgolion i elwa'n llawn ar y gweithgareddau garddio presennol. Awgrymwyd y gallai cwricwlwm wedi'i seilio ar arddio a fyddai'n darparu gwybodaeth ymarferol ar integreiddio garddio yng nghwricwlwm yr ysgol, ac yn mynd i'r afael ag anghenion penodol yr athrawon a'r gwahanol gategorïau oed, ddatrys yr anawsterau sydd gan athrawon ar hyn o bryd wrth geisio integreiddio'r pwnc yn effeithiol.

Bernid bod deunyddiau i gefnogi garddio yn yr ysgol yn y cwricwlwm addysgol yn cael hanfodol i lwyddiant gweithgareddau garddio. Yn ogystal, awgrymwyd y gallai gwella argaeledd a hygyrchedd y deunyddiau cymorth leihau faint o amser paratoi yr oedd ei angen er mwyn defnyddio garddio fel arf dysgu. Os oedd garddio yn yr ysgol garddio am fod ar gael yn rhwyddach i'w ddilyn mewn ysgolion ledled Cymru awgrymwyd y gallai deunyddiau fel gwerslyfrau a meysydd llafur a ddarperid drwy'r system addysg gael eu hadolygu i ychwanegu mwy o wybodaeth berthnasol a defnyddiol ar y pwnc. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cydnabod y byddai newidiadau o'r fath yn anochel yn codi nifer o faterion, yn enwedig costau deunyddiau adolygu, a'r angen i gadw'r wybodaeth yn gyfoes, a dadleuwyd y byddai hynny'n golygu bod angen ymrwymiad hirdymor gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau addysg ledled Cymru.

Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn dangos nad yw athrawon yn dibynnu'n llwyr ar ddefnyddio deunyddiau a ddarperir drwy'r system addysg i helpu i gyflwyno garddio yn yr ysgol. Er bod rhai ymatebwyr yn dweud eu bod wedi cael rhyw fath o hyfforddiant ffurfiol mewn addysg garddio, roedd y mwyafrif helaeth o athrawon a chydlynwyr garddio yn dibynnu ar eu gwybodaeth a'u profiad personol eu hunain o arddio i gefnogi eu gweithgareddau garddio yn yr ysgol. Gallai hyn o bosibl awgrymu y byddai athrawon heb ddiddordeb mewn garddio yn llai tebyg o gymryd rhan mewn garddio yn yr ysgol oni bai eu bod yn cael digon o hyfforddiant i ymgyfarwyddo â chysyniadau a sgiliau sylfaenol garddio. Mae hefyd yn awgrymu ei bod yn bosibl nad oes llawer o ysgolion neu awdurdodau lleol wedi bod yn mynd ati i annog athrawon i chwilio am hyfforddiant ffurfiol mewn sgiliau garddio.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y byddai arweiniad a hyfforddiant ar ddarparu garddio yn yr ysgol yn ystod diwrnodau hyfforddi athrawon yn ffordd effeithlon i gyflwyno manteision garddio fel rhan o 'gwricwlwm amlddisgyblaeth' i'r ysgolion. Mae'r awgrymiadau hyn yn dangos rhywfaint o frwdfrydedd ymysg athrawon a chydlynwyr garddio i sicrhau addysg bellach mewn defnyddio garddio yn yr ysgol.

## Cyllid i weithgareddau garddio yn yr ysgol

Mae'n anochel bod unrhyw raglen newydd o arddio yn yr ysgol yn gofyn cymorth ariannol, o ran buddsoddiad cychwynnol mewn offer garddio, adnoddau addysgol a chynnal a chadw, datblygu ac ehangu parhaus. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod ariannu gweithgareddau garddio yn fater allweddol ar gyfer llwyddiant gweithgareddau garddio yn yr ysgol.

Roedd cyfran gymharol uchel, sef 62% o'r ysgolion yn yr arolwg yn cael cymorth ariannol o gyllideb yr ysgol i ymgymryd â gweithgareddau garddio. Roedd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i brynu offer ac adnoddau garddio, ac i ariannu ymweliadau dydd neu deithiau maes i

safleoedd allanol. Yn ogystal, roedd 23% o'r ysgolion hefyd wedi cyflwyno gweithgareddau garddio ar ôl cael adnoddau gan amryw o fentrau ymgyrchoedd cenedlaethol a oedd yn cael eu rhedeg gan uwchfarchnadoedd.

Roedd y ffynonellau cyllid eraill yn cynnwys cyfraniadau gan fusnesau lleol ac elusennau lleol a chenedlaethol, cystadlaethau lleol a chenedlaethol amrywiol a digwyddiadau codi arian a drefnwyd gan yr ysgol, gan dangos y creadigrwydd y mae ei angen i godi arian i sicrhau parhad y gweithgareddau garddio presennol neu i gyflwyno gweithgareddau newydd. Roedd y ffyrdd creadigol a ddefnyddiwyd gan yr ysgolion i godi arian i gefnogi garddio yn yr ysgol yn cynnwys gwerthu planhigion a chynnyrch a chiniawau ysgol, lle roedd y myfyrwyr yn defnyddio cynnyrch eu gerddi i gefnogi garddio yn yr ysgol. Roedd y dulliau codi arian hyn hefyd yn caniatáu i'r gerddi fod yn lled-hunangynhaliol. Drwy weithgareddau o'r fath, roedd y myfyrwyr hefyd yn dysgu am economeg, cyllid, hysbysebu a marchnata, prynu ac archwilio wrth iddyn nhw hyrwyddo a gwerthu cynnyrch o'r gerddi a'r mannau tyfu. Nododd nifer o athrawon hefyd fod rhoddion yn aml yn dod o'u pocedi eu hunain, neu gan rieni a chyfeillion yr ysgol.

Er bod cyllid yn cael ei enwi gan yr ymatebwyr fel ffactor allweddol wrth bennu llwyddiant cyffredinol gweithgareddau garddio, roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo ei fod ar hyn o bryd yn annigonol. Dadleuwyd nad oedd yr ysgolion yn cael y gefnogaeth ariannol y mae arnyn nhw ei hangen i dalu i ddarparu a pharhau â garddio yn yr ysgol.

## Datblygu garddio yn yr ysgol yng Nghymru yn y dyfodol

O'u holi am eu cynlluniau ar gyfer datblygu gweithgareddau garddio yn amgylchedd yr ysgol yn y dyfodol, roedd yr ysgolion yn gadarnhaol iawn, gyda 78% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn bwriadu cynyddu lefel y gweithgareddau garddio yn eu hysgolion. Dywedodd 18% arall o'r ymatebwyr fod lefel bresennol y ddarpariaeth yn debyg o aros yr un fath, ac roedd y 4% arall o'r ymatebwyr naill ai'n ansicr neu heb roi ateb. Yn sgil y cwestiwn hwn, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa ffactorau a fyddai'n debyg o gyfyngu ar ddarpariaeth gweithgareddau garddio yn eu hysgol nhw yn y dyfodol.

Roedd y ddau gyfyngiad a grybwyllwyd amlaf yn ymwneud â baich gwaith athrawon a chyfyngiadau ar y gyllideb, a nodwyd gan 63% a 62% o ymatebwyr yn y drefn honno. Ar draws yr arolwg, dywedodd 24% o'r ymatebwyr fod datblygiadau pellach mewn gweithgareddau garddio yn yr ysgol yn debyg o gael eu cyfyngu gan ofynion y cwricwlwm cenedlaethol, a thynnodd 21% sylw at y diffyg gan yr awdurdod lleol. Cafodd yr angen i wella lefel y sgiliau ymarferol a'r profiad mewn garddio yn yr ysgol ei amlygu hefyd fel mater allweddol, gyda 22% yn nodi bod diffyg gwybodaeth ac arbenigedd mewn garddio yn eu hysgol nhw yn debyg o gyfyngu ar eu cyfranogiad mewn gweithgareddau garddio, tra tynnodd 17% sylw at ddiffyg hyfforddiant priodol i athrawon. Cafodd prinder tir a gofod addas mewn ysgolion i ymgymryd â gweithgareddau garddio ei enwi hefyd fel rhwystr gan 17% o'r ymatebwyr.

## Rhwystrau sy'n atal gweithgareddau garddio yn yr ysgol

Gofynnodd yr arolwg am wybodaeth gan yr ysgolion nad ydyn nhw'n cymryd rhan ar hyn o bryd mewn unrhyw fath o weithgareddau garddio ar yr hyn sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath. Dim ond 25 o ysgolion ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Fel y gwelir yn Nhabl 5.9, y rhwystrau a grybwyllwyd amlaf oedd y cynnydd parhaus yn llwyth gwaith athrawon a phwysau ar amser, a grybwyllwyd gan 72% o'r holl ymatebwyr, a chyllid digonol o gyllideb yr ysgol a nodwyd gan dri o bob pedair ysgol a ymatebodd i'r arolwg.

Ar ben hyn, dywedodd 40% o'r ymatebwyr fod eu hysgol nhw'n brin o'r wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol i'w galluogi i

gyflwyno a datblygu gweithgareddau garddio yn yr ysgol. Mae'n bosibl bod y mater hwn i'w briodoli i ddiffyg arweiniad ar roi garddio ar waith yn yr ysgol, yn enwedig o gofio bod yr un gyfran hefyd yn datgan bod eu hysgolion yn cael eu hatal rhag cymryd rhan mewn dysgu am arddio oherwydd diffyg cyfleoedd hyfforddi addas i athrawon a chydlynwyr garddio. Yn yr un modd, nododd 32% o'r ymatebwyr brinder deunyddiau addysgol ar arddio yn yr ysgol a soniodd cyfran gyfartal am anawsterau o ran ymgorffori gweithgareddau garddio yng nghwricwlwm yr ysgol.

O'u holi am eu cynlluniau at y dyfodol, mynegodd 56% o'r holl ymatebwyr ddiddordeb mewn darparu rhyw fath o raglen arddio yn eu hysgol. Dywedodd 40% arall o'r ysgolion y gallent ystyried cyflwyno gweithgareddau o'r fath yn y dyfodol.40

**Tabl 5.9 Rhwystrau sy'n atal darparu gweithgareddau garddio yn yr ysgol**

| Rhwystrau allweddol | Nifer (n=25) | Cyfran o'r sampl |
|---|---|---|
| Llwyth gwaith athrawon | 18 | 72% |
| Cyfyngiadau'r gyllideb | 15 | 60% |
| Diffyg gwybodaeth / arbenigedd | 10 | 40% |
| Diffyg hyfforddiant priodol i athrawon | 10 | 40% |
| Cyfyngiadau'r cwricwlwm | 8 | 32% |
| Argaeledd deunyddiau addysgol am arddio yn yr ysgol | 8 | 32% |
| Dim man addas / tir ar gael | 6 | 24% |
| Diffyg cefnogaeth yn yr ysgol | 4 | 16% |
| Diffyg cefnogaeth gan yr awdurdod lleol | 4 | 16% |
| Diffyg cefnogaeth gan y rhieni | 3 | 12% |
| Diffyg diddordeb ymhlith y disgyblion | 2 | 8% |
| Diffyg diddordeb ymhlith yr athrawon | 2 | 8% |
| Pryderon ynglyn â diogelwch y disgyblion | 1 | 4% |
| Eraill | 4 | 16% |

# ADRAN 6: CASGLIADAU AC ARGYMHELLION POLISI

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig adolygiad cynhwysfawr a helaeth o dyfu cymunedol yng Nghymru. O ran ei gwmpas, bu'r prosiect ymchwil yr ymdrinnir ag ef yn yr adroddiad yn ystyried holl rychwant tyfu cymunedol: rhandiroedd, gerddi cymunedol, prosiectau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned, a'r arddwriaeth, y garddio a'r tyfu sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion. O ran daearyddiaeth, roedd yn cynnwys pob rhan o Gymru, wledig a threfol.

Cafodd amryw o ddulliau ymchwil eu defnyddio, a rhai o'r cyfnodau ymchwil yn rhedeg ar y cyd. Yn gyntaf, cafwyd cyfweliadau â'r rhanddeiliaid allweddol a swyddogion o Lywodraeth Cymru a oedd yn aelodau o Grwp Gorchwyl a Gorffen tyfu bwyd yn gymunedol ac â chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Ail gyfnod yr ymchwil oedd arolwg o brosiectau tyfu cymunedol ledled Cymru. Yn sgil yr arolwg hwnnw, dewiswyd 20 o brosiectau tyfu cymunedol ar gyfer astudiaethau achos manwl. Mewn cyfnod ymchwil arall cafwyd arolwg o dyfu cymunedol mewn ysgolion ledled Cymru. Cyfnodau olaf y gwaith ymchwil oedd grwp ffocws gydag aelodau o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen; cyfres o bedwar gweithdy rhanbarthol; a chyfweliadau â chynrychiolwyr tyfu cymunedol yn Lloegr a'r Alban, i roi data cymaradwy.

Mae'n eglur o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adrannau blaenorol yn yr adroddiad hwn bod tyfu cymunedol yng Nghymru yn sylweddol o ran ei raddfa, yn eang ei natur, ac yn bwysig i dyfwyr unigol, i gymunedau, ac yn ei rôl posibl mewn diogelwch bwyd. Serch hynny, er bod yr ymchwil wedi nodi enghreifftiau o arferion da y gellid adeiladu arnyn nhw, nododd y rhai a fu'n cymryd rhan yn yr ymchwil nifer o lyffetheiriau a rhwystrau tybiedig a oedd yn eu barn nhw yn atal tyfu cymunedol rhag bod yn fwy arwyddocaol byth a gwireddu ei botensial llawn dros Gymru.

Yn y fan hon, mae'n bwysig nodi cyfraniad yr FCFCG at dyfu cymunedol, yn enwedig eu rhaglen Tyfu Pobl.[9] Lansiwyd y rhaglen ym mis Medi 2011, sef ar ôl prif gyfnod casglu tystiolaeth yr ymchwil. O ganlyniad, ceir gorgyffwrdd rhwng amcanion Tyfu Pobl a rhai o'r awgrymiadau polisi yn sgil yr ymchwil sydd wedi'u nodi isod. Mae gan y synergeddau amlwg rhwng nodau Tyfu Pobl a'r awgrymiadau polisi hyn yn sgil yr ymchwil y potensial i fod o gymorth mawr i ddatblygiadau hirdymor mewn tyfu cymunedol yng Nghymru.

Yn yr adran olaf hon o'r adroddiad, felly, rydym yn nodi'r casgliadau o'n gwaith tystiolaeth ac yn cynnig argymhellion polisi a fydd, o'u gweithredu, yn codi proffil tyfu cymunedol yng Nghymru, ac yn symud tuag at gynyddu ei arwyddocâd a chyrraedd ei botensial.

## Awdurdodau lleol a thyfu cymunedol

Trwy gydol yr ymchwil, dadleuwyd y dylai'r awdurdodau lleol chwarae rhan fwy gweithredol a chanolog i annog a helpu i gyflawni gweithgareddau tyfu bwyd cymunedol ar y lefel leol. Er hynny, roedd

9 Mae rhaglen Tyfu Pobl yn rhaglen tair blynedd a lansiwyd ym mis Medi 2011 gan anelu at ddatblygu ac ehangu ar waith y Ffederasiwn yng Nghymru. Mae'n cael ei ariannu o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 ac yn rhoi cefnogaeth a chyngor i brosiectau tyfu cymunedol presennol a newydd yng Nghymru, gan ganiatáu rhannu'r arfer gorau a throsglwyddo gwybodaeth a sgiliau yn y sector. Mae'r rhaglen yn darparu amrywiaeth o gymorth ar gyfer modelau gwahanol o gynlluniau tyfu cymunedol, gan gynnwys ffermydd a gerddi cymunedol, rhandiroedd, perllannau cymunedol, amaethyddiaeth a gefnogir yn gymunedol a gerddi marchnad dan reolaeth gymunedol. Mae gwybodaeth bellach am waith y Ffederasiwn ar gael ar eu gwefan: http://farmgarden.org.uk/home

yna deimlad bod diffyg gwybodaeth ac arweiniad clir, effeithiol gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn eu hatal rhag gwneud hynny a bod hyn yn arwain at ymagweddau anghyson at dyfu cymunedol ledled Cymru. Gan hynny, gallai'r argymhellion canlynol, a ddatblygwyd ar sail trafod gyda phrosiectau tyfu gynorthwyo'r awdurdodau lleol i ddatblygu gweithdrefnau clir i ymdrin â gweithgareddau tyfu cymunedol.

Yn fras, dadleuwyd y dylai'r awdurdodau lleol:

- Datblygu polisïau a strategaethau ffurfiol ar gyfer tyfu cymunedol, gyda chysylltiadau ffurfiol â chynlluniau strategol yr awdurdodau lleol, polisïau cynllunio defnyddio tir a pholisïau a strategaethau lleol eraill ar draws yr awdurdodau;

- Ystyried cyfleoedd i gydweithio ag awdurdodau lleol eraill i ddarparu cyd strategaethau tyfu cymunedol, gan hybu mwy o effeithlonrwydd a chyfnewid gwybodaeth;

- Defnyddio'r dull partneriaeth yma i hybu, cefnogi a darparu gweithgareddau tyfu bwyd cymunedol ar y lefel leol a rhanbarthol.

Yn fwy penodol, daeth yr argymhellion a ganlyn i'r awdurdodau lleol allan o'r ymchwil:

- Adnabod cefnogaeth a chymorth yr awdurdod lleol ar gyfer tyfu cymunedol a chyfeirio pobl atyn nhw. Gallai hyn gynnwys dod o hyd i dir sy'n perthyn i'r awdurdod lleol neu dir arall; cynorthwyo gyda cheisiadau grant; cymorth wrth drafod prosesau'r awdurdodau lleol, megis sicrhau caniatâd cynllunio; a helpu i hybu prosiectau tyfu yn ardal yr awdurdod lleol;

- Datblygu proses glir ar gyfer grwpiau ac unigolion sy'n gwneud cynigion neu ymholiadau ynghylch sefydlu prosiectau tyfu a threfnu bod hyn ar gael ar wefan yr awdurdod lleol. Gallai hyn gynnwys sefydlu pwynt cyswllt ar gyfer gweithgareddau tyfu cymunedol yn yr awdurdod lleol, megis swyddog cynaliadwyedd neu swyddog datblygu cymunedol, i gynghori prosiectau tyfu ac unigolion sydd â diddordeb ar bolisïau perthnasol yr awdurdod lleol ac i roi canllawiau ar baratoi a chyflwyno datganiadau ffurfiol o ddiddordeb;

- Dyrannu cymorth staff penodol yn yr awdurdod lleol i gydlynu a goruchwylio'r gwaith o weithredu gweithgareddau tyfu cymunedol ar lawr gwlad;

- Penderfynu ar feini prawf ar gyfer asesu cynigion i ddefnyddio tir sy'n eiddo i'r awdurdod lleol at dyfu cymunedol. Hybu mewnbwn gan adrannau ac is-adrannau ar draws yr awdurdod lleol, megis datblygu cynaliadwy, yr amgylchedd, cynllunio, rheoli gwastraff, addysg, datblygu cymunedol, a pharciau a thirweddau er mwyn sicrhau bod y prosiectau'n cyfrannu at ystod eang o feysydd polisi a blaenoriaethau'r awdurdod lleol.

## Materion tir

### (i) Y tir sydd ar gael

Mae mynediad i dir ar gyfer tyfu bwyd yn agwedd hanfodol ar system bwyd cynaliadwy. Eto i gyd, yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r diffyg tir sydd ar gael wedi dod yn rhwystr mawr sy'n atal gweithgareddau tyfu bwyd a gweithgareddau garddwriaeth hyfyw, ar raddfa fach rhag cael eu creu ledled Cymru, ac mae'r galw am dir yn y sector cymunedol wedi bod yn llawer uwch na'r ffynonellau cyflenwi traddodiadol. Roedd y rhai a fu'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o fynd i'r afael â'r sefyllfa hon ac i ddod â mwy o dir segur i mewn i ddefnydd cymunedol cynhyrchiol.

Dadleuwyd bod yna lawer iawn o dir nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn y sector cyhoeddus y gellid ei ddefnyddio i dyfu bwyd, ond roedd system gymhleth ac aneffeithiol yn ei gwneud yn anodd gwybod ble roedd y tir hwn a phwy oedd yn berchen arno, a dywedwyd bod y broses o ofyn am gael ei ddefnyddio hyd yn oed yn fwy o broblem.

Mewn ymateb i'r anawsterau hyn, dadleuwyd y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth uchel i ryddhau tir ar gyfer tyfu cymunedol. Awgrymodd yr ymchwil yr argymhellion polisi canlynol i Lywodraeth Cymru:

- Cychwyn arolwg i ganfod yr holl dir cyhoeddus, sydd â'r potensial i dyfu bwyd. Dylai'r arolwg ffurfio sail ar gyfer rhestr o'r holl diroedd cyhoeddus yng Nghymru, gan adeiladu ar waith Gwasanaeth Ymgynghorol Tir Cymunedol (CLAS) Lloegr a'r Alban. Dylai'r rhestr eiddo gael ei defnyddio i nodi safleoedd y gellir eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau tyfu cymunedol, yn y tymor byr a'r tymor hir, a'i chynnal i adlewyrchu newidiadau mewn amodau, ac i nodi adnoddau newydd sy'n dod i'r amlwg;

- Annog cyrff a noddir gan y llywodraeth, ysgolion, ysbytai, carchardai, sefydliadau dielw (fel cymdeithasau tai a chwmnïau cydweithredol), a sefydliadau crefyddol i nodi tir addas ar gyfer gweithgareddau tyfu cymunedol;

- Cynghori'r awdurdodau lleol i hybu defnyddio dros dro ar dir gwag sydd ym mherchnogaeth y cyngor a thir preifat at weithgareddau tyfu cymunedol drwy ddefnyddio 'prydlesau cyfamser'.

Enwyd partneriaethau rhwng tirfeddianwyr a grwpiau cymunedol sydd â diddordeb mewn tyfu bwyd fel ateb arall i'r prinder tir, ond cydnabuwyd bod hyn yn dod â set arall o gyfyngiadau o ran amharodrwydd tirfeddianwyr i ryddhau tir i brosiectau tyfu cymunedol dros dro neu ar sail tymor hir. Mae'r ymchwil yn dangos bod yna dri phrif reswm dros yr amharodrwydd hwn. Yn gyntaf, roedd prisiau tir uchel yn tueddu i annog tirfeddianwyr i ddal gafael ar dir gan ragweld y byddai'n cael ei ddatblygu. Yn ail, roedd y tirfeddianwyr yn ansicr o oblygiadau cyfreithiol rhyddhau tir amaethyddol i grwpiau cymunedol. Yn drydydd, roedd y tirfeddianwyr yn bryderus yn aml fod grwpiau cymunedol yn brin o'r sgiliau technegol a'r arbenigedd angenrheidiol i ymdrin â materion yn ymwneud â phrydlesau a materion cyfreithiol eraill (gan gynnwys cynllunio), ac i reoli'r tir yn effeithiol.

I fynd i'r afael â'r materion hyn, dyma ddau argymhelliad polisi i Lywodraeth Cymru:

- Ffurfio fframwaith cyfreithiol tryloyw ar gyfer rhyddhau tir amaethyddol i grwpiau cymunedol;

- Rhoi cymhellion i dirfeddianwyr i ryddhau tir i brosiectau tyfu cymunedol.

Dadleuai rhai a fu'n cymryd rhan yn yr ymchwil ac a oedd yn ymwneud â rhandiroedd fod angen diwygio'r Ddeddf Rhandiroedd, gan gyfeirio'n benodol at y pwyntiau a ganlyn:

- Diwygio'r Ddeddf Rhandiroedd i gymryd i ystyriaeth newidiadau mewn amodau a blaenoriaethau:

  – Cynnwys a gorfodi terfyn amser i'r awdurdodau lleol ymateb i ymholiadau;

  – Cynnwys sancsiynau cryfach a gorfodadwy mewn achosion pan na fydd yn awdurdodau lleol yn darparu tir at randiroedd;

  – Defnyddio iaith fwy modern a thryloyw;

- Cynnwys darpariaethau ynghylch gwerthu cynnyrch gormodol.

**(ii) Deiliadaeth ansicr**

Mae canfyddiadau'r ymchwil yn dangos bod ansicrwydd daliadaeth tir yn fater pwysig ar gyfer pob model tyfu cymunedol, ac yn cael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd gweithgareddau tyfu bwyd. I ymdrin â'r mater hwn, dylai Llywodraeth Cymru:

- Rhoi cyngor a chymorth i grwpiau cymunedol ac unigolion sydd â diddordeb mewn tyfu bwyd ar wahanol ddulliau o godi arian i brynu tir;

- Rhoi cyngor ar negodi cytundebau prydles;

- Diogelu drwy'r gyfraith y mannau tyfu cymunedol a'r rhandiroedd sydd wedi'u sefydlu er mwyn galluogi cymunedau a grwpiau i sicrhau manteision hirdymor o'u gwaith a chael gwared ar y risg o golledion trwy ddatblygu.

**(iii) Cynllunio**

Amlygodd yr ymchwil nad yw hyfywedd yr agenda tyfu bwyd cymunedol yn cael ei effeithio gan system gynllunio nad oedd wedi esblygu i adlewyrchu anghenion cyfoes y system fwyd ac a oedd yn methu cefnogi'r arallgyfeirio angenrheidiol mwn gweithgareddau amaethyddiaeth a bwyd. Yn gysylltiedig â mater argaeledd tir, roedd yna argraff gyffredin bod buddiannau cyferbyniol a chryfderau'r lobi tai a diwydiant yn golygu bod datblygu yn dal yn drech na'r angen i gynnal neu i greu tir newydd ar gyfer cynhyrchu bwyd.

Lle roedd tir yn cael ei ddarparu, datgelodd yr arolwg a'r gwaith ar yr astudiaethau achos dystiolaeth bod prosiectau tyfu cymunedol, presennol ac arfaethedig, yn gyson yn wynebu rhwystrau yn y system gynllunio. Roedd y data o'r cyfweliadau yn awgrymu bod anawsterau ar y ddwy ochr, gyda llawer o gymunedau a grwpiau yn aml heb yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol i ddelio â'r system gynllunio, a gyda'r cynllunwyr yn ansicr ynghylch sut i ddelio â cheisiadau am weithgareddau tyfu cymunedol. Mewn ymateb i hyn, dadleuwyd y dylai'r system gynllunio gefnogi datblygiad gweithgareddau ar raddfa fach yn y gymuned i gynhyrchu bwyd a'r seilwaith perthynol, megis twneli polythen a siediau, a rhoi arweiniad clir a chymorth i alluogi hyn.

- Datblygu pecynnau cymorth i roi cyngor ymarferol, enghreifftiau a gwasanaeth cyfeirio ar gyfer grwpiau tyfu bwyd cymunedol, tirfeddianwyr, awdurdodau lleol, Cynghorau Cymuned ac eraill yn y gymuned sy'n awyddus i ddatblygu prosiectau tyfu cymunedol. Gallai'r pecynnau cymorth hyn roi gwybodaeth ar faterion cyfreithiol a materion cynllunio.

Awgrymodd deiliaid rhandiroedd, sy'n pryderu y gallai eu lleiniau gael eu colli i ddatblygiadau, y dylid cynnwys darparu lle ar gyfer rhandiroedd mewn cynlluniau datblygu. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru:

- ofyn am ddarpariaeth statudol ar gyfer tor i randiroedd a thyfu cymunedol mewn datblygiadau newydd.

## Materion ariannol

Er y cydnabuwyd bod darparu cymorth ariannol i helpu gyda datblygu a gweithredu gweithgareddau tyfu bwyd cymunedol ar hyn o bryd yn ddigonol yng Nghymru, roedd y prosiectau a'r grwpiau yn feirniadol o natur hynod gymhleth a thameidiog y ffrydiau a'r prosesau ariannol, gan deimlo eu bod yn cymhlethu twf a hyfywdra prosiectau sy'n bodoli eisoes ac yn atal gweithgareddau newydd rhag cael eu creu.

Yn ogystal, roedd llawer o'r gweithgareddau diweddar ar dyfu cymunedol y tynnwyd sylw atyn nhw yn

gynharach yn yr arolwg a'r gwaith ar yr astudiaethau achos wedi cael cymorth cyhoeddus, er enghraifft drwy gyllid gan GIG Cymru, y Gronfa Loteri Fawr a'r Fenter Trefi Taclus, i enwi ond ychydig. Cafwyd pryderon eang bod y ffrydiau ariannu hyn oedd mewn perygl o gael eu hailddosbarthu yn yr hinsawdd economaidd bresennol, ac y byddai unrhyw ganlyniadau cadarnhaol a gafwyd o'r buddsoddiad hwn yn cael ei golli o'r herwydd. Dadleuwyd y dylai effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol prosiectau bwyd lleol gael eu gwerthuso ac y dylai eu cyfraniad at system fwyd gynaliadwy gael ei ddeall a'i gydnabod yn well.

I fynd i'r afael â'r materion hyn, argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru:

- Neilltuo ffrwd gyllid briodol ar gyfer tyfu cymunedol;
- Clustnodi cyllid i ariannu prosiectau amaethyddiaeth a gefnogir yn gymunedol;
- Sefydlu 'siop un stop' ar gyfer cyllid tyfu cymunedol, yn debyg i'r hyn a ddarperir gan Gyllid Cynaliadwy Cymru drwy borth Cyllid Trydydd Sector Cymru.[10]
- Symleiddio prosesau

Cafodd dau bwynt arall eu gwneud ynghylch cyllid gan y rhai a fu'n cyfrannu at yr ymchwil. Yn gyntaf, dywedwyd ei bod yn haws sicrhau cyllid cyfalaf na'r cyllid refeniw angenrheidiol i ddatblygu a chynnal prosiectau tyfu cymunedol o ran seilwaith a phersonél. Yn ail, dadleuwyd y dylai arian fod ar gael i barhau prosiectau presennol, yn hytrach na dim ond ar gyfer prosiectau newydd. Awgrymiadau polisi sy'n deillio o'r dystiolaeth ymchwil yw y dylai Llywodraeth Cymru:

- Adolygu prosesau gwneud cais, gan anelu at y canlynol:
  - Galluogi prosiectau i barhau.
  - Galluogi cyllid refeniw.
- Creu cysylltiadau mwy pendant â rhaglenni i ariannu gwirfoddolwyr, megis WCVA, Gwirfoddolwyr y Mileniwm a chynllun gwobrau Dug Caeredin;
- Galluogi cymorth a chyllid penodol ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr mewn prosiectau tyfu.

## Cyfarwyddyd a chymorth

Roedd tystiolaeth yr ymchwil yn awgrymu bod darpariaeth gwasanaethau cyfarwyddyd a chymorth ar gyfer prosiectau tyfu cymunedol yn dameidiog iawn ac roedd yn ymddangos bod diffyg cydlynu strategol ar y lefel genedlaethol. Adeg yr ymchwil, mynegodd y rhai a fu'n cymryd rhan yn yr ymchwil lefelau isel o foddhad â'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Er hynny, mae'n bwysig nodi bod rhaglen yr FCFCG 'Tyfu Pobl' lansiwyd ym mis Medi 2011 yn dechrau mynd i'r afael â llawer o'r materion hyn ac y bydd yn darparu amrywiaeth o gymorth ar gyfer modelau gwahanol o dyfu cymunedol. Roedd yna alwadau ar i Lywodraeth Cymru ddysgu oddi wrth raglen Tyfu Pobl ac adeiladu arni i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu rhwydwaith cymorth ledled Cymru, a hwnnw o bosibl yn cysylltu â'r argymhelliad polisi cynharach i sefydlu corff a fyddai'n 'siop un stop' ar gyfer cyllid tyfu cymunedol.

- Sefydlu rhwydwaith cymorth Cymru-gyfan ar gyfer tyfu cymunedol;

[10] Mae Cyllid Cynaliadwy Cymru yn wasanaeth cyngor ariannol i sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru, a ddatblygwyd ar y cyd gan CGGC a Llywodraeth Cymru, gyda chymorth y Gronfa Loteri Fawr. Mae'n cynnal porth cyllid sy'n rhoi mynediad i gronfa ddata chwiliadwy o gyfleoedd ariannol, cyngor a chymorth ar godi arian yn y Deyrnas Unedig a chyfeiriadau at adnoddau defnyddiol ar gyllid. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar gael ar eu gwefan: http://www.sustainablefundingcymru.org.uk/welcome.

- Cryfhau'r gweithgareddau rhwydweithio ymysg prosiectau tyfu cymunedol presennol a newydd, o fewn fframwaith rhaglen Tyfu Pobl yr FCFCG, er mwyn caniatáu cymorth cymheiriaid, lledaenu'r arferion gorau, offer ac adnoddau, a chryfhau effaith prosiectau ar gynaliadwyedd a'r gymdeithas yn eu cymunedau;

- Sefydlu cydlynu strategol ar agenda tyfu cymunedol ar y lefel genedlaethol;

- Llunio canllawiau cryfach i'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cysondeb yn llywodraethiant tyfu cymunedol o fewn yr awdurdodau lleol a rhyngddyn nhw.

## Addysg a hyfforddiant

Dangosodd yr arolwg o weithgareddau tyfu cymunedol mewn ysgolion ledled Cymru fod tyfu a dysgu am fwyd, lle roedd yn cael ei wneud, yn weithgaredd llwyddiannus a phoblogaidd ar gyfer datblygiad hirdymor y myfyrwyr, gan ddarparu nid yn unig fanteision addysgol ond manteision cymdeithasol hefyd. Er hynny, dadleuwyd bod angen codi ymwybyddiaeth o werth ehangach gweithgareddau garddio yn yr ysgol er mwyn annog ysgolion ledled Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael. Mewn ymateb i hyn, daeth yr argymhelliad canlynol allan o'r ymchwil:

- Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i annog a helpu ysgolion ledled Cymru i ddatblygu gweithgareddau garddio yn yr ysgol fel adnodd i wella dysgu trawsgwricwlaidd.

Cafodd un broblem benodol ynghylch delwedd garddwriaeth a garddio ei nodi hefyd gan y rhai a fu'n cyfrannu at yr ymchwil. Roedden nhw'n dadlau nad oedd garddio a garddwriaeth yn cael eu gweld ar hyn o bryd fel llwybrau gyrfa da, ond yn hytrach yn cael eu defnyddio weithiau fel therapi: fel cyfryngau i ymgysylltu â phobl ag anghenion arbennig a phobl anodd eu cyrraedd. Ategwyd y dadleuon hyn yn yr arolwg ysgolion a ddangosodd fod garddio yn tueddu i gael ei weld fel rhywbeth a oedd yn fwy priodol i ddisgyblion 'heriol ac arbennig'.

Ceir dwy agwedd ar fodel therapiwtig garddwriaeth a garddio. Ar y naill law mae'n ymddangos ei fod wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth fynd i'r afael â rhai materion cymdeithasol, meddyliol a meddygol. Ond, ar y llaw arall, mae'r llwyddiant hwn wedi arwain at ddelwedd negyddol o ran gyrfa. Er mwyn ymdrin â'r materion hyn, dadleuwyd y dylai Llywodraeth Cymru:

- Gwella ansawdd hyfforddiant ac addysg garddwriaeth, gan adeiladu ar waith Prosiect Peilot Tyfu'r Dyfodol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru;

- Hyrwyddo garddio a garddwriaeth fel llwybrau gyrfa da, i godi proffil a gwella delwedd garddwriaeth a garddio;

- Llunio gwell rheoliadau ac arweiniad o ran cynhwysiant cymdeithasol a thyfu cymunedol, a sut i ymdrin ag anghenion troseddwyr; pobl â phroblemau alcohol a chyffuriau, a'r rhai sydd angen therapi, megis pobl ag 'anghenion arbennig' a materion iechyd meddwl;

- Creu cysylltiadau cliriach rhwng gweithgareddau tyfu cymunedol a darparwyr hyfforddiant ffurfiol a rhaglenni ar draws Cymru.

Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd bod angen gwell addysg bwyd i ysgolion ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. I helpu i gyrraedd y nod hwn, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i hybu tyfu cymunedol.

- Gosod rhaglenni ar gyfer gwell addysg bwyd i ysgolion ac i'r cyhoedd yn gyffredinol;

- Ariannu rhaglen hirdymor gyda'r nod o wneud pobl yn ymwybodol o dyfu cymunedol a mynd ati i'w hybu;

- Hybu tyfu cymunedol drwy'r cyfryngau poblogaidd, yn enwedig y teledu, er mwyn ymgysylltu â grwpiau a phobl nad ydynt eto yn ymwybodol o dyfu cymunedol nac yn gysylltiedig ag ef.

## Yr arferion gorau

Er bod awgrymiadau ar gyfer arferion da yn tueddu i ymwneud â materion technegol tyfu fel permaddiwylliant, dulliau organig, tan-hau a chompostio, roedd yna awgrymiadau eraill ar gyfer arferion da. Er enghraifft, awgrymwyd tyfu ar raddfa fawr mewn cynwysyddion fel ateb ar gyfer addysgu sut i dyfu mewn ysgolion. Roedd gan rai safleoedd drefniadau casglu dŵr, ac roedd un safle wedi gosod dyfrdwll a phwmp ynni haul. O ran prosiectau amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned [CSA], nodwyd bod CSA Stroud yn enghraifft o'r arferion gorau. Yn ôl CSA Stroud, yr uchafswm ar gyfer aelodaeth prosiect CSA yw 200. Mae'r argymhellion polisi ar gyfer yr arferion gorau yn gysylltiedig ag agenda cynaliadwyedd:

- Cymhellion / grantiau ar gyfer darparu arferion sy'n gwella cynaliadwyedd ar brosiectau tyfu cymunedol a rhandiroedd: e.e. dyfrdyllau a dyfrhau ag ynni'r haul;

- Grantiau ar gyfer toiledau compostio toiledau gwely cyrs ar gyfer prosiectau tyfu cymunedol a rhandiroedd;

- Cymhellion / grantiau ar gyfer darparu arferion sy'n gela bioamrywiaeth ar brosiectau CG a rhandiroedd: e.e. cychod gwenyn a blychau adar.

## Arweinyddiaeth

I ailadrodd, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd presennol a phosibl tyfu cymunedol, nid lleiaf o ran cyflawni amcanion ehangach sy'n gysylltiedig â chyfranogiad cymunedol, cynhwysiant cymdeithasol, addysg a diogelwch bwyd ledled Cymru. Un thema sylfaenol o'r dystiolaeth gan gyfranogwyr yr ymchwil oedd bod angen arweinyddiaeth strategol a gwaith hybu gan Lywodraeth Cymru er mwyn i dyfu cymunedol ddatblygu a chyrraedd ei botensial.

- Dylai Llywodraeth Cymru roi arweinyddiaeth strategol wrth hybu a chefnogi gweithgareddau tyfu cymunedol yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn golygu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau perthnasol eraill, ar lefel genedlaethol a lleol, i ddatblygu a gwireddu potensial tyfu cymuned yng Nghymru.

- Mae angen ymatebion polisi di-fwlch i'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae'n eglur bod gweithgareddau tyfu cymunedol yn berthnasol i ystod eang o feysydd polisi, gan gynnwys addysg a sgiliau, iechyd a gweithgarwch corfforol, tai, cynllunio, adfywio cymunedol, datblygu cynaliadwy, cyfiawnder cymdeithasol a menter gymdeithasol.

Gyda'i gilydd, mae canfyddiadau'r ymchwil a'r argymhellion polisi yn yr adroddiad hwn yn darparu'r sail ar gyfer datblygu a chynnal tyfu cymunedol yng Nghymru.

# LLYFRYDDIAETH

Ferris, J.; Norman, C. a Semplik, J. (2001) 'People, Land and Sustainability: Community Gardens and the Social Dimension of Sustainable Development', *Social Policy and Administration*, 35(5), tt.559-568.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) '*Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned'*, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd.